

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Raff ap Robert

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Alaw Mai Edwards, MPHIL, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

Eurig Salisbury BA, MPHIL

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH RAFF AP ROBERT

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2012

□ Prifysgol Cymru ©, 2012.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-907029-05-9

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol, oni bai fod rhyw arwyddocâd yn perthyn iddynt) yn yr 'Amrywiadau' wrth droed y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, fe'i cofnodir yn orgraff y llawysgrif gyntaf a restrir yn yr adran 'Ffynonellau'. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y cyfryw mewn bachau petryal yn yr adran 'Amrywiadau' ac wrth drafod trefn y llinellau, er enghraifft [17–18]. Os gadawodd y copïwr fwelch yn ei destun i ddangos bod rhywbeth yn eisiau, boed yn llythren neu yn gyfres o lythrennau, yn rhan o linell neu yn llinell neu linellau cyfan, dynodir hynny yn yr 'Amrywiadau' trwy ddefnyddio bachau petryal gwag, ond gall bachau petryal gwag ddynodi hefyd fod rhywbeth wedi ei golli am fod dalen wedi treulio, neu am fod staen neu dwll yn ei gwneud yn anodd gweld beth a oedd yno yn wreiddiol. Dynoda [...] fod yr hyn sydd yn y llawysgrif bellach yn annarllenadwy. Defnyddir llythrennau italig i ddynodi diwygiadau neu'r hyn a ychwanegwyd at y testun golygedig, boed yn llythren unigol, yn gyfres o lythrennau, neu yn air cyfan. Trafodir yn y Nodiadau y diwygiadau a wnaed, a'u cyfiawnhau.

Ni ellir bod yn sicr ynghylch awduraeth sawl englyn sydd wrth enw Raff gan fod bardd neu feirdd eraill yn cael eu henwi fel eu hawduron ar fwy nag un achlysur, ac at hyn y mae sawl englyn yn ddiennw. Onid enwir bardd neu feirdd eraill ar ddiwedd pob englyn, golyga hynny mai i Raff y priodolir y cerddi dan sylw.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar, ac wedi ei briflythrennu, ei atalnodi, ac, yn achos y cywyddau, wedi ei baragraffu. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn hawlio sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvj); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *wyd* (sef 'wyt') &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a drafodir yn y Nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau a all fod yn ddieithr heddiw neu a all fod yn cyfleu ystyron gwahanol yn oes y bardd. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

Diolchiadau

Y mae'r cerddi sydd yn y golygiad hwn yn rhan o draethawd a gyflwynwyd am radd doethuriaeth ryw ddeunaw mlynedd yn ôl bellach. Arholwyd y traethawd hwnnw gan yr Athro Gruffydd Aled Williams a'r Athro Dafydd Johnston, a rhaid i mi gydnabod fy niolch iddynt am eu sylwadau ar y pryd. Dymunaf ddiolch i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Geiriadur Prifysgol Cymru am eu cymorth wrth i'r testun gael ei baratoi yn y lle cyntaf, ac wedyn wrth i mi ei ddiwygio. Mae diolch yn ddyledus hefyd i aelodau Bwrdd Golygyddol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr' ac i'r Golygydd Ymgynghorol. Nid hwn yw'r tro cyntaf i mi ddiolch i Dr Ann Parry Owen, golygydd y gyfres, a chydabod fy nyled iddi am ei harweiniad a'i gofal wrth lywio'r gyfrol trwy'r wasg, ond gallaf gadarnhau nad yw fy ngwerthfawrogiad fymryn yn llai.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	
DIOLCHIADAU	
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	
Termau a geiriau.....	
GWAITH RAFF AP ROBERT	
RHAGYMADRODD	
TESTUN	
1. Awdl Foliant i Risiart Thelwal o Blas-y-ward	
2. Awdl Farwnad Robert Amiltwn o'r Ystrad.....	
3. Marwnad Robert Salbri, Y Rug.....	
4. Marwnad Siôn Salbri ap Syr Siôn Salbri.....	
5. Marwnad Edward ap Siôn, Archiagon Caerfyrddin	
6. Marwnad Tudur Aled	
7. Marwnad Siôn Erch ar ran Edward Llwyd.....	
8. Cywydd i Dduw.....	
9. Cywydd Merch.....	
10. Ateb i Siôn Tudur	
11. Englynion y Deg Gorchymyn.....	
12–73. Englynion ar amryfal bynciau	
ATODIAD	
i Marwnad Siôn Tudur i Raff ap Robert.....	
ii Penillion Robin Clidro i Raff ap Robert.....	
iii Englyn Siôn Tudur i Raff ap Robert.....	
iv Englyn Wiliam Llŷn i Raff ap Robert	
NODIADAU.....	
GEIRFA.....	
Enwau personau.....	
Enwau lleoedd	
LLAWYSGRIFAU	
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU	

Byrfoddau

Llyfryddol

Actau	Llyfr 'Yr Actau' yn y Testament Newydd
ADWC	Richard Lewis Jones, 'Astudiaeth destunol o awdlau, cywyddau ac englynion gan Wiliam Cynwal' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1969)
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Bangor
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
ByCyAt	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1970)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CC	<i>The Cefn Coch MSS.</i> , ed. J. Fisher (Liverpool, 1899)
CLC ²	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- CMRWBM Edward Owen, *A Catalogue of Manuscripts Relating to Wales in the British Museum* (4 vols., London, 1900–22)
- 1 Cor ‘Epistol Cyntaf Paul ... at y Corinthiaid’ yn y Testament Newydd
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- DG.net Gwefan: <http://www.dafyddapgwilym.net>
- Deut Llyfr ‘Deuteronomium’ yn yr Hen Destament
- DLIM A. Cynfael Lake, ‘Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan’ (M.A. Cymru [Abertawe], 1979)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, ed. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- Ecsodus Llyfr ‘Ecsodus’ yn yr Hen Destament
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- Esgair Llawysgrif yng nghasgliad Esgair yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Geir Beibl *Geiriadur Beiblaidd*, gol. Thomas Rees *et al.* (2 gyfrol, Wrecsam, 1926)
- Genesis Llyfr ‘Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o*

Hiraddug, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)

- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GG.net Gwefan: <http://www.gutorglyn.net>
- GHCEM *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor*, gol. Huw Ceiriog Jones (Caerdydd, 1990)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GILIV *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910).
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (2 gyfrol, Aberystwyth, 2004)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- GRCG Cennard Davies, 'Robin Clidro a'i Ganlynwyr' (M.A. Cymru [Abertawe], 1964)

- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GWLI Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad Gwyneddion ym Mhrifysgol Bangor
- Gwysanau Llawysgrif yng nghasgliad Gwysanau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- HM ii *History of Merioneth Vol II The Middle Ages*, ed. J. Beverley Smith & Llinos Beverley Smith (Cardiff, 2001)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- Huw Morus: Gw David Jenkins, 'Bywyd a Gwaith Huw Morys (Pont y Meibion) 1622–1709' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1948)
- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill 1350–1450*, gol. Henry Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (Bangor, 1925)
- Iolo Aneurin Williams Llawysgrif yng nghasgliad Iolo Aneurin Williams yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- JPWM J.R.S. Phillips, *The Justices of the Peace in Wales and Monmouthshire 1541–1689* (Cardiff, 1975)
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)

- Lewis ab Edward: Gw R.W. McDonald, 'Bywyd a Gwaith Lewis ab Edward' (M.A. Lerpwl, 1960–1)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MCh Gwefan: <https://www.medievalchester.ac.uk>
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868–
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., Washington, 1967)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts i* (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (Oxford, 1989)
- Owain Gwynedd: Gw D. Roy Saer, 'Testun beirniadol o waith Owain Gwynedd' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1961)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Panton Llawysgrif yng nghasgliad Panton yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1974)

- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J. Gwenogvryn Evans
- 1 Samuel 'Llyfr Cyntaf Samuel' yn yr Hen Destament
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (2 gyfrol, Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of St. Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13)
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP³ *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1978)
- WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- WL1 *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- Wrecsam Llawysgrif yng nghasgliad Wrecsam yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	g.	(c.) canrif
a.	<i>ante</i>	g.	gwrywaidd
adf.	adferf	gn.	geiryn
amhff.	amherffaith	gol.	golygydd, golygydd gan
amhrs.	amhersonol	grb.	gorberffaith
amr.	amrywiad ar	grch.	gorchmynnol
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
arg.	argra ¹ ad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	Gwydd.	Gwyddeleg
At.	Atodiad	H.	Hen
b.	benywaidd	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
ba.	berf anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf. (f.)	berf, -au	ll.	lluosog; llinell
c.	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c. (g.)	canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
cfrt.	gradd gyfartal	m.	marw; mewmol
Cl.	Celteg, Celtaidd	myn.	mynegol
cmhr.	gradd gymharol	n.	nodyn
Crn.	Cernyweg	neg.	negydd, -ol
Cym.	Cymraeg	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
cys.	cysylltair, cysylltiad	pres.	presennol
d.g.	dan y gair	prff.	perffaith
dib.	dibynnol	prs.	person, -ol
dyf.	dyfodol	pth.	perthynol
e.	enw	r	<i>recto</i>
eb.	enw benywaidd	repr.	reprint
e.c.	enw cyffredin	rh.	rhagenw, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	S.	Saesneg
e.e.	er enghraifft	sc.	<i>scilicet</i>
eg.	enw gwrywaidd	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
eith.	gradd eithaf	td.	tudalen
e.p.	enw priod	tt.	tudalennau
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	un.	unigol
f.	ffolio	v	<i>verso</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	vols.	<i>volumes</i>
ff.	ffolios		

Rhagymadrodd

Yr oedd Raff yn fab i Robert ap Gruffudd ap Madog ap Bleddyn Sais ap Bleddyn Goch.¹ Diogelwyd ei ach yn llawysgrif Pen 134, yn *Llyvyr mawr Griffith Hiraethoc*, sef un o lyfrau achau'r bardd a'r arwyddfardd.² Y mae'r ach yn weddol foel yn llyfr Gruffudd Hiraethog. Fe'i dilynir o dad i dad, ac ni chofnodir enwau'r gwagedd ac eithrio enw gwraig Gruffudd ap Madog. Cofnodir mai *m[am] Robert oedd gwladys vz Jenn ap leddyn goch hyd y gwyr Raff o dylwyth eo goch o ddin mel kais mwy*. Ymddengys mai Raff ei hun oedd ffynhonnell yr wybodaeth ac o'r herwydd gellir derbyn ei dilysrwydd. Ar yr un pryd gresynir na fu i Raff ddatgelu rhagor o wybodaeth am ei hynafiaid.³ Ategir yr wybodaeth yn *Llyvyr mawr Griffith Hiraethoc* gan gofnod ar ddalen rydd sy'n cynnwys deunydd achyddol ac a ymgorfforwyd yn LIGC 1578B.⁴ Y mae'r ach yn llawnach y tro hwn gan fod cofnod yno am enwau gwagedd Raff ap Robert a Robert ap Gruffudd. Gwelir mai Sioned, merch Gruffudd o Edeirnion, oedd mam Raff, a'i fod ef ei hun yn briod â Gwenhwyfar, merch Edward ap Maredudd.⁵ Perthynai Edward, a oedd ar dir y byw yn 1505, i dylwyth y Treforiaid, a disgynnai o Hywel ab Ieuan ab Adda o Drefor.⁶ Gwraig Edward ap Maredudd oedd Myfanwy, merch Rhys ab Ieuan ab y Coch ab Ieuan Du o'r Gydros,⁷ ac y mae lle i gredu mai Ieuan Du oedd gŵr Lleucu Llwyd a farwnadwyd gan y bardd Llywelyn Goch.⁸ Disgynnai Myfanwy, o ochr ei mam, o Hywel Coetmor o Benmachno yn Nanconwy.⁹ Enwir dau o blant Raff a Gwenhwyfar yn

¹ WG2 487.

² Pen 134, 142. Ar y llawysgrif, gw. RWM i, 834–47.

³ Nid enwir yr un Raff yn yr ach a rhaid gwrthod awgrym T. Gwynn Jones i Dudur Aled farwnadu un o'i hynafiaid. 'Tebyg mai o'i deulu ef [sef Meistr Raff, gwrthrych cerdd XCVI yn TA] yr oedd y beirdd oedd yn Nyffryn Clwyd yn ddiweddarach, Raff ap Robert ac Edward ap Raff', gw. TA 681. Cafodd y golygydd ei gamarwain gan y pennawd yn BL Add 10313, 21^v sef yr unig ffynhonnell a ddefnyddiodd wrth baratoi ei destun. Y mae'r cywydd yn ddideitl yn Wy 1, 204. Dangosodd Cledwyn Fychan mai Ralff Salbri, a oedd yn gwnstabl Rhuthun yn 1486, a farwnadwyd yn y cywydd dan sylw, gw. 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', Cylchg LIGC xxiii (1983–4), 45–74 (td. 66).

⁴ LIGC 1578B, 110.

⁵ Ond sylwer ar bennawd yr englyn, cerdd 35, mewn dwy ffynhonnell. Yn ôl J 138: *Englyn a wnaeth Raph ap Robert pan ofynned iddo pam na phriode ef*.

⁶ WG1 872–3; WG2 1666. Yno enwir dau o feibion Edward ap Maredudd, sef Siôn a Hywel, a nodir bod ei ferch yn briod â Raff ap Robert, ond ni chofnodwyd ei henw.

⁷ WG2 1349.

⁸ Gw. cerdd 12 yn GLIG a'r nodiadau.

⁹ WG1 449.

y cofnod yn LIGC 1578B, dau fab, sef Edward a Tomas.¹⁰ Nid oedd Tomas yn barddoni, hyd y gwyddys, ond yr oedd Edward yn brydydd cynhyrchiol iawn yn ystod y blynyddoedd 1580–1606.¹¹ Diogelwyd rhai darnau yn y llawysgrifau wrth enw gŵr o'r enw Wiliam ap Raff hefyd.¹² Gwelir marwnad i Ruffudd Wyn o'r Berth-ddu a moliant i'w fab Huw yn LIGC 3057D.¹³ Bu farw Huw Gwyn yn 1614, ac nid annichon fod brawd i Edward ap Raff yn canu yn y flwyddyn honno. Fodd bynnag, priodolir y cywydd i *Wm ap Raphe Wynn*, ac awgryma'r enw *Raphe Wynn* nad oedd y bardd yn fab i Raff ap Robert.

Cysylltir Raff yn LIGC 1578B â threfgordd 'Maencymro', neu *maes mae[n] kymro* fel y cofnodwyd y ffurf yn llyfr achau Gruffudd Hiraethog. Yr oedd Maesmaencymro yn y rhan o blwyf Llanynys a berthynai i gwmwd Dogfeiling yng nghantref Dyffryn Clwyd.¹⁴ Yn y farwnad a ganodd y bardd Siôn Tudur i Raff, fodd bynnag, fe'i cysylltir â'r Cilgwyn:

Clêr Gwynedd, cloi ar ganu,
Clo gan fin y Cilgwyn fu.¹⁵

Gellir uniaethu'r lle hwn â Rhydycilgwyn ar fap degwm 1841, er mai dau safle ar wahân yw Rhydycilgwyn a Rhydycilgwyn Isaf erbyn heddiw. Yn nhrefgordd Bachymbyd yn rhan orllewinol plwyf Llanynys yr oedd y Cilgwyn, a gwyddys bod disgynyddion Raff yn byw yno yn negawdau cynnar yr ail ganrif ar bymtheg. Galwodd Enid Roberts sylw at gofnod am briodas Elsbeth, gorwyres Raff, ac wyres ei fab Edward, ar 2 Tachwedd 1628, lle y disgrifir hi fel hyn: *Elizabeth filia Roberti ap Edward ap Ralphe de Rhÿd-y-Cyl-gwynn*.¹⁶ Ond, fel y gwelwyd, o dan Maesmaencymro y cofnodwyd yr ach yn llyfr Gruffudd Hiraethog, ac y mae lle i gredu mai Raff ei hun oedd ffynhonnell Gruffudd. Ceir ateg i'r cyswllt â Maesmaencymro mewn dogfen gyfreithiol, dyddiedig 30 Mai 1518, sy'n disgrifio'r modd y

¹⁰ Nododd Enid Roberts yn ei nodiadau ar gerdd 141 yn GST ii, 504, fod gan Raff dri mab, sef Raff, Edward a Tomas, ond camddarllen yr ach a arweiniodd at y datganiad hwn. Dyma'r cofnod perthnasol: *P: Raff, Edward / a thomas*. Tybiodd Enid Roberts mai ystyr y cofnod oedd 'Plant [Raff] yw Raff, Edward a Tomas', ond gellir bod yn bur sicr mai 'Plant Raff yw Edward a Tomas' sy'n gywir. Rhagflaenir y cofnod gan *G: Raff* (a'i ddilyn gan enw gwraig y bardd, sef Gomenhwyfar), a rhagflaenir y cofnod hwnnw gan *M: raff*; a dilynir hwnnw gan enw mam y bardd.

¹¹ MFGLI 659–71; D. Hywel E. Roberts ac R. Alun Charles, 'Raff ap Robert ac Edward ap Raff', B xxiv (1970–2), 282–300. Casglwyd canu Edward gan R. Alun Charles, gw. 'Gwaith Edward ap Raff' (casgliad teipiedig, Yr Adran Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth).

¹² *Ib.* 300.

¹³ Un copi yn unig o'r cerddi hyn a ddiogelwyd, gw. MFGLI 4205; RWM i, 251–2.

¹⁴ Perthynai rhan o blwyf Llanynys i gwmwd Ceinmeirch yng nghantref Rhufoniog a'r gweddill i gymydau Colion a Dogfeiling yng nghantref Dyffryn Clwyd, gw. WATU 143, 265. Yn ôl y pennawd i englynion Robin Clidro i Raff yn LIGC 3039B: *Raff ap Robert oedd yn tario ar emyl ffordd yn dyffryn kwyd ag ni fedre na darllain nag ysgrifennu, ond yr oedd gantho ef awen barod ag wrth hynny ef aeth i ddysgu prydyddiaeth ag i brydy, ag am hynny y kaned iddo fal hyn*.

¹⁵ GST 141.13–14. Atgynhyrchwyd y testun isod yn Atodiad i.

¹⁶ GST ii, 506.

trosglwyddodd Robert ap Gruffudd a'i fab Raff ap Robert diroedd yn nhrefgordd Maesmaencymro i wŷr o'r enw Edward ap Tomas.¹⁷ Yn wir, gellir olrhain y cyswllt â Maesmaencymro dros dair cenhedlaeth gan fod enw taid Raff i'w weld mewn stent o Ddyffryn Clwyd a wnaed yn 1465/6, o dan *Bryncredyk & Maysmayncomero*.¹⁸ Rhaid cywiro'r datganiad a wnaed yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* lle y maentumir mai gŵr o Fachymbyd oedd Raff.¹⁹ Seiliwyd y datganiad ar y cyflwyniad uwchben englyn o waith Tomas Grythor y Foch i Raff yn llawysgrif J 88:

Raffe ap Rob was a free holder of dyffryn Clwyd, and had some skill in poetrie, which made some in his hearing say that he was the best Bardd they knew, that is (said he) because my conseyte or Cowydd cost you nothing. his words were these oblegid y môd i yn canŷ ar y marâ vy hŷn. for what he did was for his own pleasure and his friends. but none will report soe much of his sonne Ed. that proves for a reward for his Muse. Well this Ra. being a neighbour of old Rob. Sal: of Rug. he dwelt at his house of Bachymbyd, where there did oftentimes resorte one Tom. Grythor y Voch who likewise had a smacke in poetry.²⁰

Diau mai'r awgrym yn y darn hwn yw fod Raff i'w weld yn fynych yng nghartref Robert Salbri ym Machymbyd yn hytrach na'i fod ef ei hun yn cartrefu yno.²¹ Diogelwyd sawl darn sy'n tystio i'r cyswllt rhwng Raff a Bachymbyd lle y trigai un o ganghennau Salbri'aid Lleweni. Canodd gywydd marwnad i Robert Salbri, ac er mai yn ystod ei oes ef y dechreuodd y Rug ger Corwen ddod yn brif gartref i'r teulu, cyfeiria Raff at ei arfer o ymweld â'r plas a oedd yn ei filltir sgwâr ei hun:

Mal anos yma 'leni
Mynd i Fachymbyd â mi.
Beth yr af fi byth i'r fan
I'm poen oll a'm pen allan?
Ei brifardd heb awr afiach
Beunydd fûm ban oedd fyw iach.²²

Ymddengys ei fod yn synio amdano ei hun fel bardd teulu Bachymbyd (*Ei brifardd ... fûm*), a cheir ateg yn y farwnad a luniodd Siôn Tudur i Raff fod

¹⁷ Melville Richards, 'Raff ap Robert', *Cylchg LIGC* xiii (1963–4), 196–7. Geilw Melville Richards sylw at ail ddogfen sy'n enwi Raff. Perthyn i'r flwyddyn 1543/4, ac ynddi cysylltir y bardd â phlwyf Llanynys.

¹⁸ *Ib.*

¹⁹ ByCy 772.

²⁰ Gw. J 88, 37–8. Priodolir yr englyn i Siôn Tudur hefyd, gw. Atodiad iii.

²¹ Ymddengys i J. Gwenogvryn Evans, yntau, gamddehongli'r cyflwyniad. Crynhodd y paragraff yn RWM ii, 88 fel hyn: 'To Raffe ap Robert of Bachymbyd, "a free holder of Dyffryn Clwyd and a near neighbour of old Rob. Salbri of Rug" '.

²² Isod 3.53–8.

iddo gyswllt arbennig â'r cartref:

Bu wraidd ben beirdd y byd,
Bu wych unbardd Bachynbyd.²³

Tebyg mai yn ystod oes Siôn Salbri, mab ac etifedd Robert Salbri, y lluniodd Raff yr englyn hwn i'r cartref:

Bachymbyd, borth byd, barth bwydau—gwresog,
Bur enwog ei breiniau,
Bo i'r neb a'i medd, mawredd mau,
Hiroes bumoes heb amau.²⁴

Yn ystod ei oes ef hefyd y lluniodd Raff un o'i englynion olaf, a barnu wrth yr olnod mewn dwy llawysgrif: *Raff ap Robert ar i ola wely pan barodd Sion Salbri o Rvg iddo llechv ai kant.*²⁵ Daw'r cyswllt â phlwyf Llanynys i'r amlwg ar achlysuron eraill. Cyfeiriwyd eisoes at y farwnad i Robert Salbri. Cymydog arall a farwnadwyd oedd archiagon Caerfyrddin, ac ar ran ei fab, Edward Llwyd ab Edward, y canodd Raff farwnad i'r telynor, Siôn Erch. Yn yr un plwyf yr oedd Plas-y-ward lle y buasai'r Thelwaliaid yn cartrefu ers tua 1400, a chyferchir Rhisiart Thelwal yn un o'r ddwy awdl sydd ar glawr. Priodolir un o'r englynion i *Raff ap Robert o lan ynvs*,²⁶ ac yn Llanhychan ym mhlwyf cyfagos Llangynhafal y trigai'r tafarnwr y gwelodd Raff yn dda ei ddychanu mewn englyn arall.²⁷ Mewn dwy gerdd dewisodd y bardd enwi Saeran, y sant y cysegrwyd eglwys Llanynys iddo.²⁸ Y mae'r cysylltiadau lleol yn bwysig hefyd pan ystyrir cadwraeth y cerddi. Diogelwyd pump o'r cywyddau mewn llawysgrif a gopiwyd gan Risiart ap Siôn o Sgorlegan ym mhlwyf Llanynys.²⁹

Dengys y ddogfen gyfreithiol yr enwir ynddi Raff a'i dad fod y bardd 'o leiaf yn bedair ar ddeg oed [yn 1518], ac mae'n bur debyg yn ddeunaw oed ... Os felly, ganed Raff ym mlynnyddoedd cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg, tua 1500'.³⁰ Y mae'r cerddi yn dystiolaeth werthfawr hefyd wrth geisio dyddio oes y bardd a chyfnod ei weithgarwch. Lluniodd Raff ddeg o awdlau a chywyddau, ac er nad yw'r nifer yn fawr, y mae'r ffaith fod chwech ohonynt yn farwnadau yn caniatáu dyddio cyfran dda o'r cerddi yn bur fanwl. Y cywydd marwnad i Dudur Aled yw'r gerdd gynharaf. Ni wyddys pa bryd yn union y bu farw Tudur, ai cyn marw ei noddwr Syr Rhys

²³ GST 141.53–4 ac isod, Atodiad i.

²⁴ Cerdd 52 a td. 17 isod.

²⁵ Cerdd 19.

²⁶ Cerdd 52.

²⁷ Cerdd 62.

²⁸ Gw. 1.48, 97 (yr awdl i Risiart Thelwal) a 5.4, 79 (y cywydd marwnad i Edward ap Siôn, archiagon Caerfyrddin).

²⁹ BL Add 31059. Diogelwyd yno hefyd y farwnad a ganodd Siôn Tudur i Raff ap Robert. Diogelwyd un o englynion Raff mewn llawysgrif arall a gopiodd, gw. troednodyn 43 isod.

³⁰ Melville Richards, *op.cit.*

ap Tomas, ynteu yn fuan wedyn, ond gwyddys mai ar 9 Chwefror 1525 y bu farw Syr Rhys.³¹ Gwŷr eraill a farwnadwyd oedd Edward ap Siôn, archiagon Caerfyrddin (m. 1535), Robert Salbri, penteulu'r Rug a Bachymbyd (m. 1550), a Siôn Salbri, Lleweni, gŵr cyntaf Catrin o Ferain (m. 1566). Y mae gwrthrychau dwy o'r marwnadau yn ffigurau annelwig, sef Robert Amiltwn o'r Ystrad a'r telynor Siôn Erch. Nid oes modd dyddio'r cerddi hyn, ond gwyddys mai ar ran Edward Llwyd o Lanynys y canwyd y farwnad i Siôn Erch, ac y mae lle i gredu iddo ef farw oddeutu 1559. Cofnodwyd yr awdl farwnad i Robert Amiltwn yn llawysgrif BL Add 14875 a gopiwyd tua 1570.³² Canwyd yr unig gerdd fawl sydd ar glawr, yr awdl i Risiart Thelwal o Blas-y-ward, yn ystod teyrnasiad y brenin Harri VIII, ac felly cyn diwedd Ionawr 1547.³³ Os oedd Raff yn ddigon hen yn y flwyddyn 1518 i gael ei enwi mewn gweithred gyfreithiol, nid annichon mai ef a ganodd yr awdl i ddelw Crist yn abaty Rhuddlan, awdl a luniwyd yr un flwyddyn:

Yn oedran pruddlan medd praw—maith ackw
 Bymthegkant a deunaw
 Y daed ystys da distaw
 I ruddlan dre roddlawn draw.³⁴

Y mae'r ddadl o blaid priodoli'r awdl i Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan yn gryfach ac felly ni chynhwyswyd y gerdd ymhlith gweithiau dilys Raff.³⁵

Y mae a wnelo nifer o'r cerddi sydd ar glawr ag aelodau o'r frawdoliaeth farddol, ac y mae'r rhain, unwaith eto, yn cynnig goleuni ar oes y bardd. Lluniodd Raff gyfres o englynion i ddychanu Gruffudd Hiraethog (m. 1564),³⁶ a chanodd gywydd i ateb cywydd o waith Siôn Tudur ac i amddiffyn y crythor Robert ap Rhys Gutun (m. 1571). Bu Raff a Wiliam Llŷn yn cyfnewid englynion ac ar achlysur arall bu Raff a'r clerwr crwydrol, Robin Clidro, yn ymryson, a'r naill yn ceisio tynnu blewyn o drwyn y llall. Bu farw Wiliam Llŷn yn 1580,³⁷ a thua'r un adeg y bu farw Robin Clidro.³⁸

Mewn tri englyn ymdrinnir â digwyddiadau cyfoes penodol. Yn y cyntaf ceir ymateb y bardd i'r allorau y dechreuwyd eu dryllio yn 1550 ar orchymyn y brenin Edward VI, a llosgi Eglwys Powls yn Llundain yw pwnc yr ail. Mydryddwyd y flwyddyn 1561 a'r dyddiad, sef 4 Mehefin, yn yr

³¹ Gw. nodyn brig cerdd 93 yn GLMorg.

³² Dyddiodd J. Gwenogvryn Evans y llsgr. rhwng 1547 a 1570, ond tua 1570 y lluniwyd hi yn ôl Daniel Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts* (i ymddangos).

³³ Gw. 1.17 *Teiroes ... i gynnal ei Ras* ac 1.84 *syfwr Harri*.

³⁴ GILIV cerdd XV.

³⁵ Gw. isod tt. 14–15.

³⁶ CLC² 291–2.

³⁷ CLC² 766.

³⁸ CLC² 634. Ni wyddys pa bryd yn union y bu Robin Clidro farw. Barnai Cennard Davies mai ar ôl 1578 y bu hynny, gw. GRCG xiv, ond 1580 yw'r dyddiad a nodir yn CLC².

englyn hwn. Ymateb y bardd yn dilyn llosgi delw o Fair yw pwnc y trydydd englyn. Ni chynigir unrhyw wybodaeth am y digwyddiad, ond gallai gyfeirio at ddelw Mair o Ben-rhys a ddinistriwyd yn y flwyddyn 1538. Nid oes modd dyddio'r unig gywydd duwiol a luniodd Raff, a'i gerdd fwyaf adnabyddus, a barnu wrth y copïau niferus a ddiogelwyd. Diau ei fod wedi ei lunio erbyn dechrau'r 1560au, os nad ynghynt, gan fod un testun yn llawysgrif Card 2.114 a gopiwyd oddeutu 1564. Ceir copi cynnar arall yn llawysgrif LIGC 3037B y dechreuodd Richard Mostyn ei chopïo yn 1574. Ni ddylid pwyso yn ormodol ar y dyddiad 'anno dom 1582' wrth droed y cywydd yn nhestun Card 2.624, testun sy'n perthyn i ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg, ac nid oes yma brawf fod Raff wedi byw hyd y flwyddyn honno.³⁹

Ar sail yr arolwg uchod ymddengys fod y bardd yn ei flodau rhwng 1525 a thua 1570.⁴⁰ Yn 1566 y canwyd y farwnad i Siôn Salbri, Lleweni, ac ni ellir bod yn sicr bod yr un gerdd arall wedi ei llunio ar ôl 1570, er bod awgrym mewn un llawysgrif mai yn 1578 y ganodd Robin Clidro ei benillion dychanol i Raff.⁴¹ Efallai ei bod yn arwyddocaol nad oes ar glawr farwnad o waith Raff i Risiart Thelwal a fu farw ar 14 Mehefin 1568 gan mai ef a gyferchir yn yr unig awdl foliant y gellir bod yn sicr i'r bardd ei llunio. Cadwyd y marwnadau a ganodd Simwnt Fychan, Wiliam Cynwal a Wiliam Llŷn i Risiart Thelwal.⁴² Os ganed Raff oddeutu 1500 cafodd oes hir, a cheir sawl awgrym yn y farwnad a ganodd Siôn Tudur iddo fod y gwrthrych yn ŵr oedrannus. Ailadroddir yr ansoddair *hen* ar bedwar achlysur, er enghraifft, *Dan bridd hwnt dwyn y bardd hen* (ll. 2) a *Dwyn*

³⁹ Dyna'r awgrym yn ByCy 772, ar sail y dyddiad wrth y cywydd i Dduw.

⁴⁰ Cynigir 'fl. 1550' yn ByCy 772, ond 1530 yw'r dyddiad a nodir wrth enw Raff yn rhestr John Davies, Mallwyd, ar ddechrau ei Ramadeg, gw. M.T. Burdett-Jones, 'Index Auctorum' Henry Salesbury ac "Authorum Britannicorum Nomina" John Davies', Cylchg LIGC xxvi (1989–90), 353–60. Ailadroddir yr un dyddiad yn y rhestr 'Authorum Nomina et quando floruerint' yn *Flores Poetarum Britannicorum* (Y Mwythig, 1710), 50, sy'n cynnwys dau ddyfyniad o gywydd Raff i Dduw, gw. 8.37–42, 65–6, ac felly hefyd yn Moses Williams, *Repertorium Poeticum* (Londini, 1726), 76. Y cywydd i Dduw yn unig a restrir yma ac yn y fersiwn llawysgrif lle y rhestrir y cywyddau o dan enwau'r beirdd unigol, gw. Llst 57, 137a. Digwydd y dyddiad 1530 drachefn yng nghopi Lewis Morris o englyn cyntaf cerdd 54 yn BL Add 14934, ac eto yn LIGC 675A lle y gwelir copi o'r cywydd i Dduw. Enwir Raff ap Robert yn dyst i gytundeb sy'n ymwneud â gwŷr o Frynffordd, Cilcaïn ac Ysgeifiog yn 1573, ond awgryma Melville Richards, *op.cit.*, nad y bardd o blwyf Llanynys oedd hwn. Yn LIGC 717B, copi Thomas Lloyd o'r *Repertorium Poeticum*, a'i ymgais i chwyddo cofnodion Moses Williams, ychwanegwyd y dyddiad 1594 ar ôl enw Raff, ond ni wyddys ar ba sail yr awgrymir iddo fyw hyd y flwyddyn honno.

⁴¹ Cofnodwyd pennill cyntaf Robin, gw. Atodiad ii, ar ddwy ddalen wahanol yn BL Add 14997, sef tt. 37 a 207. Cynigiodd J. Gwenogvryn Evans ddyddiad yn hanner cyntaf y ganrif (c. 1510–40) ar gyfer y llawysgrif, gw. RWM ii, 1014–18, ond mewn llaw ddiweddarach y cofnodwyd y penillion. Nodwyd ar ddiwedd y ddau destun *Clidro i Raph ap Robt o ddyffryn Chwyd 1578*. Barnai Cennard Davies fod y cofnod yn profi fod Raff a Robin yn dal yn fyw yn 1578, gw. GRGC xiv.

⁴² Diogelwyd cywyddau Wiliam Llŷn a Wiliam Cynwal yn llaw Rhisiart ap Siôn, Sgorlegan, yn BL Add 31059 a Card 2.201, gw. WLI cerdd 135 a MFGLI 4242.

henfardd doe o'n hanfodd (ll. 4). Sonnir hefyd am blant ac am wyrion Raff (ond heb eu henwi), a dyma awgrym arall iddo fyw hyd oedran teg.

Y mae'r farwnad a ganodd Siôn Tudur yn un gonfensiynol ar lawer ystyr.⁴³ Pwysleisir bod y bwlch ar ôl Raff yn fawr, a bod y golled i'w theimlo ymhell y tu hwnt i ffiniau ei gynefin. At hyn mawrygir ei awen trwy drosiadau megis *clo*, *maen gwn*, *saeth a taradr*, ac ymadroddion megis *athro gwawd a ffynnon awenyddion*. Llai dyrchafol yw'r disgrifiad yn llawysgrif J 88 o ddoniau Raff a Thomas Grythor:

Raffe and he [Tom. Grythor y Voch] would ever be at the staffes end⁴⁴ with their riming (or because I would not disgrace my countrey with soe base a terme, versifying) one to another [...] manie conceits past between them.⁴⁵

Cafwyd achlysur eisoes i grybwyll y modd y lleolwyd Raff yn y Cilgwyn ym mhlwyf Llanynys, a'r croeso a estynnid i *unbardd Bachynbyd* ar un o aelwydydd pwysicaf yr ardal. Ceir gwybodaeth werthfawr hefyd am gyfrwng y bardd. Hysbysir ei fod yn awdur awdlau (*Awdl Raff a dalai yr aur* ll. 56), a chywyddau (*Cywydd o fraisg onwydd frig* ll. 57) ac englynion (*Englyn hwn gonglai'n henaur* ll. 55), ac erys ar glawr ddeunydd sy'n cynrychioli'r tri math hyn. Nid llai diddorol yr hyn a awgrymir am ei bynciau. Crybwyllir ei ganu gŵr:

Ni bu gystal dyfalwr
Erioed ag ef, ar wawd gŵr (llau. 41–2)

a maentumir ei fod hefyd yn adnabyddus ar gyfrif ei ganu gofyn:

Hyfedr, cryf a dihafarch
Y gwnâi fawl i gi neu farch. (llau. 43–4)

Dyma un *genre* nas cynrychiolir gan y deunydd sydd ar glawr, a gwelir mai un cywydd serch yn unig a ddiogelwyd er bod Siôn Tudur yn galw sylw at y dosbarth hwn hefyd:

Ni rydd un arwydd annerch,
Ni chwardd mab gyda cherdd merch
Yn ei ôl ... (llau. 45–7)

Ymddengys, felly, mai cyfran yn unig o ganu'r bardd a oroesodd. Ni ddyfynnwyd yr un llinell o'i waith, boed honno yn un hysbys neu anhysbys, yn y geiriadur a baratôdd Wiliam Llŷn, er bod y naill fardd yn gyfarwydd

⁴³ Un bardd arall yn unig a farwnadwyd gan Siôn Tudur (ac anwybyddu am y tro y ffug farwnad i Robin Clidro), sef Siôn Brwynog, gw. GST cerdd 135.

⁴⁴ 'Ffon, pastwn' yw ystyr arferol *staff* yn Saesneg: datblygiad diweddarach oddeutu troad y 18g. oedd yr ystyr 'corfflu o weithwyr', gw. OED xvi, 440–3. Ystyr yr idiom *at (the) staves end or staff end* yw 'at a distance, away from close quarters of familiarity, on unfriendly terms', gw. *ib.* 440.

⁴⁵ Y rhagair i Atodiad iii.

â'r llall.⁴⁶

Dadlennol yw'r modd y portreedir statws Raff yn y farwnad. Ar ôl cyfeirio at gyswllt y bardd â'r Cilgwyn datgela Siôn ei fod ef yn w'r tiriog a'i fod hefyd yn canu ar ei fwyd ei hun. Ychwanega fod hynny yn beth anghyffredin ar y pryd.

Clo gan fin y Cilgwyn fu.
 Tarren hardd lle tariai'n hon,
 Tiriog⁴⁷ ei blant a'i wyrion ...
 Cafodd yn rhwydd bob blwyddyn
 Fawrhad ar ei fara ei hun.
 Anaml y cawn, amlwg cân,
 Fardd hen o'i fwrdd ei hunan. (llau. 14–16, 19–22)

Y mae hyn yn gyson â'r rhagair i englyn Tomas Grythor y Foch a ddyfynnwyd eisoes, lle y nodwyd y môd i yn cany ar y marâ vy hyn. *for what he did was for his own pleasure and his friends. but none will report soe much of his sonne Ed. that proves for a reward for his Muse.*⁴⁸ Diau fod a wnelo ei statws â'r ffaith nad yw ei enw i'w weld yn y rhestrau o raddedigion y ddwy eisteddfod a gynhaliwyd yn nhref Caerwys, y naill yn 1523 a'r llall yn 1567.⁴⁹ Y mae'n arwyddocaol na ddigwydd ei enw ychwaith yn y rhestr sydd yn llaw Thomas Wiliems o'r beirdd a ganai yn ystod y 'tri chlymiad cerdd', er bod beirdd megis Gruffudd Hiraethog, Wiliam Llŷn, Lewis ab Edward a Siôn Tudur a gydoesai ag ef wedi eu cynnwys.⁵⁰ Yn fwy annisgwyl, ni ddigwydd ei enw ychwaith ymhlith y *mydrwyr or Brytanniaid ar a oedd ar vnwaith an cyfoes ni yn canu ar ei bwyd ei hun (mal i mae y ddihareb) yn fonheddigion ac vchelwyr da.*⁵¹

Er nad yw'r cywyddau a'r awdlau a ddiogelwyd yn niferus, y mae'r darlun a gynigir yn gyson â'r hyn a ddisgwylid yn achos bardd a ganai ar ei fwyd ei hun.⁵² Diogelwyd un cywydd serch ac un cywydd duwiol; tybed a ganodd Raff gywydd a gollwyd erbyn hyn i Saeran, nawddsant eglwys plwyf Llanyynys?⁵³ Un awdl fawl sydd ar glawr, ac y mae lle i gredu ei bod

⁴⁶ Gw. yr atodiad i WLI. Rhestrir y beirdd y dyfynnir o blith eu gweithiau yn y geiriadur yn Roy Stephens, 'Geirfau Wiliam Llŷn', LICy 15 (1984–8), 308–19 (tt. 312–13).

⁴⁷ Tiriog '(un) a chanddo dir helaeth, (un) yn berchen ar dir', gw. GPC 3505–6.

⁴⁸ Gw. troednodyn 20 uchod ac Atodiad iii.

⁴⁹ D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LICy 2 (1952–3), 129–34.

⁵⁰ BL Add 31055, 47^r–48^v. Ni ddigwydd yr enw ychwaith yn ei restr o enwau beirdd, gw. M.T. Burdett-Jones, '“Catalogus authorum Britannicorum” Thomas Wiliems', Cylchg LIGC xxviii (1991–2), 109–11. Ond y mae'r enw i'w weld yn LIGC 21294B lle y ceir 'Hen Gofrestr Enwau ag amseroedd Beirdd mewn hen ysgriflaw'.

⁵¹ CC 6–8.

⁵² Gw. y drafodaeth gan Dafydd Johnston, 'Canu ar ei fwyd ei hun': *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997).

⁵³ Un o hynodion yr eglwys oedd y darlun ar y mur o'r sant Cristoffis yn cario'r baban Iesu, ac fe'i peintiwyd, yn ôl pob tebyg, rywbryd yn ystod degawdau cyntaf yr 16g., gw. Enid

yn un o'r cerddi cynharaf a ddiogelwyd; fe'i lluniwyd rywbryd yn ystod teyrnasiad y brenin Harri VIII. Ym mhlwyf Llanynys y trigai Rhisiart Thelwal, gwrthrych y moliant, ac fel y nodwyd, yr oedd y cysylltiadau lleol yn amlwg yn achos tair o'r marwnadau, i Robert Salbri, i Siôn Salbri, gŵr cyntaf Catrin o Ferain, ac i archiagon Caerfyrddin *ac oedd yn tario yni blas yn llannyny[s]*.⁵⁴ Un cywydd duwiol sydd ar glawr—dosbarth nas crybwyllwyd yn y cywydd marwnad a ganodd Siôn Tudur—ac un cywydd serch, ond tâl nodi bod yr englynion a ganwyd ar y ddau bwnc yn dra niferus. Tra bo'r englynion crefyddol yn ddefosiynol ddwys, y mae'r englynion serch, megis yr englyn *i ferch addowsai gadw morwyndod*, yn hwyliog ac yn gnawdol eu cywair:

Er addo treulio, modd trylwyn,—o hon
 Ei heinioes yn forwyn,
 Nid hwyrach wrth fasnach fwyn
 Cynio gwen cyn y gwanwyn.⁵⁵

Y mae a wnelo tri o'r cywyddau â dosbarth y beirdd a'r cerddorion. Canodd Raff farwnad i Dudur Aled, *fy athro grym*, a thystia'r gerdd ei fod yn gyfarwydd ag un o feibion Tudur, sef Syr Siôn Aled a fu'n ficer Llansannan rhwng tua 1522 a 1536. Telynor na wyddys odid ddim amdano oedd Siôn Erch a farwnadwyd mewn cywydd arall. Ar ran Edward Llwyd, Llanynys, mab archiagon Caerfyrddin, y lluniwyd y gerdd hon, a gwelir mai Siôn Erch oedd ei athro telyn ef. Y crythor Robert ap Rhys Gutun a gyfarchwyd yn y trydydd cywydd, ac yr oedd ef, fel Raff, yn ŵr tiriog. Amddiffyn enw da a hygreddd y crythor, a thalu'r pwyth, yn wyneb dychan a beirniadaeth Siôn Tudur, a wna Raff ar yr achlysur hwn. Crybwyllir crythor arall, Rhys Grythor, yn yr ymryson, ac nid annichon mai er diddanu Elis Prys, Plas Iolyn, y lluniodd Siôn ei gywydd yn y lle cyntaf.

Daw ymwneud Raff â'r beirdd a'r cerddorion hyd yn oed yn amlycach wrth edrych ar yr englynion a ddiogelwyd. Lluniodd gyfres o chwe englyn i ddychanu Gruffudd Hiraethog ynghyd â dau englyn arall a allai fod yn rhan o ail gyfres. Bu Gruffudd Hiraethog yn cyfnewid englynion â'i ddisgyblion, Siôn Tudur, Siwmnt Fychan a Wiliam Llŷn, mewn neithior yn y Rhiwlas ger y Bala, a gwnaed Gruffudd yn gyff clêr yn Rhiwaedog, nid nepell o'r Rhiwlas. Yr oedd tri o'i ddisgyblion yn bresennol ar yr achlysur hwnnw, sef Siôn Tudur, Siwmnt Fychan a Lewis ab Edward, ynghyd â Hityn Grydd ac

Roberts, 'Englynion Cristoffis', TCHSDd 16 (1967), 149–51. Canodd Gruffudd ab Ieuan, bardd arall a ganai ar ei fwyd ei hun, i Gynhafal, gw. GILIV cerdd XXV; MFGLI 994. Câr iddo oedd Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan a ganodd i ddau sant arall brodorol, sef Teyrnog a Gwenfrewy, gw. GSH cerddi 17–18.

⁵⁴ BL Add 31059, 22^v.

⁵⁵ Cerdd 41.

Edward Huw o Benllyn.⁵⁶ Nid annichon mai ar achlysur cyffelyb y lluniodd Raff ei englynion ef. Nid oes ar glawr englyn gan Ruffudd Hiraethog i Raff, ond tâl cofio mai yn un o lyfrau'r blaenaf y diogelwyd ach Raff.⁵⁷ Canodd y ddau fardd farwnad i Robert Salbri ac efallai i lwybrau'r naill a'r llall groesi naill ai yn y Rug neu ym Machymbyd.⁵⁸ Er eu bod yn iau o dipyn nag ef, ymddengys fod Raff yn fwy cyfarwydd â disgyblion Gruffudd Hiraethog. Bu Raff a Wiliam Llŷn yn cyfnewid englynion, a chyfeiriwyd eisoes at yr ymryson ar ffurf cywydd rhwng Raff a Siôn Tudur. Nid enwir Wiliam Cynwal yn yr ymryson hwnnw, ond bu Rhys Grythor yn destun dychan mewn cywyddau a luniwyd ganddo ef a Siôn Tudur.⁵⁹ Ni chanodd Raff a Wiliam Cynwal i'w gilydd ond yn llawysgrif Bangor (Mostyn) 4 yn llaw yr olaf y diogelwyd unig awdl foliant Raff. Cyfarchodd Siôn Tudur Raff mewn englyn a ddatganwyd ym Machymbyd, ac yno hefyd y datganodd Raff ei englyn yntau i Domas Grythor, neu Grythor y Foch, gŵr a fu'n destun dychan i nifer o'i gyfoeswyr ar gyfrif ei enw. Canodd Raff englyn i Hywel Bangor, a hynny ar achlysur gŵyl, a barnu wrth dystiolaeth y llinell gyntaf: *O dwg hwyl ar ŵyl yr eilwaith—i'n mysg*. Gŵr o Faenor na wyddys rhyw lawer amdano er bod rhai o'i englynion ar glawr oedd Hywel.⁶⁰ Cyfarchwyd dau grythor anhysbys mewn englyn arall.⁶¹ Yr oedd gŵr arall y dewisodd Raff ei ddychanu yn llawer mwy adnabyddus. Clerwr crwydrol oedd Robin Clidro, ac yn ôl y farwnad, neu'r ffug farwnad, a ganodd Siôn Tudur iddo, byddai'n teithio cyn belled â Harlech, Caernarfon ac Aberystwyth i gyfeiriad y gorllewin a siroedd Brycheiniog a Morgannwg yn y de, er mai yn Nyffryn Clwyd yr oedd ei wreiddiau.⁶² Digwydd ei enw ar restr o drethdalwyr yn Rhuthun yn 1547 a cheir cyfeiriadau manwl at yr ardal yn ei waith.⁶³ Dychanodd Raff Robin ar gyfrif ei gybydd-dod a'i grintachrwydd ond ei wrthwynebydd a gafodd y gair olaf. Lluniodd bedwar pennill yn ei arddull ddihafal ei hun, dau ohonynt ar lun englynion proest ac un ar ffurf englyn unodl union.⁶⁴ Yn ôl Robin, *Uffernol yw Raff a ffyrnig,—o brydydd, /*

⁵⁶ GGH cerddi 150–1.

⁵⁷ Gw. td. 1 uchod.

⁵⁸ Canwyd marwnad i Robert gan Ruffudd Llwyd ap Dafydd yn ogystal, gw. A. Lloyd Hughes, 'Rhai o noddwyr y beirdd yn sir Feirionnydd', LICy 10 (1968–9), 137–206 (a tt. 166–8 yn benodol).

⁵⁹ GST cerddi 136–7.

⁶⁰ Cerdd 59 a'r nodiadau. Nid enwir Hywel yn yr englyn ac ar sail nodyn John Jones, Gellilyfdy, yn yr unig lawysgrif y dysgir mai ef a gyferchir.

⁶¹ Cerdd 60.

⁶² GST cerdd 143. Awgrymir bod Robin Clidro wedi ei ladd yn y de, ond 'nid oes sôn am lofruddiaeth yn y farwnad, yn hytrach ceir ynddi gymaint cellwair fel na ellir ei chymryd o ddifrif. Marwnad gŵr ac yntau'n fyw ydyw', gw. *ib.* ii, 513. Ar ffurf cywydd y lluniwyd y farwnad, ond yn unol ag arddull Robin Clidro, y mae'r mydryddu yn afreolaidd a'r odlau a'r cynganeddion yn wallus.

⁶³ GRCG v–vi.

⁶⁴ Cerdd 57 ac Atodiad ii.

Bwriadwr gwenwynig, ac ymhellach, *Fo wŷr pawb ar ddadl nad prydydd ydwyd / Ond llygad tin clêr holl wŷr Dyffryn Clwyd*. Enwir Raff yn y ddau englyn olaf fel na all fod fawr amheuaeth ynghylch gwrthrych y dychan. Eto, tâl nodi mai mewn un ffynhonnell yn unig y digwydd y pedwar pennill a briodolir i Robin gyda'i gilydd, ac ni cheir yno englyn Raff.⁶⁵

Hyd y gwyddys ni fu unrhyw ymwneud barddol rhwng Raff a'i fab, Edward ap Raff, ac y mae'r unig gyswllt a welwyd rhyngddynt yn un damweiniol: copïwyd un o englynion Raff mewn bwllch ar waelod y ddalen yn Llst 36, llawysgrif sy'n cynnwys casgliad o ganu ei fab yn llaw Rhisiart ap Siôn, Sgorlegan.⁶⁶ Gellir dyddio tua hanner y pump a phedwar ugain cywydd o'i waith sydd ar glawr i'r cyfnod 1580–1606. Yn ôl ei dystiolaeth ei hun, bu oddi cartref am ysbaid; cymerodd ran ym mrwydr Sain Cwintens yn 1557, a gallai hyn esbonio'r distawrwydd.⁶⁷

Digwydd y ffurfiau *deilied* (ll. 56), *gweinied* (ll. 75), *tamed* (ll. 78), *eirchied* (ll. 81) a *Miltynied* (ll. 84) yn yr awdl farwnad i Robert Amiltwn, ac ar un ystyr arwydd sydd yma o ddyfeisgarwch y bardd wrth iddo ymroi i gynnal yr odl *-ed* dros 36 o linellau. Nid yw'r brifodl *-i* yn yr ail awdl sydd ar glawr, yr awdl foliant i Risiart Thelwal, yn gorfodi'r bardd i ddefnyddio ffurfiau llafar; y gamp y tro hwn yw ffurfiau enwol lluosog a ffurfiau berfol yr ail berson unigol. Ond gwelir bod odlau llafar yn cael eu defnyddio yn nifer o'r cywyddau a'r englynion unigol, ac er bod yr arfer yn fwy cyffredin erbyn yr unfed ganrif ar bynthege, y mae yn nodwedd ar ganu'r beirdd a ganai yn achlysurol. Digwydd y ffurfiau llafar hyn yn safle'r brifodl yn y cywyddau: *cenhedleth / peth* (3.29–30), *peth / heleth* (4.37–8), *naturieth / peth* (5.11–12) ac *odieth / peth* (9.21–2), a gwelir bod y gair *peth* yn digwydd ar bob un o'r achlysuron hyn. Ailadroddir yr arfer yn yr englynion, megis yng ngherdd 28 lle yr odlir *dyred / golled / defed / siêd*, ond yn y rhain defnyddir ffurfiau llafar hefyd i gynnal yr odl fewnol mewn llinellau sy'n cynnwys y gynghanedd sain, nodwedd nas gwelir yn y cywyddau:

Nac i ble rhag 'r ange 'r af (20.8)

Drwy ffoledd, groyw arwedd gri (29.11)

Anheleth gasbeth a gosbwyd i'th grys (54. 13)

Yn achlysurol cyfrifir geiriau sy'n cynnwys *w* ansillafog a geiriau sy'n cynnwys sillaf gadarnleddf yn ddeusill, er enghraifft, *galw* (2.52), *marw* (10.78), *chwerw* (17.3), *aml* (34.4) ac *ochr* (71.3). Gwelir yn y canu enghreifftiau o oddefiadau cyfarwydd megis twyll gynghanedd (9.28),

⁶⁵ LIGC 5261A, 152; hefyd td. 130 isod.

⁶⁶ Cerdd 16. Priodolwyd yr englyn i Edward ap Raff ar gam yn MFGL1 660.

⁶⁷ D. Hywel E. Roberts ac R. Alun Charles, 'Raff ap Robert ac Edward ap Raff', B xxiv (1970–2), 282–300.

proest i'r odl (5.19), crych a llyfn (10.26), rhy hir (10.40), a chaled a meddal (4.78), ond yn achlysurol y digwydd y rhain.

Os yw Raff yn chwannog i arddel ffurfiau llafar yn ei gerddi, y mae ei arferion cynganeddol yn unol â'r hyn a ddisgwyliid gan fardd a ganai yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r gynghanedd groes a ddefnyddir fynychaf fel y dengys y dadansoddiad isod:

Cyfanswm llinellau: 680⁶⁸

croes	583	86%
traws	67	10%
sain	20	3%
llusg	9	1%
linell wallus ⁶⁹	1	

Wrth ddadansoddi'r cynganeddion cynhwyswyd yn nosbarth y cynganeddion croes y llinellau hynny y ceir ynddynt *n* neu *r* neu *m* ganolgoll, cyfanswm o 54, neu 9% o'r holl linellau croes. Er bod un o bob deg linell yn cynnwys cynghanedd draws, yn 25% o'r llinellau hynny un gytsain yn unig sydd heb ei hateb ar ddechrau'r ail ran (cyfanswm 17 linell), ac yn 41% o'r llinellau (cyfanswm 28 linell), er bod dwy gytsain heb eu hateb ar ddechrau'r ail ran fe'u ceir yn y sillaf gyntaf yn dilyn yr orffwysfa mewn geiriau megis *fal*, *mor*, *nid*, *rhag*, *rhwng*. Sylwyd ar un gynghanedd draws fantach a chwe linell sy'n cynnwys traws gyferbyn. Prin yw'r cynganeddion croes o gyswllt: cyfanswm o bum linell mewn pedwar cywydd gwahanol. Yn anfynych hefyd yr arferir y gynganedd lusg ac mewn tri chywydd o blith yr wyth y digwydd, ond bod dau o'r cywyddau hynny yn cynnwys pedair cynghanedd lusg yr un.

O ran mynychder y groes gwelir bod arfer Raff yn gyson ag arfer beirdd megis Lewys Daron (82%),⁷⁰ Huw ap Dafydd (83%)⁷¹ a Siôn Ceri (90%).⁷² Gwelir ymhellach fod y beirdd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar y gynghanedd groes na Lewys Morgannwg (71%)⁷³ a ddisgrifiwyd ar drwydded Gruffudd Hiraethog yn *penkerdd ac athro kerdd dafawd o vewn siroedd a thaleithiev Kymrv*.⁷⁴ Awgrymwyd bod Siôn ap Hywel 'yn enghraifft wiw o'r uchelwr a ganai ar ei fwyd ei hun', ac mae Raff yn ymdebygu iddo ar lawer ystyr.⁷⁵ Er i'r ddau ganu ar yr un math o bynciau, rhaid cydnabod bod eu

⁶⁸ Seiliwyd y dadansoddiad ar yr wyth cywydd. Ni pharatowyd dadansoddiad ar gyfer y ddwy awdl a'r englynion.

⁶⁹ Gw. 10.3n.

⁷⁰ GLD xx–xxi.

⁷¹ GHD 9.

⁷² GSC 13–14.

⁷³ GLMorg 18.

⁷⁴ Pen 194; RWM i, 1021; GGH xxvi–xxvii.

⁷⁵ GSH 5.

harferion cynganeddol yn amlygu gwahaniaeth trawiadol rhyngddynt am mai 61% o linellau Siôn ap Hywel sy'n cynnwys cynganeddion croes.⁷⁶ Mentrus yw cyffredinoli ar sail yr wyth cywydd a ddiogelwyd, ond gall ei bod yn arwyddocaol fod canran y groes yn uwch mewn dau gywydd a luniwyd yn y dauddegau a'r tridegau, ac yn is mewn cywyddau sy'n perthyn i'r pumdegau a'r chwedegau. Cynnwys y marwnadau i Dudur Aled ac i Edward ap Siôn 94% a 92% o linellau croes ond 80% a 78% o linellau croes sydd yn y marwnadau i Robert Salbri, y Rug, ac i Siôn Salbri, Lleweni. Os yw canran y groes yn tystio i gyfnod llunio cywydd arbennig ymddengys fod y cywydd serch sy'n cynnwys 92% o linellau croes yn gyfansoddiad cynnar a'r cywydd crefyddol sy'n cynnwys 85% o linellau croes yn perthyn i gyfnod diweddarach yng ngyrfa'r bardd.

Nid oes lle i amau'r priodoli yn achos y cywyddau a'r awdlau sydd wrth enw Raff, ond y mae'r englynion yn fater gwahanol. Ar sail y dystiolaeth ar glawr, ymddengys fod beirdd yr unfed ganrif ar bymtheg yn barotach na'u rhagflaenwyr i lunio englynion, a chofnodwyd lliaws ohonynt yn y llawysgrifau, naill ai yn y bylchau rhwng cerddi eraill neu, dro arall, ar ddalennau segur ar ddechrau neu ddiwedd y llawysgrif. Un arwydd o apêl y deunydd hwn yw'r casgliadau o englynion y dechreuwyd eu llunio o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen, megis y ddau gasgliad yn llaw John Jones, Gellilyfdy, y naill (Pen 313) yn cynnwys gwaith rhyw gant o feirdd a'r llall (LIGC 3039B) yn cynnwys gwaith rhyw gant a deugain o feirdd. Cofnodwyd wyth o englynion Raff yn y blaenaf a 27 yn yr ail, ac ni ddigwydd yr un englyn yn y ddau gasgliad. A siarad yn gyffredinol, y mae llawer o'r englynion hyn yn ddiennw, a llawer yn cael eu priodoli i fwy nag un bardd. Y mae'r hyn a oedd gan T.H. Parry-Williams i'w ddweud am yr hen benillion yn wir am lawer o'r englynion hwythau:

Er ei bod yn bosibl bod llawer ohonynt ... wedi eu cyfansoddi'n fyrfyfyr mewn cwmni wrth ganu ... eto y mae lle cryf i gredu nad yw llu mawr ohonynt yn ddim amgen na darnau a phigion o gerddi neu ganeuon neu faledi neu gyfansoddiadau hwy—gwaith mân feirdd, gan mwyaf.⁷⁷

Y mae lle i gredu mai drylliau o gyfresi yw llawer o'r darnau a gofnodwyd. Ond y mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Dichon fod llawer o englynion annibynnol wedi eu dwyn ynghyd gan gopiwr am eu bod yn ymwneud â'r un pwnc, ac englyn diennw wedi ei gyplysu wrth englyn gan fardd hysbys. Efallai i hynny ddigwydd yn achos yr englyn *Dod fwyd a diod, pâr dŷ—a dillad*.⁷⁸ Saith Weithred y Drugaredd yw pwnc yr englyn hwn ac fe'i rhoddir i Raff mewn un llawysgrif, ond y mae'n bosibl ei fod

⁷⁶ GSH 8–9.

⁷⁷ T.H. Parry-Williams, *Hen Benillion* (Llandysul, 1975), 9.

⁷⁸ Gw. cerdd 17 ac isod td. 15.

wedi ei gyplysu wrth dri englyn arall ar yr un pwnc, un ohonynt yn waith Owain Gwynedd, a bod y gyfres gyfan wedyn wedi ei phriodoli iddo. Daw'r dryswch ynghylch y priodoli i'r amlwg yn rhai o'r englynion a luniwyd i gyfarch Raff. Priodolwyd un englyn i Siôn Tudur ac i Domas Grythor y Foch,⁷⁹ a phriodolir dau o'r pedwar pennill y credir i Robin Clidro eu llunio i ddychanu Raff i Domas Grythor unwaith yn rhagor.⁸⁰ Gwelir bod 22 o englynion Raff ap Robert wedi eu diogelu mewn un ffynhonnell lawysgrifol.⁸¹ Er bod y copïau yn fwy lluosog yn achos y lleill, y mae llawer ohonynt yn ddiennw, a rhaid derbyn felly nad yw'r dystiolaeth o blaid y priodoli yn gadarn.

Cerddi ansicr eu hawduraeth

O Dduw deg addaw digwydd

Cywydd marwnad i Ieuan ap Rhys ap Llywelyn o Frynlluarth yn Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch yw hwn, ac am ei ach gw. WG1 160; WG2 337. Ar sail un llawysgrif ddiweddar yn unig y tadogwyd y cywydd ar Raff. Cynullwyd yn BL Add 31073 rhwng tt. 125^r a 156^r wyth o gerddi'r bardd ac ar ddiwedd pob darn enwir yr awdur, sef Raff neu Ralph ap Robert. Dilynir yr wyth gan y cywydd hwn sy'n ddiennw. Nodir mai o'r 'Hirwyn' y codwyd y cywydd. Dyma lawysgrif BL Add 14966 a fu ym meddiant Twm o'r Nant, ac ynddi priodolir y cywydd, fel yn y pum copi arall, i Edward ap Raff. Yr oedd Ieuan ap Rhys ar dir y byw yn 1557, gw. HPF iv, 163–5, ac Edward yn canu erbyn hynny. Gwahanol yw'r cywydd o ran ei gynganeddiad i gywyddau eraill Raff gan ei fod yn cynnwys 62% o linellau croes a 25% o linellau traws.

Rhodded er nodded i ni

Awdl i'r Iesu gwyn o Ruddlan, neu'r ddelw o Grist ym mynachlog y Dominiciaid yn y dref, yw hon. Awgrymodd Enid Roberts, 'Y Crist o Fostyn', B xxi (1964–6), 236–42, y geill mai hon oedd y ddelw a gymerwyd ymhen yrhawg i blasty teulu Mostyn yng Ngloddaith, ac oddi yno i eglwys Bangor. Mydryddwyd y dyddiad 1518 yn y trydydd englyn yn yr awdl, ac y mae'n ddichonadwy, felly, y gallai Raff fod wedi ei chanu. Eto, i tua 1526, wyth mlynedd yn ddiweddarach, y perthyn y gerdd gyntaf y gellir dweud i sicrwydd i'r bardd ei llunio, a mentrus o'r herwydd fyddai dadlau mai ei awdl ef yw hon. Priodolir yr awdl iddo mewn dwy lawysgrif ond enwir Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan mewn 10, a gwelir yr awdl ymhlith ei weithiau yn GILIV cerdd XV. Collwyd diwedd yr awdl mewn dwy

⁷⁹ Gw. Atodiad iii. Priodolir yr englyn i Domas Grythor yn LIGC 3039B ond fe'i dilynir gan gyfnewid englynion a fu rhwng Tomas a Siôn Tudur.

⁸⁰ Gw. Atodiad ii.

⁸¹ Yn achos wyth englyn arall, er bod dau destun neu dri wedi eu diogelu, mewn un yn unig yr enwir y bardd.

lawysgrif, a'r cwpled cyntaf a gofnodwyd yng nghatalog John Jones, Gellilyfdy, yn Pen 221. Yn ddadlennol dilewyd enw Gruffudd ab Ieuan ar ddiwedd yr awdl yn BL Add 14971 ac ychwanegu enw Raff yn ei le, ond efallai mai'r hyn sy'n troi'r fantol o blaid Gruffudd ab Ieuan yw'r priodoliad iddo yn Card 2.201 sydd yn llaw Rhisiart ap Siôn, Sgorlegan, gŵr o blwyf Llanyyns a lwyddodd i gofnodi'r rhan fwyaf o gywyddau Raff.

Noeth bychan a gwan y genir—dyn gwan

Diogelwyd rhagor na 30 copi o'r englyn hwn, ac fe'i priodolir i Wiliam Llŷn, yr Esgob Richard Davies, Dafydd Llwyd ap Siôn o'r Henblas a Raff. Yr oedd Roy Stephens o'r farn mai englyn Wiliam Llŷn oedd hwn ac fe'i gwelir yn GWL cerdd 219. Yn BL Add 14984 yn unig y rhoddir yr englyn i Raff.

Llien gwyn a'm tyn o'm tŷ,—â llinyn

Ni restrwyd yr englyn hwn ymhlith gweithiau Raff yn MFGLI nac yn MCF, ac y mae'n ddiennw mewn pum ffynhonnell, ond dilyn yr englyn *Dyro ran i'r gwan o'r cinio—twymyn* (cerdd 20) yn BL Add 14974, 114^v lle y tadogir y naill ar llall ar Raff (*Raff ap robart y ddav*). Fe'i rhoddir mewn pedair llawysgrif i Huw Llwyd o Gynfal, gw. A. Cynfael Lake, 'Huw Llwyd o Gynfal', Cylchg CHSFeir ix (1981-4), 67-88 (td. 83).

Dod fwyd a diod, pâr dŷ—a dillad (cerdd 17)

Priodolir yr englyn hwn yn MCF i'r beirdd hyn: Gruffydd Robert (Milan), Tomas Prys, Plas Iolyn, Owain Gwynedd, Wiliam Llŷn a Raff ap Robert. Mewn gwirionedd y mae'r englyn yn ddiennw mewn 25 o blith y 27 ffynhonnell lawysgrifol, a chan fod yr englyn wedi ei gopïo ar fwy nag un achlysur yn ystod yr 16g. (yn LIGC 873B, er enghraifft) y mae'n amlwg fod yna ansicrwydd o gyfnod cynnar ynghylch ei awdur. Rhoddir yr englyn i Raff mewn un llawysgrif o'r 18g. yn llaw Dafydd Jones o Drefriw (Card 4.10) ac mewn un llawysgrif ddiweddar arall i Wiliam Llŷn (Pen 243). Ni phriodolir yr englyn i Domas Prys nac i Ruffydd Robert, er bod englyn sy'n dilyn *Dod fwyd a diod* yn LIGC 3039B wrth enw'r olaf. Fodd bynnag, digwydd yr englyn ar ddiwedd y llyfryn print 8tt. a argraffwyd tua 1600, *Ynglynion ar y Pader, y Credo, ag ar deggorchymyn o waith D:G:R; yr Athraw mawr o dre Fulan*, gw. Eiluned Rees, *Libri Walliae* (Aberystwyth, 1987), cofnod 4382. Er bod yr englyn yn ddiennw, gallai'r teitl awgrymu mai Gruffydd Robert a'i lluniodd. (Diolchaf i'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd am alw fy sylw at y gyfrol hon.)

Yr englyn hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o bedwar a olygwyd gyda gwaith Owain Gwynedd yn Owain Gwynedd: Gw cerdd 103. Digwydd y pedwar gyda'i gilydd, a hynny yn yr un drefn mewn dwy lawysgrif, sef BL Add 14984 a LIGC 356B, ond nid yw'n amlwg eu bod yn rhan o gyfres, a'r englyn olaf yn unig sydd wrth enw Owain Gwynedd. Tystia'r pennawd

mewn sawl ffynhonnell mai englyn i Saith Weithred y Drugaredd yw hwn. Enwir y saith yn yr englyn ac y mae, felly, yn gyflawn ac yn hunangynhaliol. Rhestrir dwy o'r gweithredoedd drachefn yn ail englyn y gyfres o bedwar wrth enw Owain Gwynedd, ac awgryma hyn i'r englynion gael eu dwyn ynghyd ar sail eu cynnwys yn hytrach nag am eu bod yn waith yr un bardd. Dilynir englyn Raff yn Card 4.10 a LIGC 253A gan englyn arall a ganodd yn yr un cywair, gw. cerdd 20.

Dyro ran i'r gwan o'r cinio—twymyn (cerdd 20)

Cyfres o dri englyn. Ceir y gyfres yn gyfan mewn dwy llawysgrif a gopiwyd gan John Jones, Gellilyfdy, a'i phriodoli i Raff. Digwydd yr englyn cyntaf ar ei ben ei hun mewn wyth llawysgrif arall. I Raff y'i rhoddir yn BL Add 14984 ond y mae yn ddiennw yn y lleill. Digwydd yr ail englyn ar ei ben ei hun mewn pedair llawysgrif ac fe'i rhoddir yno i Wenhwyfar (Gwerful), merch Hywel (Huw) Gruffudd ac i Werful Mechain. Ni allai Nerys Ann Howells dderbyn mai Gwerful Mechain a ganodd yr englyn, gw. GGM 30. Argraffwyd testun o'r ail englyn, yn seiliedig ar Card 2.202, ynghyd â dau englyn arall a briodolir i Wenhwyfar, merch Hywel ap Gruffudd, yn Cathryn A. Charnell-White, 'Alis, Catrin a Gwen: tair prydyddes o'r unfed ganrif ar bymtheg. Tair Chwaer?', *Dwned*, 5 (1999), 89–104 (tt. 103–4). Fodd bynnag, mewn tair llawysgrif arall, yr englyn hwn sy'n agor cyfres o bedwar *ir Ange* a briodolir i Hywel ap Syr Mathau, ac arno gw. CLC² 354; MFGLI 1619–23. Digwydd y trydydd englyn ar ei ben ei hun mewn dwy ffynhonnell, ac fe'i priodolir yn J 88 i Ruffudd Ifan. Digwydd dau o'r englynion ar wahân yn Card 4.10, y cyntaf yn ddiennw a'r ail wrth enw Gwenhwyfar. Digwydd yr englyn cyntaf a'r trydydd yn LIGC 21700D, ac y mae'r ddau yn ddiennw. Gellir bod yn weddol sicr mai Raff a ganodd yr englyn cyntaf ond erys cryn ansicrwydd yngylch yr ail a'r trydydd.

Pob ffrwyth, pob tylwyth, pob teulu,—pob dewr (cerdd 27)

Mewn un llawysgrif y priodolir yr englyn i Raff ac y mae'n ddiennw mewn tair, ond ar sail un ohonynt, sef CM 224 sy'n cynnwys casgliad o ganu Huw Morys, peth ohono yn llaw'r bardd ei hun, fe'i priodolwyd i'r bardd o Bontymeibion, a'i gynnwys mewn golygiad o'i ganu, gw. Huw Morus: Gw 67. Rhaid diystyru'r priodoliad am fod yr englyn i'w weld yn LIGC 3037B a gopiwyd cyn diwedd yr 16g. Yna gwelwyd mai'r englyn hwn yw'r trydydd mewn cyfres o bedwar a briodolir i Owain Gwynedd, ac y rhoddir iddynt y pennawd 'Cwyn y Glêr', gw. cerdd 104 yn Owain Gwynedd: Gw. Diogelwyd y pedwar englyn mewn tair ffynhonnell (nis ceir yn Pen 313, 202, er darfod rhestru'r ffynhonnell honno yn Owain Gwynedd: Gw ac yn MCF). Rhestrwyd yn MCF un ffynhonnell newydd nad oedd yn hysbys i'r golygydd, sef LIGC 13068B, ond nid ymddengys fod yr englyn yn y llawysgrif honno ychwaith.

Ni chaiiff gwan mo'i ran ar Wener—niwlog (cerdd 30)

Gall yr englyn hwn fod yn eiddo i Raff neu i Edmwnd Prys. Mewn dwy ffynhonnell y priodolir yr englyn i Raff. Enwir Raff ac Edmwnd Prys mewn chwe ffynhonnell ac y mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o'r copiŵyr mewn cyfyng gyngor. Y mae'n bosibl mai enwogrwydd cywydd Edmwnd Prys, 'Anllywodraeth y Cedyrn', gw. OBWV cerdd 120 (*Y trechaf trawsaf treisiant, /Ochenaid gweiniaid a gânt*), ac a ddiogelwyd mewn deugain llawysgrif, a barodd i'r copiŵyr briodoli'r englyn iddo.

Bachymbyd, borth byd, Barth bwydau—gwresog (cerdd 52)

I Raff ap Robert y priodolir yr englyn yn yr unig gopi, ond digwydd yr englyn mewn cyd-destun arall; dyma'r englyn agoriadol yn yr awdl a ganodd Wiliam Cynwal i Siôn Salbri o'r Rug a Bachymbyd, gw. ADWC ii, cerdd 36. Ceir cych-gymeriad rhwng diwedd yr englyn hwn a'r englyn sy'n dilyn, ac ailadroddir *Bachymbyd* ar ddechrau ac ar ddiwedd yr awdl. Diogelwyd yr awdl yn Bangor (Mos) 4 yn llaw Wiliam Cynwal ei hun, ac felly ni all fod amheuaeth ynghylch ei dilysrwydd. Ar y llaw arall, y mae'n gwbl resymol fod Raff wedi canu i'r cartref. Ym mhlwyf Llanynys y cartrefai a gwyddys iddo farwnadu Robert Salbri, tad gwrthrych awdl Wiliam Cynwal. Rhaid ystyried y posibilrwydd y gallai Cynwal fod wedi defnyddio englyn hysbys Raff yn fan cychwyn i'w awdl. Maes o law byddai Wiliam Cynwal yn marwnadu Siôn Salbri o'r Rug, gw. ADWC i, cerdd 56.

Naws eidral meddal sy'n meddwi—'r Saeson (cerdd 68)

Priodolwyd yr englyn hwn i Raff ap Robert mewn dwy lawysgrif, sef J 138 a LIGC 3039B, ac fe'i rhoddir i Siôn Tudur yn J 88. Y mae'n ddienw yn yr wyth ffynhonnell arall. Ni chynhwyswyd yr englyn ymhlith gweithiau dilys Siôn Tudur yn GST, ond y mae'n bosibl fod yr englyn wedi ei briodoli iddo ar gam am fod tri englyn arall ar bwnc tebyg yn GST cerddi 243–5, a'r rheini wedi bod yn cylchredeg ar y cyd â'r englyn dan sylw. Englynion i ddychanu cwrw Dinbych yw'r rhain. Copiwyd cerddi 243 a 245 o bobtu englyn Raff yn BL Add 14990, ac y mae 244 yn dilyn yr englyn yn J 88 (yn ddienw) ac yn LIGC 1580B. Dilynir yr englyn yn LIGC 356B gan englyn dienw 'I Fir Drwg' a all fod yn waith Siôn Tudur er nas ceir yn GST, ac englyn dienw 'I gwrw Llanwnnog'.

Duw gadarn Ddyddfarn a ddaw—o'i fawredd (cerdd 73)

Y mae'r englyn hwn yn ddienw yn y naw llawysgrif, ac y mae'r priodoli o'r herwydd yn destun dirgelwch. Fe'i rhoddir i Raff ap Robert ac i Huw Morys yn MCF, a'i gynnwys gan David Jenkins yn Huw Morus: Gw 68, ond nis rhestrir gyda gweithiau Huw Morys yn MFGLI 1454–96. Seiliwyd y testun yng ngolygiad David Jenkins ar lawysgrif CM 224 (nas rhestrir yn MCF). Ceir yn y llawysgrif honno gorff o ganu Huw Morys, llawer ohono yn llaw'r bardd ei hun, ond nid yn ei law ef y cofnodwyd yr englyn ac nis tadogir

arno. Dilynir yr englyn gan englyn Raff *Pob ffrwyth, pob tylwyth, pob teulu* (cerdd 27), a dyma, efallai, pam y priodolwyd *Duw gadarn Ddyddfarn a ddaw* iddo yn MCF. Ni all yr englyn fod yn waith Huw Morys am ei fod wedi ei gofnodi yn LIGC 3039B a gopïwyd gan John Jones, Gellilyfdy, ar ddechrau'r 17g.

1

Awdl foliant i Risiart Thelwal o Blas-y-ward

- 4 Rhisiart, llew Edwart, llydan—yw'ch cenedl
Uwch Conwy a Rhuddlan,
Gŵr â chlod swydd Gaer achlân,
Wyt fur uchel at Frychan.
- 8 Brychan a Chynan ywch, enaid—y gwŷr
O gwarel y dugiaid,
A phawb yt oedd, a phob taid,
Un freiniau, yn farwniaid.
- 12 Barwniaid i'n rhaid, anrhydedd—mawr yt,
Fy Mrytwn, o'r Gogledd;
Ac o Fôn, glaer gyfion gledd,
Hyd Fynyw hau dy fonedd.
- 16 Bonedd at fonedd yt, feinwr,—yn aer,
Un o wyrion Tewedwr,
Ar ôl eich tad, yn wladwr,
Drwy Iesu gwyn deiroes gŵr.
- 20 Teiroes, blaid gweiniaid, i gynnal—ei Ras
I Risiart y Ffelwal;
Tëyrn irder trwy'n ardal,
Mwy no deg am win a dâl.
- 24 Am win y rhoi ffin ar y ffordd—o'i deutu,
Y Dytwns a'r Lamffordd,
Egin praff o gan priffordd,
Derw aur â nerth draw o'r Nordd.
- 28 Y Nordd a chwithau yn un,
Dêl a ddêl yn d'ôl ydd ân';
Ewch Syr i barch, awch Syr Bŵn,
Mewn tid aur myn at y Dôn.
- Y Dôn a'r dewrion a'u dur,
Meistr y gweilch yn mwstro gwŷr;

32 Marchog oedd mor wych ac ir,
Llew aur coch â llawer câr.

 Llawer câr—dewr blaengar drud
 Od ewch at ing—o du'ch tad;
 Acw drwy barch, Ector, bid
36 I lwyth y fam eilwaith fod.

 Eich mam yn ddinam un ddaioni:
 Rhyw Edwin addwyn rhoed yn eiddi,
 Rhyw enwog Ithel rhan o'i gwythi,
40 Ewch yn w'r rhydraidd uwch no Rhodri;
O'th amser, biler, os Beli—oedd fawr,
 Ni'th wyrai unawr na'th rieni.

 Blaenorion gyffion hwnt a geffi
44 Aml o Degeingl y mal y dygi;
 Mab o'r Fychans wyd medd proffwydi,
 A myrr a henaur am y rheini;
 Gwaed Coetmor, flaenor, a fu lwyni—glân,
48 Myn eryr Saeran man er siri.

 Yr Ystanleiod sydd yn codi
 Ucho'n w'r aruthr uwch no 'Ryri;
 Mae'r iachau'n eiddoch, Mair i'ch noddï,
52 Eryr glew addwyn, o'r arglwyddi;
Mae'r wlad a'i chariad i chwi—yn berffaith,
 A medd y dalaith modd y dyli.

 Cant o w'r yfed acw 'n y trefi,
56 Can pint ar unwaith, canpunt a renni;
 Can mwy fo eiddoch, can mwy a feddi,
 Cant aeth o filoedd caf hwynt i'th foli;
 Canwr, can carwr, cwncweiri—dy hun,
60 Cynnal ffair Ruthun, canol y ffrwythi.

 Ni pheraist—siriaist—i neb sorri,
 Nid eisiau dewrder, oen distwrddi;
 Y synnwyr eiddoch sy'n ei roddi;
64 Brau wyd i athrywyn, brwd o threwi;

Ni wnaeth gwroliaeth gweryli—haeach,
Ni bu ŵr bertach neb ar barti.

68 Dioriog ydych a dewr gwedi,
Digaru casedd, digrocysi;
Diberi adwyth, da bwriedi,
O'th gampau union i'th gwmpeini;
72 Digreulon foddion fyddi—wrth haelwych,
Dihwcio ydych, dihocedi.

Pe i ben ysgol, pawb yn wisgi,
Eto pa ryfedd yt eu profi?
Er gosod unawr ar gwestiwni
76 Ni bu o'th gadair neb i'th godi.
Wythfodd ymadrodd medri—yn llinyn
O barod Ladin, heb awr dlodi.

80 Da medri addysg, da 'madroddi,
O deiriaith helaeth doir i'th holi;
O dir a chyfoeth y dyrcheff
Neu waed a chenedl, nid achwyni;
84 Eidol naturiol yn torri—cannwr
Sy fyw o herwr, syfwr Harri.

Golud yw uddun gael dyweddi,
Aer i faenol Glwyd, ar a fynni;
Ni châi un isel, ni chynhwysi,
88 Na'th ddyledog waed na'th ael wedi;
Gwaed brigog fforchog, o pherchi—'i raddau,
Odiaeth garesau, Duw i'th groesi.

92 Da, Fair, oleuloer, dyfu'r lili,
D'ado a wyddiad, da Duw iddi;
Da fu i'th geraint, dyfwaith gewri,
Da lwyth, wiw barchus, d'alw a'th berchi;
96 Di-wych dyn wrthych, da nerthi—dy blaid,
A'r bêl yn euraid er blaenori.

Saeran, deg Elian, a Duw Geli,
Iesu a Doewan, Asa, Dewi,
Yn un achubed, Non a Chybi,
100 Dy rywiog wyneb rhag drygioni;

Na wypo'n dynion am d'eni—mor frau
 Awr acw d'eisiau er cydoesi.

104

Drwy'r Groes y deg oes dwg art—a gardas,
 Ac eurdid a halbart;
 Dwy oes y ddâr, dewis ddart,
 Droed rheswm, draw yt, Rhisiart.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 4, 144^v–146^v B—LIGC 6209E, 213–14

Amrywiadau

1 *A* ..vwch.. 5 *A* ..vwch.. 6 *B* o gwarel dugiaid 8 *A* ..farwnaid 9 *B* ..in rrid..,
A ..mawr [] 11 *A* ac afon.. 14 *B* un wyrion.. 17 *A* ..plaid.., *B* ..gweniaid..
 18 *B* i Rrisiart Thelwal 19 *B* teyrn o.. 21 *B* ..i roi ffin ar ffordd ai deudu 22
B y Ddyttwns ar lanffordd 24 *A* ..derw.., *B* draw o nerth y deau ar.. 28 *B*
 ..Myttwn a.. 29 *B* ..ddewrion ai ddur 30 *B* meist'r gweilch yn mwstrio.. 34
AB od ech.. 36 *B* o lwyth ei vam.. 37 *B* ..mam ddinam.. 39 *B* ..rran gwythi
 40 *B* ..hyd rraid.. 41 *B* oth a mener biler hyd.. 44 *B* ..Degaingl mal.. 46 *B*
 am yr hena'r a roe r.. 47 *A* ..koedmor.. 48 *B* ..Saeran a Suri 51 *B* ..moddi
 55 *B* ..a wyr.. 56 *B* kan pot.. 59 *AB* kanwr.., *B* ..kwnkweri.. 60 *B* ..kanol
 ffrwythi 64 *AB* ..a brwd.. 66 *A* ..o neb.. 67 *B* diorwag.. 70 *B* ..ath.. 71 *B*
 ..a fyddi wr helaeth 72 *B* dihwkiog.., *A* ..dyhokiedi 73 *A* ..o yscol.., *B* pa
 benn yskol.. 75 *A* ..gwestiowni, *B* ..gwestwni 79 *A* dai medri.. 83 *B*
 ..natoriol torri kynnwr, *A* ..kanwr 84 *A* ..herw r syfwr.., *B* ..ar herwr yfwr..
 86 *B* ..or a.. 87 *B* ..un i ssel.. 88 *A* na theledoc waed na thylodi, *B* na
 dyledog waed nath.. 89 *A* ..fferchi raddav, *B* ..pherchi r graddau 92 *B* da
 du.. 93 *B* ..difo oth.. 94 *B* [94] 95 *A* ..da i.., *B* ..dyblai 98 *B* [98] 101 *B* na
 wybo dynion..fracu 103 *B* [103–6], *A* ..dygn art a gardas

Awdl farwnad Robert Amiltwn o'r Ystrad

- Miltwn, da farwn, hyd Ferwig—rhag ing,
 Rhôl gyngor pendefig,
 Mae i'r llawr am wâr â llurig
 4 Mau oerwaith, rhew mawr, o thrig.
- O thrig o, chwithig och weithian,—Duw'n Un,
 Dwyn enaid gwâr Brytan;
 Bwriodd i bawb ei arian,
 8 Bwriwyd dan glo'r Brytwn glân.
- Priflan a diddan, dyddiwr—diofnog,
 Goludog, a gwladwr;
 Pen i'r gynnen ar ganwr,
 12 Pybyr ei gorff pe byw'r gŵr.
- Gŵr fu o nawllu a 'nillodd—gariad,
 Ac eraill a dripiodd;
 Ei gŵyn maith o'r ugain modd
 16 I'n oes heddiw a'n suddodd.
- Suddo yw rhodio, rhydyd—holl Wynedd,
 Lleweni, Bachymbyd;
 Suddo bonedd sydd benyd
 20 Swydd Gaer a'r Marsoedd i gyd.
- I gyd oer symud yw'r sŵn,—mawr ebwch
 Am Robert Amiltwn;
 Mae'r gweiddi, mawr y gwyddwn,
 24 Mae'r enaid draw 'mryn y trŵn.
- Y trŵn a garwn a gâi wirod—Mair,
 Morwyn lân ddibeched,
 Mewn gwinfwrdd, man i ganfod,
 28 Miltwn y mynnwn 'y mod.
- A bod i'w ginio, be dôi gannyn,
 I'w dŷ diofer wedi'u dyfyn,

32 Rhôl fwyd, Robert Llwyd, bort llyn—i'r bobloedd,
A pharthu gwinoedd a ffrwyth gwenyn.

Doe'r aeth hyd Affrig dreth y dyffryn
Drwy newydd alar draw'n ei ddilyn;
36 Dyfnog odidog, â dyn—i'w 'stafell,
A'i ddwyn o hirbell oedd i'n herbyn.

Duw, mi nid ydwyf dim ond adyn,
Nid ydyw oerfel ond o'i derfyn;
40 Dwysgur ei ddolur oedd elyn—ffyrnig
Neu wŷr o ffusig ni orffwysyn'.

Caiff air a haeddodd, y cyff rhwyddwyn,
Cefais wawd iddo, cafas dyddyn;
44 Ni chaid yr enaid awr ynn—o'r nefoedd
Â naw o'r miloedd yn aur melyn.

Aur, llew 'n y gad, o'r llin gynt,
Ifor i bawb, ef fu'r bont;
48 Gwedi'r hael, gadawer hwnt,
Ystryd oer yw Ystrad rent.

I'w rent yr oeddym ar ein trwydded,
Ucho, dda'i fonedd, iach oedd fyned;
52 O fewn y parthau ef a'n porthed
A galw clerwyr i gael clared.
Pan aeth ein pennaeth fo'n poened—naw cant;
Ple sy â gwarant plas agored?

Gwae ni heb lonydd gan y blaned,
56 Gwanhau ar dylwyth, gwae nhw, 'r deilied;
Gwae feibion tirion, torred—y lliest,
Gŵr gwiw a marchog, gwraig a merched.

Dŵr sy o'n tremau dros ein trymed,
60 Diferu'r garddau, dwfr ar gerdded;
Dŵr pur o'i frodyr fo red—yn amlwg,
Llaes o du'r golwg, llestair gweled.

O rhydd (a'u celu) rhyw ddyn caled
64 Yn ei gist arian—nac ystoried—

Ni all da, gwrda, o'r ged—am hiroes,
Na rhoi dim einioes; rhaid yw myned.

68 Oer yw ei orwedd ar ei wared
A'i roi 'n y tyddyn â'r un tudedd
Ar gudd heb oludd, heb weled—gwinllan
Na da o'i wythran ond ei weithred.

72 Mae'i radd o newydd mor ddiniwed,
A'i stad i Robart, ys da drybed;
Duw'n rhodd a'i dihangodd o'i dynged—ar groes,
Fo aeth i ail einioes fyth o'i laned.

76 Mae'n oer ei gwyno, amner gweined,
Mae'r cinio arwyl mawr cyn oered;
Miltwn, ni phrifwn, na phrofed—cerddor
O fewn naw tymor ofyn tamed.

80 Gwae ni, heb allel, gan ei belled,
Gwyllo mwy eryr, gael ymwared;
Gwae'r llu o'i gyrchu a gwae eirchied,
Gwae ysig hwyrddyn geisio cerdded;
84 Gwanhau'r ym ninnau o'r myned—y sydd,
Â mawlwaed henwÿdd y Miltynied.

Ffynonellau

A—BL Add 14875 [= RWM 30], 114^v–116^v B—BL Add 31074, 161^v–164^r

Amrywiadau

3 *AB* mae r.. 4 *AB* mae.. 11 *AB* ..ganwr 13 *B* ..or.. 15 *B* ..o.. 18 *A*
..bachynbyd 25 *AB* ..garwn ac ewirod.. 29 *B* ..gennyn 30 *AB* ..wedi dyfyn
33 *AB* ..yd aeth.. 38 *B* ..ei derfyn 43 *A* ..awr yn.. 45 *B* ..llu gynt 58 *AB*
..gwiw gwraig.. 60 *B* diferau r.. 64 *B* ag i.. 68 *B* ai roi n tyddyn.. 69 *B* ar
gudd y bo ludd.. 70 *B* na da i wythran heb i weithred 74 *AB* ..i laned 75 *B*
..am ner.., *A* ..gweined 77 *B* ..ffrifiwn.. 81 *B* ..gyrchu gwae.. 83 *A* ..rym
inav..

Marwnad Robert Salbri, Y Rug

- Doe fu'r ail, dyfu'r wylaw,
 Dyrnod a roes dŵr Noe draw.
 Och, Iesu, byth, achos bod,
 4 O! Dduw, arnom, âi ddyrnod.
 Trist, ar blyg y troes Duw'r blaid,
 Torri bron tŷ'r barwniaid.
 Am Robert y mae'r ebwch;
 8 Mae'r Rug yn drist, margen drwch.
- Ni bu fry ŵyl na bai frau;
 Nid ydoedd lai no'i deidiau:
 Dal oes rhwng dwy o lysoedd,
 12 Darn o nerth Edeirnion oedd.
 Och! wyliau, Basg a Chalan,
 Ysgar gwledd ysgwier glân.
 Lludded loes yn lladd hyd lawr
 16 Llanynys oll yn unawr.
 Gwael ydyw bron gwlad heb wres;
 Glyndŵr galon a dorres.
 Ifanc yr aeth i'w fainc rwydd,
 20 Glyn eurglod, *ei* gloi, 'n arglwydd.
 Nid âi hen i'r naid honno
 —Nid air fyth—ond ei aer fo.
- Penadur fu pan ydoedd,
 24 Pur achos hyn, parchus oedd.
 Arf yn cloi oll ar fin Clwyd
 O'i dŷ annedd a dynnwyd.
 Dwyn gwŷr Rhuthun dan gerydd,
 28 Dinbech sir dan eu baich sydd.
 Dygn adladd dwy genhedleth,
 Dwyn aer Pirs fal dyna'r peth.
 Mawr yw anap Meirionnydd;
 32 Mae'n un braw, pob man yn brudd.

Lluniodd fod pob lle'n ddi-fai;
 Llyfodraeth oll a fedrai.
 Caru pawb o'r cywiriaid,
 36 Casáu'r blin, grocyswyr blaid.
 Dyddiwr gwych, da oedd ar gais,
 Di-ddwl y dydd a welais.
 Brigyn o hyd, brau gwnâi hedd,
 40 O câi freuder cyfrodedd.

Os ei ddwyn, iso ddeunaw,
 Acw i frith drin cyfraith draw,
 Trafael sud, trôï fal Sawden
 44 Trwy bawb â'i fater i ben.
 Bwrw ucho'n glir barch ein gwlad
 A dywyllodd y dillad.
 Saeth fawr 'sywaeth fu'i orwedd,
 48 Salbri; och fi uwch ei fedd!

Pwrs a llyn peris wellhau,
 Parcoedd, palisoedd, plasau,
 Ac yn y fan uwch glan Glwyd
 52 Yr aur lys yr arloeswyd.
 Mal anos yma 'leni
 Mynd i Fachymbyd â mi.
 Beth yr af fi byth i'r fan
 56 I'm poen oll a'm pen allan?
 Ei brifardd heb awr afiach
 Beunydd fûm ban oedd fyw iach.
 Pob bwyd dilesg, pob teulu,
 60 Pawb ar ei fwrdd, pybyr fu.

Mwy siom ydoedd mis Medi,
 Mis draw serth, i'm meistres i.
 Galar oedd, gwiwloer addwyn,
 64 Gwisg o ddu i'w gwasg o'i ddwyn.
 Duw a roes niwl dros ein iaith,
 Dyrynu dau ar unwaith:
 Dwyn gŵr o f faint dan gôr fry,
 Dwyn hon, Duw a wnâi hynny.
 68 Ni fynnodd yn y faenol
 Fara yn iach fawr 'n ei ôl.

- 72 Dyrnod rhwng Llŷn a'r 'Deirnon
 A dorres, pe pres, pob bron.
 Gwae'i frodyr oedd gyfryw drai,
 Gwae'r ceraint, gwŷr a'i carai;
 Gwae'r chwirydd yn bruddion
 76 Gau ar eu brawd gar eu bron.
- Er cau orig, er cerydd,
 Plas o fraint Powl a fu rydd,
 Y mae aeron i'm eryr,
 80 Dri pur eu gwaed, darpar gwŷr.
 Mwsg helaeth ymysg haelion,
 Mwya' stôr sydd, y Mastr Siôn.
 Cafas hwn, cof a sonnir,
 84 Galon ei dad glân a'i dir.
 Caf finnau'r un cyfannedd
 Cans y mab cynnes a'i medd.
 Gŵr a wna lles, graenio lliw,
 88 Gwŷr ei dad, mewn gwrid ydyw.
 Hynod yw'r ddau a henwer:
 Huw a'i frawd Pirs, hyfryd pêr.
 Teirchwaer serch i'r tri charw sydd;
 92 Trigeinoes hwynt ar gynnydd!
 Tri llesâd teirlllys ydynt;
 Llai'r goel oedd ferched Llŷr gynt.
 Er dwyn, mawl ordain a modd,
 96 Y mau henfeistr o'm hanfodd,
 Ef â 'i enaid i fyny
 Ym mhlaid Fair am haeled fu.
 A'i fawr enw ef a'i rinwedd,
 100 Aur am war ei aer a'i medd.

Ffynonellau

A—BL Add 14966, 158^v–160^r B—Bangor (Mos) 11, 31–3 C—BL Add 31059, 171^r–173^r

Ffynonellau eraill

D—BL Add 10313, 188^r–189^v E—BL Add 31073, 148^v–152^v

Amrywiadau

8 *ABC* mae Rug.. 15 *B* ..yn ladd.. 20 *ABC* ..yw gloi.. 31 *B* ..Merionudd 47
ABC ..fv orwedd 53 *A* ..a nos.. 54 *ABC* ..Fachynbyd.., *B* ..a ni 62 *ABC* ..i
 meistres.. 66 *A* dyrn..or vnwaith 88 *A* gwir.., *B* gywir i dad mewn gwir yw
 96 *A* y mae.. 98 *B* ..am henaidd fu

Marwnad Siôn Salbri ap Syr Siôn Salbri

- Mae nâd yn gaeth mynd un gŵr,
 Mawr ei glod, mur a gwladwr.
 Trwm yw'r sŵn tramawr y sydd,
 4 Trist o gur, troes Duw gerydd.
 Trydar fyth roi troed ar fedd
 Trysor gwyn teirsir Gwynedd.
 F'aeth irder oll fyth ar dranc
 8 Maes o dref marw mastr ifanc.
 Llas nerth gardd ein llysiâu ni,
 Llinwaed marchog Lleweni.
- Tŵr nod, fal tēyrn ydoedd,
 12 Tid aur o waed Tewdwr oedd.
 Uchaf hyder a chodiad
 Yn y did oedd ond ei dad.
 Cymar gwawr, caem aur a gwin,
 16 Cytraul, y Meistres Catrin,
 A'i llun gwaisg oll yn gwisgaw
 Mwrrai'n drist ym Merain draw.
 Ba nifer heb anafu?
 20 Ba wasg deg heb wisgo du?
 Hithau a'i bronnu heb wres
 Fry o'i gladdu, f'arglwyddes.
 Llefain o'i braw llif Noe brudd.
 24 Lle annifyr Llanefydd.
- Ba frawd oll heb frawd od aeth?
 Ba chwaer ni bo awch hiraeth?
 Ni choeliais yn Uwch Elwy
 28 Y gellid fyth golled fwy.
 Gwae wlad oer gweled arwyl
 Gwal yr iaith heb gilio'r ŵyl.
 Parth hir glod, porthai'r gwledydd
 32 Ar gan a rhost a gwin rhydd.
 A'i fryd, ail Ifor ydoedd,
 Ddal gŵyl, mor dduwiol, ar goedd.

36 Un nid âi'n ffrom na dwyn ffrith,
 Na da'r gwan, na'i dir gwenith.
 Dyddiwr pur,—on'd oedd dda'r peth?—
 Da'i bwyll, hael, diball, heleth.
 40 Aur ei dyfiad, w'r difalch,
 Arthur a'i bwys wrth w'r balch.
 Tir o fewn glyn, terfyn gwlad,
 Nid oedd wag ond o'i ddygiad.

44 Dirwyn oll derwen allan
 A gado mil o goed mân.
 Ofer o'r amser yr aeth
 Fost yr wyl o'i feistrolaeth.
 48 Lle'r glêr fu'r llys ym Merain;
 Llwy'r wae rhif llawer o'r rhain.
 Och gael un rhodd uwch glan rhiw
 Doe yn hawdd, a'i dwyn heddiw.
 Traul cost y Triael y'i caid,
 52 Tŵr a gwanas tŷ'r gweiniaid.
 Rhannu'r oedd i'r hŷn a'r iau
 Ag aur did ei gardodau,
 Ac o'r tu fewn i'w gwrft fo
 56 Y câi weiniaid eu cinio.
 Marciwyd Siôn lle mercid saint,
 Marcio hiraeth mae'r ceraint.

60 Oes i ddyn o'i swydd ennyd
 Hyder o'i barch? Hud yw'r byd.
 Efa a'r gŵr ofer gynt,
 Wb o'r afal a brofynt.
 64 Un bradwaith i'n bwrw ydoedd
 I bridd a dwst, breuddwyd oedd.
 Ni wŷr marchog diogel
 Ddim o'r awr odd'yma 'r êl.

68 Na wyper i'n amser ni
 Eisiau hwyllbren o Salbri.
 Er dwyn o Fair w'r dan fedd,
 Siôn, aer gwyn, synnwyr Gwynedd,
 Duw ad oes hir i'w dad Siôn
 72 Gwedi'r aer i gadw'r wyrion:
 Y Mastr Tomas urddasawl
 A Mastr Siôn, rymuster Sawl;

- 76 Gwaed rhagorol urddolion,
Gwinwydd mêl Gwynedd a Môn;
Blodau'n iaith yn blaid i ni,
Brig llwyn o barc Lleweni;
80 Dau ros gwynion dros gannwr,
Dau at air da deutu'r dŵr.
Mawrhad i'r ddwywlad yw'r ddau,
Maen' yn un 'Môn â ninnau.
Gwin diymwad gan Domas
84 A gair heb lestair o'i blas.
Un aer llin yn iarll hynod,
A gwell ei fwrdd y gall fod.
Trawst yr haf rhag trwst rhyfel,
88 Tros ei dad deiroes y dêl.
Yntau'r ŵyl hwnt i'r eiloes,
Grair hardd, at y Gŵr a'i rhoes.

Ffynonellau

A—BL Add 14966, 177^v–178^v B—Bangor (Mos) 11, 65–7 C—BL Add 31059, 125^v–127^v D—LIGC 6496C, 151^r–152^r

Ffynonellau eraill

E—BL Add 14972, 46^r–47^r F—BL Add 31073, 144^r–148^r G—Card 4.10 [= RWM 84], 1249–50

Amrywiadau

2 *D* ..i gloc.. 3 *B* ..swm.. 4 *A–C* trist gvr lle.. 8 *A–C* ..dref y maestr.. 10 *A–C* llin had.. 11 *D* twr noe., *B* twr nord.. 15 *A–C* ..em., *D* ..kem.. 18 *A* ..Merwin.. 20 *A* ..teg.. 21 *B* ..ar bronnav.. 22 *B* ..o gladdiad., *AC* ..gladdiad.. 24 *A–D* ..llan Vfydd 26 *AC* ..na bo., *B* ..na bu.. 27 *AB* ni choelais.. 29 *B* ..y gweled.. 31 *A–C* ..ir glod.. 32 *A–C* ..ar gwin.. 34 *A–C* ..ag oedd, *D* ..ar oedd 35 *B* un nad aen.. 37 *D* ..da r.. 39 *A–C* ..i..dafod ir.. 46 *B* ..ar wyl., *AB* ..ar feistrolaeth, *CD* ..o veistrolaeth 47 *D* ..lys.. 49 *D* ..yn Rodd vwch glynn.. 51 *D* ..y trael., *A–D* ..i caid 53 *BC* rhannau r., *D* Rannv r ioed.. 54 *AB* ..godardav 55 *B* ..i gwrt fo 57 *A–C* ..lle mae r cyd saint, *D* ..llei merkic saint 59 *A* ..o ddyn., *A–C* ..a swydd.. 66 *B* ..a ddyma.. 70 *D* ..wr gwynn.. 71 *A–D* ..i dad sion 72 *B* wedi.. 74 *A–C* y maestr., *B* ..hawl 77 *D* blodav r jaith., *A* ..a blaid., *BC* ..o blaid .. 79 *A* ..canwr 80 *AB* ..at aer.. 90 *C* ..at gwr..

Marwnad Edward ap Siôn, Archiagon Caerfyrddin

Duw a'n blinodd, dwyn blaenawr,
 Darfu i'n mysg derfyn mawr:
 Disgyn llwyth dysg yn y llan,
 4 Dewis w'r Duw a Saeran,
 Syr Edwart, a'm sir ydoedd,
 A'n pen iau yma pan oedd.
 Rhyw Siôn hael, rhoes yn helaeth,
 8 'Rhyd un gist y'i rhoed yn gaeth.
 Iefan bur o fewn y bedd,
 Siôn ac Ierwerth sy'n gorwedd.

On'd diriaid y naturieth
 12 Ar eni pawb i'r un peth?
 Gwae ni o'r mis, gwan yw'r modd,
 Gwaed Owain a'n gadawodd.
 Troes Duw frad, trist i'w frodyr,
 16 Toriad pen, tew irwaed pur.
 Dwyn yw'r cwrs eu dawn i'r côr,
 Dydd trais, diweddu trysor.
 Cydowri'n cau daearen;
 20 Croch y bu'r cri uwch ei ben.
 Y llu gwan oll a gwynodd
 Yn Nhroea fawr unrhyw fodd.

Er dryllio ar du'r allawr
 24 —*Â* nâd o'i fedd ennyd, fawr—
 Ei gorff, oedd gâr Gruffudd Goch,
 A rhy isel y'i rhoesoch,
 Penrhaith, a'i gipio 'n y rhwyd,
 28 Pinagl oedd hyd pan gladdwyd.
 Antur o Gred un tŵr grym,
 A'r tŵr gwyn o'r tir gennym,
 Ffyrf, addwyn, a phur fyddai,
 32 Ffair oedd y byd ffordd y bai.
 Llên oedd o nerth, lluniaidd nod,
 Llew grasol yn Lloegr isod.

36 Pa wr yn fyw, pur, un fodd
 A gâi'r rhodd a gyrhaeddodd?
 Ennill o'i ddysg (yn lle'dd aeth
 Erchi gwin) archiagoniaeth
 40 —A'i arglwydd, drud eurgledd draw,
 Un ir oedd, yn ei raddiaw—
 Caer, a llewych côr llawen,
 Fyrddin, pur fu'r rhodd i'n pen.

44 Gwedi hyn i gyd o hawl
 Gorfu ado'r gaer fydawl.
 Dwyn y gŵr, Duw'n ei garu,
 Dirnad fawr o'r diwrnod fu.

48 Ateb yr oedd at y brig,
 Urddas gwaed, ar ddysgedig.
 Oer fu aros ar forau
 Arwyl ein brig irlan brau.
 A rannwyd oll er nad iach
 52 Ar ôl dug arwyl degach?
 Trist i'r Mars y troes Duw'r modd
 Tua'r fan y terfynodd.
 Cau'n sir oll, cwyno sy raid,
 56 Cloi'r gwin rhwng clêr a gweiniaid.

Cawn, f'eryr, cyn ei fwriad
 Y can a'r rhost acw'n rhad.
 Dwys yw'r gŵyn, di-sew ar gig,
 60 A di-fir ydwyf orig;
 Di-fri oll, difara iach,
 A di-bwyll ydwyf bellach.
 Person oedd, pwrws aneididil,
 64 Antur o'i fath un trwy fil.
 Beth a wnair byth yn ei ôl
 Eisiau breuder ysbrydol?

68 Bicar sydd,—am bwy cair sôn?—
 Braich Ifor, bur a chyfion;
 Un all cael, ail, ennill clod,
 Oen Duw ifanc yn dyfod;
 Darn o gyff rhag dir neu gam
 72 Dros yr wyl draw, Syr Wiliam.

76 Gwael obry yw gŵyl heb wres
 Gau heddiw a'm gwahoddes,
 Llên irddoeth yn llawn urddas,
 Llenwi'r plwyf o'r llan i'r plas.
 Nid oedd ŵyl ond ei ddilyn
 Ef a'i dad o fywyd ynn.
 80 Saeran, âi draw siwrnai drom,
 A'i ddau drysor oedd drosom.
 Siôn at yr un sant yr aeth
 A'i fab yna fu bennaeth.

84 Eryr y sydd ar wŷr Siôn,
 Llyg eilwaith nid llai'i galon.
 Y mab yn rhwydd am benrhaith
 Ynn a dâl Ynyd eilwaith:
 88 Edwart ffres â dur at Ffranc,
 Llew diofer Llwyd ifanc.
 Gwnêl Mair i gynnal mawredd
 Yrru i'r glain aur ar ei gledd.
 92 Rhoi oes i'n plith, rhosyn plaid,
 A rhoi nef i'r hynafiaid.

Ffynonellau

A—BL Add 14966, 135^v–137^r B—Pen 121, 113–16 C—BL Add 31056, 166^r–167^r D—BL Add 31059, 22^v–24^r E—CM 20, 13–17

Ffynonellau eraill

F—Card 4.10 [= RWM 84], 1256–7 G—Card 4.10 [= RWM 84], 166–7
 H—BL Add 14972, 60^r–61^r I—BL Add 31073, 140^r–144^r

Amrywiadau

5 *B* ..ain sir.. 7 *C* rroes sion.. 8 *A–E* ..i rhoed.. 10 *C* ..ifan.. 11 *ACE*
 ..natvriaeth 17 *C* ..cwrw dawn.. 20 *BE* krochi bv., *C* crochi i bv.. 24 *ADE* o
 nod yw fedd., *B* o nad yw fedd., *C* y nad yw fedd.. 26 *A–E* ..i rhesoch 28
C pinagl hyd.. 32 *C* ..i bv 33 *B* llvn.. 36 *A* a gae rhodd.. 37 *A* ..ai ddysg yn
 lle i ddoeth 41 *C* cae.. 42 *A* ..fo rodd., *B–E* ..fv rodd., *CE* ..im pen 48 *C*
 ..at.. 51 *B* ..ir nad.. 56 *C* ..rrwn cler y gweiniaid 57 *C* ..rym i fwriad 58
ACDE ..a rhost.. 59 *C* 60–59, *C* ..yw gwin.. 60 *C* a difyr.. 64 *C* ..o fath..
 71 *C* ..rag.. 74 *ACE* ..an gwahoddes 77 *C* ..gwyl.. 82 *BCE* ..yma.. 84
ACDE ..llai galon 86 *E* ..ennyd.. 88 *C* ..llwy ifanc 90 *A* y rhv y glain., *B–E*
 yrrv r glain..

Marwnad Tudur Aled

Duw, o'r gŵyn a drig ennyd
 Draw eisiau bardd dros y byd?
 Eisiau ymhell sy am hwn;
 4 Nes ei guddio nis gwyddwn.
 Drwg gennym dreio canu;
 Nid â byth i'r nod y bu.
 Treio mydr,—on'd trwm ydoedd?—
 8 A daed o ran, Dudur, oedd.
 Doe fu drwm dyfod yr awr
 I roi Aled ar elawr.

Cyn iddo fynd canodd fo;
 12 Fo wnâi'i gân fynnu'i gwyno.
 Cywydd braisg, caewydd a brig,
 Tudur oedd warantedig,
 Gŵr oedd ddidlawd, gwrdd odlau,
 16 Gwir Adda Fras y gerdd frau.
 Doe'r dydd y daerwyd un,
 Da ei osteg ar destun,
 Od oedd ceidwad dydd cadair,
 20 Hon eisiau cerdd hwy nis cair.
 Ni chair od aeth, a chau'r dysg,
 Ei bath radd heb athrawdysg.
 Ni wyddir hwnt naddu 'rhawg
 24 Coed awenydd cadwynawg.

Duw, nis cân dyn Is Conwy
 Yr ail modd ar ei ôl mwy.
 Rhai a gyrrydd rhagoriaeth,
 28 A'u rhagor oedd i'r gŵr aeth.
 Calon a gwŷdd, colon gwawd,
 Carodd dyfu cerdd dafawd.
 Aber awen heb rewi
 32 O duedd haul ydoedd hi,
 Ffrwd nerth, a ffrydu a wnâi,
 Ffons cân, a phwy nis cwynai?

Wrth y fan yr aeth i'w fedd
 36 Yr oedd awen ar ddiwedd.
 F'aeth i'r gro fy athro grym,
 F'aeth canu fyth o'i cennym.
 Ba waeth, dwyn odiaeth, Duw Nêr,
 40 Byth gennym beth a ganer?
 Yma 'n ei grys mewn y gro
 Mae, a'r dwned mawr dano.
 Gresyn byth goris un bedd
 44 Briddo gwanas beirdd Gwynedd.
 Mae'n brudd llu am un bardd llwyd
 O bur addysg a briddwyd.

Aeron o gorff yr un gŵr,
 48 Un i Dduw yn weddiwr,
 Dyna roi, un da 'n ei raid,
 Syr Siôn rhag siars ei enaid.
 Peri alaeth i'r prelad
 52 Fu oer a dwys farw ei dad.

Mair a wŷyr os marw eryr
 Marwach yw gwawd meirch a gwŷr.
 Colli'r serch, cellwair a sôn,
 56 Colled aeth cell y doethion.
 Cau ar ddyn ir, cerdd a wnaeth,
 Cau ar ddeurudd cerddwriaeth;
 Cau ar ddewis cerdd awen,
 60 Caewyd tôn hardd Catwn Hen;
 Cau tu rheswm, co' trasyth,
 Caewyd ar fardd cadair fyth.
 Rhywliwr oedd, rhol Hiraddug,
 64 Rhyw angau diau a'i dug.

Taer yngod wyt ti, 'r angau,
 Tyn o'n plith, wyt yn ein plâu.
 Dros hynt un drysiant ennyd
 68 Yt na bai eto 'n y byd.
 Na bych, o gwn ebwch gur,
 Hen nad oedud hwn, Dudur.
 Anudonaidd yw d'wyneb
 72 Na roi nawdd unawr i neb.
 Dieneidiwr dyn ydwyd,
 Dihir beth, dihareb wyd.

76 Ni chai fyth—yn iach, efô!—
Un i'w ladd yn ail iddo.

80 Cedwis, a dwyn coed ystôr,
Mal ar ugain mil ragor.
Cadwed y pen ceidwad pur,
Duw ein Tad, enaid Tudur.

Ffynonellau

A—Llst 156, 332–4 B—Pen 91, 94–6 C—Llst 46, 184–7 (collwyd rhannau o'r testun) D—BL Add 14966, 196^r–197^r E—LIGC 1560C, 388–90 F—BL Add 31059, 170^r–170^v G—Esgair 1, 42–3 H—LIGC 5283B, 232–4

Ffynonellau eraill

I—CM 200, 360–3

Amrywiadau

1 *F* [1–32] 6 *CD* ..naid.. 7 *H* trio.. 12 *CH* ..nay gan.., *D* fo wna i gan.., *A* ag iawn ganv iddo, *G* ag jawn oedd ganu iddo 14 *A* ..warantiedig 15 *D* ..didlawd.., *ACDH* ..gerdd.., *G* ..gwedd.. 17 *B* doe yw r dydd daiarwyd vn, *C* i doer dydd.., *AG* ..daiared.. 19 *AG* i ddoed.., *BCEH* i ddoedd.., *ABEGH* ..ddydd.. 20 *C* ..hwn.., *E* ..hwyr.., *H* ..mwy.. 21 *AG* ..iache r.. 26 *C* ..hol.. 27 *ABEGH* ..gyrredd.., *C* ..giridd.. 28 *AG* a rhagor.., *D* ai ragor.. 31 *G* ..afon.. 37 *B* ..gwyn 38 *DF* ..y canv.., *CDF* ..fith kenym, *B* ..o kenyn, *EH* ..o kenym 39 *AG* ba waeth ond a wnaeth.., *H* ..odiyth ner 40 *C* ..kenyn.. 41 *C* y mae.., *B* yna yn i grys.., *AG* yna yw grys yn y.. 42 *C* mae dwned.., *H* may yr dwned.. 45 *G* mae n llv.., *B* ..am y bardd.., *EH* ..am yn bardd.. 46 *BEH* y bvr.. 48 *D* ..yn i weddiwr 49 *C* ..yn da i raid 50 *AG* ..ar siars.., *C* ..rag raid.. 53 *D* ..marw r.. 54 *C* ..yw a gwawd.., *CH* ..merch.. 55 *AG* 56–55, *BDEFH* ..sal.., *C* ..fal.. 58 *G* ..kerddoriaeth 61 *AG* [61–2], *BDEFH* ..ty rhesswm.. 63 *C* yriliwr oed.., *AG* .. rhol hir addvg, *BE* ..rolir a dddvg, *D* ..rhol ir addvg 67 *C* ..hwynt.., *BE* ..ynn.., *AG* dros hwnn tyf..hefyd 68 *AG* ..yntav.. 69 *B* na byth.. 70 *AG* hyn nad oedid.., *C* ..na doeth hwn.. 71 *B* ana dynion yn dwyneb, *C* a na dinam ni dy wineb, *DEFH* ana dinam yn d wyneb 73 *A* dveneidiwr.. 77 *AG* 23–26 (ailadroddwyd), *D* cedwais..

Marwnad Siôn Erch ar ran Edward Llwyd

Blin i derm f'oes, blaendrom fu,
 Fyw i aros yfory.
 Claf wan y'm clywaf ennyd,
 4 Cwrs ar boen, curiais o'r byd.
 Cur sy 'n ôl cau ar Siôn Erch;
 Cyn ei fyned cawn f'annerch.
 Os gorwedd is y gweryd,
 8 Ym maen ei gwsg yma'n gyd,
 Trais ym oedd, torres o'm iad
 Argae'r waedd o'r gorweddiad.
 Galarus wyf gloi ar Siôn,
 12 Gyfyng hwyl, gwae fy nghalon.

Och lu trist! O chleiwyd draw
 Cleiwch delyn, cloch dwylaw.
 Gwraidd y bur gerdd, o bwriwyd,
 16 Gwael iawn yw clêr glannau Clwyd.
 Ni bu 'rïoed wynebwr iach
 Yn rhoi addysg yn rhwyddach.
 Lle nad byw lluniwyd y bedd
 20 A llaw Dduw oll i'w ddiwedd.

Llawnder tost, llawn, Edwart, wyf,
 Llwyd, o'i alar lle delwyf.
 Cyn oed i fedd, can di-fai,
 24 Cawn addysg a'm cynyddai.
 Ar oddef dringo'r oeddwn,
 Organ cerdd, ar geinciau hwn.
 F'ysgol oedd fwsig o'i law;
 28 F'aeth breuddwyd fyth o'i briddaw.

Er clywed ei fyned fo
 Fry unwaith, a'i farw yno,
 Ni choeliwn, anwych helynt,
 32 Fyth ryw gwrs am f'athro gynt.
 Ni bûm awr heb ymorol
 A drôï 'nyn adre' 'n ei ôl.

36 Gan na throes gwn waith y rhaw
 Gwedi'r Ystwyll gau drostaw.
 Hir, a gwangerdd, hwyr gyngyd,
 Gŵynfawr boen, gennyf fi'r byd.
 40 Llawer, herwydd llwyr hiraeth,
 I roi poen ym er pan aeth.

 Nid llai heddiw briw i'm bron
 No'r llynedd gan wayw llinon.
 44 Mae gosgedd oer i'm gwisg ddu
 Dan waedd yn adnewyddu.
 Mae llewyg ym oll o'i gau,
 Mae awch nâd i'm ochneidiau.
 48 Mae ar y drem, môr a drig,
 Ofn math, afon Amwythig.
 Fy ngadel, f'angau ydoedd,
 Fi'n fyw a'i ddwyn—f'anfodd oedd.
 52 Mae yn y corff mewn a'i câr
 Weithian fron aeth yn franar.
 Twrn afraid, taro 'nwyfron
 Fal â'r saeth, fu alar Siôn.
 56 Ni chair mwy, anwych yw'r modd,
 Oed i'm gwaedd od ymguddiodd.
 Oeswr ni byddaf isod;
 Ni'm dawr na bwyf awr na bod.

 Drwy burni draw y bernynt
 60 Flas ei gerdd fal osai gynt.
 Euro'r llais bob awr i'r llu,
 Organ oedd ar gynyddu.
 Lliw sad fal y llus ydoedd,
 64 Llais ei gainc—lluosog oedd.
 Ni bu 'n y gerdd neb yn gwau
 Plethiad hwn plith y tannau.

 Allan—pa le oll?—o'n plith
 68 Yr aeth rhol yr athrylith.
 Os i'r bedd, Iesu, o'r byd
 Yr âi Siôn er ys ennyd,
 Cafas 'y Nuw, cofus nêr,
 72 I baradwys y breuder.
 Cefais ei ddysg, ein cyfedd,
 Caf roi fyth cof ar ei fedd.

76

Cwmpas cerdd, campus y'i caid,
Crist Iôn, croesed ei enaid.

Ffynonellau

A—BL Add 14966, 191^v–192^v B—Bangor (Mos) 11, 179–81 C—BL Add 31059, 184^v–186^r D—LIGC 552B, 79^v–80^v E—LIGC 644B, 135^v–137^r

Ffynonellau eraill

F—BL Add 10313, 192^v–194^r G—BL Add 31073, 153^r–156^r H—Llst 166, 86–9

Amrywiadau

8 *AB* y mae yn i gwsg., *C* y mae n i gwsc., *DE* y mae i gwsc y main i gyd
12 *B* ..hael.. 13 *E* ..chlowed.. 16 *A* ..Glwyd 18 *D* yn roi.. 19 *E* ..llvniwyd
ddiwedd 22 *A–E* ..lle i delwyf 26 *B* ergan.. 28 *A* ..byth., *DE* ..fyth i
briddaw 34 *A* a droe n nyn.. 35 *DE* ..raw 38 *E* ..genyfer byd 40 *DE* ..ir
pen aeth 42 *DE* ..wayw r llinon 43 *DE* ..gwaisc.. 44 *D* ..yna dan ywyddv,
E ..yna dan wyddv 46 *CDE* ..echneidiav 48 *D* o fv math., *E* a fv math o
fon y Mwythic 53 *E* ..afrad.. 56 *DE* oedd.. 57 *E* oeswr wyf bydda issod 59
E ..draw oi bernynt 62 *ADE* ..wr gwinevddv (ychwanegwyd yn *C*) 64 *AC*
llais gainc., *E* llais y gaingk.. 65 *DE* ni bv hwy gerdd.. 67 *DE* a llann., *E*
..ein plith 68 *D* ..rol.. 69 *DE* ..or bedd.. 75 *A–E* ..i caid

8
Cywydd i Dduw

Pwy'r gŵr â'r power i gyd
Piau buchedd pob iechyd?
Y Tad yw; ato deuwn
4 I'r bywyd hir o'r byd hwn.
Nid sôn ond o'i wasanaeth,
Nid enwog neb ond a'n gwnaeth.
Gair Duw ydoedd grededun;
8 Gardd a'i had o'i gwraidd ei hun.
O'r had dwfn y rhoed defnydd
Dŵr a gwellt, daear a gwŷydd;
Pob lle'n deg, pob llwyn a dail,
12 Pawb o'i Naf, pob anifail.
Cael Adda'n benaig gwleddoedd,
Cael Efa'n ail, coelfain oedd;
Dau'n cael pob ordain o'u cyd,
16 Da rhif ac adar hefyd.

Adda gadarn oedd geidwad,
Ar wedd twf irwydd y Tad,
Bwrtais fraint baradwys fro
20 Berhôn na bu hir yno.
Trais fu'r gwaith, troes Efa'r gŵr
At ewyllys y twyllwr;
Torri, dwyn oerni dan un,
24 Gair chwimwth, y gorchymyn;
Troi, fal gloes, trwy afal glân,
Tyfodd siot, at fodd Satan.
Dyna'u rhoi hwynt dan y rhod
28 O dra iawnder y Drindod.
Bwriwyd, air a bryderwn,
Bryd fu tost, i'r bradwfyd hwn.
Efa a ddug hil i fodd caeth,
32 Ymrôi fal i'w marfolaeth,
Brau ddynion, o bridd ennaint,
A'u troi'n bridd at yr un braint.
Ystyrier boen oes drwy'r byd:
36 Ben dyn yn byw ond ennyd.

40 Dau Addaf oedd dydd a fu
 Od air weithian i draethu:
 Un diriaid, enw daearol,
 Un o nef—awn yn ei ôl.
 Trown yngod rhag trin angall
 Henwau'r llu o hwn i'r llall.

44 Dwy forwyn ydyw f'araith;
 Dêl yma gof dalm o'u gwaith.
 Un, Efa, 'n ferch, anfwyn fodd,
 A briw angau a 'bryngodd.
 48 Ing o'i hafal anghyfion
 Fu *i* warchae hil y ferch hon.
 Merch Anna, mawr ei chynnydd,
 Mair a'n rhoes o'r muriau'n rhydd.
 Dug lain nod y goleuni,
 52 Ac ar fodd haul, gwyrf oedd hi.
 Brenin o'i bru a aned
 Brau 'nydd Croes a brynodd Cred.
 Llawer Iddew lle'r oeddynt,
 56 Llas ei gorff oll, Iesu, gynt;
 Troi'n ei gylch, traeanog oedd,
 Torri deutu'r traed ytoedd;
 Gwres helaeth Groes a hoelion
 60 Ac yno fry gwayw'n ei fron;
 Rhoi'i ddwylo 'n unrhyw ddolur;
 Rhediad o'i waed 'rhyd y dur.

64 Llyna'r aberth llawn rhybudd:
 Llaw Dduw'n rhoi llu Adda'n rhydd.
 Nid oes offrwm, trwm yw'r tro,
 Oen Duw ufudd, ond éfo.
 Gwared hardd drwy'r gwryd hwn,
 68 Gwir heddwch, a gyrhaeddwn.
 Drwg o weithred drwy gythrel,
 Dan gnwc y mae'r dyn a'i gwnêl.
 Da iddo droi rhag dydd drwg
 72 Drwy wylo'r dŵr o'i olwg.
 Cyn ei derfyn, cnawd oerfodd,
 (Os daw i ras—ys da rodd)
 Mendied oll cyn mynd i'w daith
 76 Mal Sawl rhag malais eilwaith.

- 80 Dygwn bawb, Fab Duw gwyn bur,
Gyda'i ddialedd gyd-ddolur.
Awn i'w gwynfan, oen gwinfaeth,
Allan o gwrs y llin gaeth.
Drwy 'difeirwch, drud fwriad,
Y doir at hwn i dŷ'r Tad.
- 84 Mawr oedd a wnaeth mawrDduw Nêr;
Mae yn ôl mwy a wneler.
Y dydd y bo diwedd barn,
A chyd rhwng gwan a chadarn,
Da gwirion, fo'i dwg Uriel
- 88 Gyda'r saint i gyd-roi sêl.
Ac i'r enwir a grinodd
Am gyni fyth amgen fodd.
Yn awr dranc rhag enwir dro
- 92 Oen Duw yngod a'n dihang.

Ffynonellau

A—BL Add 14971 [= RWM 21], 97^r–99^r B—BL Add 14879 [= RWM 38], 103^v–105^v C—BL Add 14984, 159^v–160^v D—BL Add 31058, 180^v–182^r E—Card 2.114 [= RWM 7], 61–4 F—Card 2.202 [= RWM 66], 41–4 (llau. 1–88; collwyd y ddalen nesaf) G—Card 2.616, 40–3 H—Card 2.624 [= Hafod 10], 28^v–30^r I—CM 33, 68^v (llau. 1–34; collwyd y ddalen nesaf) J—Llst 118, 629–31 K—Llst 133, rhif 191 L—Llst 165, 15–16 (collwyd sawl rhan o'r testun rhwng llau. 16–21 a 59–72 oherwydd traul) M—LIGC 435B, 40^r–41^v N—LIGC 436B, 64^r–65^v O—LIGC 675A, 38^r–39^v P—LIGC 1578B, 59–62 Q—LIGC 2692B, 22–4 R—LIGC 3037B [= Mos 129], 297–300 S—LIGC 3048D [= Mos 145], 67–70 T—LIGC 7191B, 1^v–3^r U—LIGC 13081B, 107^v–109^v V—LIGC 19901B [= JGE 1B], 1^r–2^v W—LIGC 21248D, 250^r–251^v X—Pen 89, 29–33 Y—Pen 93, 48–52

Ffynonellau eraill

Z—BL Add 14888, 57^v–59^r A—BL Add 31073, 133^r–136^v B—Bodley f 5, 119^v–121^v C—Card 4.10 [= RWM 84], 1024–6 D—Card 4.156 [= RWM 64], 46^v–47^r E—CM 40, 25–6 F—LIGC 19901B [= JGE 1B], dalen a ychwanegwyd ar ddiwedd y llsg. (llau. 1–54) G—Pen 241, 164–8

Amrywiadau

1 C pwy yw yr gwr., D—OQRVW pwy yw r gwr... 2 U pwy orychaf.. 3 K ..tad ato., ABDEFHJ–NQRTV–Y ..y devwn, CP ..y dewn, G ..y tveddwn, IU ..y down 5 DKLQTXY ..ond i wasanaeth, E ..ond o wsanaeth, FJ ..ond am i wasanaeth 6 FLW ..a wnaeth, NPU ..au gwnaeth 7 M gan dduw., J gwir.,

FGJQTU ..gredadun, *LY* ..a gredyn 8 *ADLPSXY* gradd., *D* [] a had., *BC* ..oi had., *KLMPQY* ..a had., *B* ..ai gwraidd., *LY* ..or gwreiddiau hyn, *U* ..oy gwreyddiey y hyn 9 *LUY* ..had hwn., *AFGQ* ..dyfn., *S* ..dofn., *FLPVY* ..deunydd, *J* ..denfydd, *N* ..ir oedd defnydd 10 *AMPW* dwfr., *U* dwr gwelld.. 11 *EOUV* ..llen., *I* ..llwyn dail 12 *AHMNTW* ..ai naf., *F* ..nef., *E* ..pob yn wiail 13 *A* ..Addaf bennaig., *E* ..addaf pen aig., *F* ..Adda bena., *U* ..adda benaig., *I* ..yn bena ir gwledydh, *L* ..ben air celfydd oedd, *M* ..yn bena gwleddoedd, *P* ..wleddoedd 14 *U* ..efa yn vn., *S* ..vn cyflawn., *HN* ..kyfiawn., *JMOP* ..cyflawn., *L* ..ydoedd 15 *DQ* da n cael pob daioni cyd, *F* da ini gael daioni gyd, *JK* ..cael ordain., *AEGU* ..ordain kyd, *TX* ..pob daioni cyd, *I* ..ai kyd, *JKNOPRSV* ..or cyd, *M* ..or byd 16 *U* day rif pob adar., *G* da i rhif., *CHIKP* ..rif.. 17 *DFQTX* [17–18], *GJ* addaf.. 18 *EILY* arwydd., *U* ar wydd., *G* ..twf arwydd.. 19 *DFQTX* dwys fraint i., *P* ..ar bradwys fro 20 *DFQTX* i rhann ni bu., *U* by ran naby yn hir., *AG* be i rhon., *BHNOSV* ba rhon., *I* pe rhon., *M* parai., *P* be ron., *L* be rhoen., *O* ..na bo., *V* ..ni bv., *G* ..yn hir.. 21 *H* [...], *DFQTX* fo yrai gwaith Efa., *U* trahays y fyr gwaith., *J* ..gwaith lle troes y gwr, *I* ..tros., *C* ..troes ef ar gwr, *R* ..tros Eva ir gwr 22 *C* ag at wlyys., *E* ..tywllwr, *LUY* ..tywllwr 23 *U* troi Duw nerth yll day dan vn, *L* dwyn., *KPV* ..oerni arnyn, *IL* ..tan.. 25 *I* torri fal trwy., *UW* tori., *C* ..glos., *DFQRT* ..ofal.. 26 *J* ..sytt., *C* ..wrth fodd., *R* ..foedd.. 27 *DFKQTX* ..rhoi dann., *HNP* ..roi..rod, *C* ..tan., *S* ..dan rhod 28 *G* ..vnder.. 29 *DFQTX* ..awr., *HN* ..ai a., *U* ..hir y bryderwn 30 *U* bwriad tost ystyr brad hwn, *V* brvd., *HN* ..fy r tost., *AGKS* ..dost., *M* ..tost y., *A-TV-Y* ..bradfyd 31 *LY* [31–6], *BDKQ* Efa ddivg., *U* ..yddyg hil., *T* ..o fodd.. 32 *U* amroi afal marfoleth, *W* ymroi afal yw., *E* i mroi., *O* ..fal i marfolaeth, *N* ..farwolaeth 33 *M* ..obrydd., *U* ..o brydd.. 34 *C* ai tro yn bridd., *HMNORSU* ..brvdd., *I* ..at vn.. 35 *DFQT* ystryw oer boen., *J* ystryied., *K* ystyrir., *M* ysydrer., *U* ystury.. 36 *R* vn dyn.. 37 *BELMOVW* ..Adda., *CM* ..ddydd., *GPU* ..y dydd., *FMU* ..y fu 38 *LM* o doir., *DX* ..weithion., *M* ..yw drevthv 39 *FHLMPU* ..diried., *Q* ..diriad., *M* ..oedd davarol 40 *T* ..or nef., *M* ..nef fry awn ar.. 41 *HN* ..rac., *J* ..rhag rhann.. 42 *F* i henwau yn llwyr., *U* enwir lly or vn ar llall, *DQTX* ..llyfr., *W* ..llin., *G* ..o hyn., *M* ..or llall 43 *BO* dwyn forwyn., *U* ..forwy odiw fariath, *FQ* ..ydiw farieth, *SW* ..ydyw fariath, *JO* ..ydoedd.. 44 *AJKOVW* dal y mae gof., *BHLNY* del ym gof., *C* dal yma a gaf., *DQ* deil., *F* dal ym go., *G* dal yn mae gof., *M* fal i may gof., *P* dal yma ogof., *RSTX* dal., *K* ..cof., *LY* ..am dalm., *V* ..or gwaith 45 *R* Efa., *J* ..efa ferch., *K* ..o ferch., *X* ..annwyn.. 46 *AK* briw., *DFQT* ai briw., *U* y briw.. ynhebryngodd 47 *DQ* ag oi hafal., *F* ag oi hafael., *L* i ni oi hafal., *M* mig or afal., *R* vnig o fal.. 48 *A-HJ-TV-Y* fv warchae., *U* efarche hil.. 49 *H* [...], *U* merch efa., *K* ..oi chynydd 50 *U* ..yn rhoes., *R* ..ai rhoes., *DKTVW* ..on (> or *D*), *F* ..on meirw., *H* ..rydd 51 *U* deg glain nod goleini, *S* dwg., *J* ..lin nod., *K* ..glain.. 52 *T* ar i fodd hael., *U* ac arwydd hayl., *DFQ* ..hael (> haul *DQ*), *J*

..ar hael., *N* ..hawl., *R* ..yw hi 53 *LY* + *i*, *F* ag *i* hono *i* ganed, *L* brenin fu
 briw oi fodd, *M* ..bron., *U* ..bry aned 54 *N* braw., *P* brav y nydd. (> ar
 bren), *M* ..kroes brynodd., *U* ..y brynoedd., *L* ..a brynodd 55
CDEJOQSUX ..lleir roeddynt, *P* ..lleir oeddyn 56 *U* y las y gorff hael., *P*
 ..holl Jessv gwyn 57 *U* troi amgylch., *A-HJKM-X* ..trwy annog oedd 58
ACK troi., *C* ..yr deutu., *DQT* ..deutu traed., *F* ..deudu traed., *HN*
 ..devdv., *CFHNR* ..ydoedd 59 *U* kwrs helaeth kroes a hoylon,
ABDGHJKMNOQSTVX gwrs., *E* gwrs., *Q* ..helaeth iw groeshoelion, *DFT*
 ..i groes hoelion, *HJKM-PSVW* ..gwrs o hoilion, *L* ..y groes a hoel[], *AG* ..y
 groes hoelion, *Y* ..y groes.. 60 *P* ..fry r gwayw., *UVW* ..y gwayw., *F*
 ..gwauw n fron, *J* ..gwanv i fron, *DRX* ..y fron 61 *DEPQ* rhoi ddwyllaw.,
HN roi ddwy n vn ryw., *J* rhoi ddwylo vnrihw., *U* rhoddi y ddwylo., *KLY*
 rhoi ddwylo r unrhyw., *CW* ..mewn rhyw ddolur 62 *U* rhediad y gwaed ar
 hyd y dyr, *HN* rediad o waed ryd i dvr, *R* rhedeg., *EJM* ..i waed., *LY* ..o
 waed., *C* ..waed rhydd.. 63 *MRW* llyma., *N* ..llawn o rybydd,
ABDEFHJKMOPQSTVWY ..rybydd 64 *D* ..dduw rhoi., *M* ..rhoi adda., *H*
 ..rydd 65 *U* ..trwm vn tro, *HMN* ..fvr tro 67 *BFW* gwaredd., *Y* ..hardd drwy
 r gwir rad, *F* ..trwy gwryd., *T* ..drwy gwryd., *EHN* ..gwrid., *L* ..gwir rad
 68 *L* ..gyrhaeddiad, *Y* ..gyrheddw (> gyrheddad) 69 *HN* y drwc weithred
 drwy r kythrel, *J* drygweithred a drwy gythrel, *MO* drwg weithred., *G* ..i
 weithred., *DFQTX* ..rhyw gythrel, *R* ..chythrel 70 *A* dann i gnwck mae., *G*
 dan i gnwck., *Q* ..guwch., *MW* ..gnwk mae r., *N* ..gnwc gwae r dyn.. 71 *R*
 [71–2], *DFQ* da oedd droi., *T* da oedd i droi., *U* da ydoedd droi rag y
 dydd., *X* da i droi., *HN* ..rac y dydd., *G* ..y dydd.. 72 *JY* ..wylo dwr., *F* ..or
 olwg 73 *Y* ..i dref yn.. 74 *U* os Duw ay ras., *W* os dw., *DFQTX* ..ir
 iawn., *L* ..ei ras., *P* ..o rodd 75 *F* ymendiad., *M* ymendid., *W* ..rag
 mynd., *U* ..myned., *KLT* ..ir daith, *P* ..i daith 76 *L* fel., *U* mel Saowl., *HN*
 ..rac.. 77 *LY* [77–80], *H* [...], *BJKVW* ..fal duw., *S* ..mab., *U* ..mel Duw..
 78 *O* gyda ddialedd., *T* ..ddaliedd.. 79 *J* awn imgwynfan., *U* awn y gwyn
 faen., *HN* awn gwynfan., *P* ..fab gwinfaeth, *C* ..gwywfaeth, *FJOU*
 ..gwynfaeth, *V* ..gwiwfaeth, *W* ..gwenfaeth 80 *FKM* ..llyn., *T* ..caeth 82 *U* o
 down ni at hwn an tre tad, *O* doir., *FGTV* ..i du r tad, *J* ..i dir tad, *R* ..i dre
 tad, *EP* ..yw dre tad 83 *J* mawr ddawn a wnaeth., *K* marw a wnaeth., *M*
 mawr yw., *O* mawr iawn a wnaeth., *U* mawr ywnaeth y mowr.. 84
CDFJOQSTXY y mae., *U* amedde yn oll ywneler, *E* ..yn i ol., *F* ..am y
 wneler, *DLQTX* ..am a wneler 85 *LY* [85–90], *HN* ..y byd., *M* ..y bydd..
 86 *P* a ched., *H* ..rwng., *U* ..gwn.. 87 *P* 88–87, *DFQ* y gwirion.,
AGKMOPSVW da yw gwirion., *J* da yw r gwirion., *B* da w gwirion.,
HNRTUX daw gwirion., *CE* duw gwirion.. 88 *V* ..sant., *C* ..roi yr sel, *MPQ*
 ..roi r sel 89 *M* ag ir bowyd a brynodd, *AG* ..anwir., *R* ..grynnodd, *U* ..y
 grynnodd 90 *M* elon fyth yn iawn fodd, *U* oy geni fyth angen., *R* ..gyno
 fyth., *HN* ..fydd.. 91 *AG* ..tranck rhag henwi r tro, *H* ..rac.. 92 *PS* vn dw.,
DQ vn duw ing., *X* duw ing., *T* ..ing., *U* ..yn diango

Trefn y llinellau

YL 1–30, [31–6], 37–54, + i, 55–76, [77–80], 81–84, [85–90], 91–2.

i

brenhin *oi* bron *an* prynodd
 ar mab rhad ar tad *a* oedd
 dyn o knawd dan i gnwdoedd
 a duw or nef diav dawn oedd
 a rhodd i gorff mewn aberth
 er dyn *eyn* ni fynav werth

Pennawd

C Cowydd i dduw yr Tad ag ir mab yn dangos fod pob peth tann ordain
 Adda ag Efa yr hon a dwyllwyd a bod dau Adda a dwy Efa ag mai yr Iessu
 an prynawdd o waith Raff ap Robert, *M* Ko yn koffav dechrevad y byd a
 marfolaeth krist.

Awduraeth

FI Dienw (ond collwyd diwedd y cywydd), *QU* Dienw, *DE* Ralph ap
 Conwy.

Cywydd merch

- 4 Gwen dirion, gannaid araf,
 Goleuder haul gwlad yr haf,
 Dy loyw sir, deliais orig
 Ar dy bryd, euraid ei brig.
 Llawnd daioni llun d'wyneb
 A'r lliw'n wyn er allo neb.
 8 Dwybleth yt, dibylwaith aur,
 Dy wallt mwyn yw'r dellt manaur.
 Gwynlliw'r ôd, gwen, lle'r ydwyd,
 Gwŷr, llu'r iaith, a gâr lle'r wyd.
- 12 Oes, yr wyl, fain, siriol ferch,
 Neb un dyn ni bo'n d'annerch?
 Gad i fil dy gydfoli,
 Gad i'th oes d'air gyda thi,
 A'th air â 'mhell â therm hir
 16 Os dy einioes a 'stynnir.
- 20 Mau ddal swydd, meddwl a sôn
 Amdanad ym myw dynion.
 Campus, fun weddus fain, wyd,
 Cyfoedion, a'm cof ydwyd.
- 24 Myn dadl, yma,—on'd odieth?—
 Y mae hap yt ym mhob peth.
 Doniog wyd a dienwir,
 Doeth yw, gwen, dy iaith a gwir.
 Dawn a wybydd dy 'nabod,
 Dyn ir glân, dienwir glod.
- 28 Od ai i roi naid, dy roi 'n ôl,
 Ryw ddyn addwyn rinweddol,
 O daw adyn a doedyd,
 Mugeiliwr haul, maglwr hud,
 Oeda'r drel, aed ar ei dro,
 32 Y lliw eiddot a'i lladdo.

Ynyl d'ael yn ôl d'olwg;
Ni thry draw heb wneuthur drwg.

36 Da fu i'r sir dyfu'r sirian,
Dy radd o liw, deurudd lân.
Dwyn deufodd fal dyn difwyn
Yr ydwyf fi er dy fwyn:
40 Weithiau gorwedd o'th gariad
Ac weithiau'n rhoi gwaith yn rhad.
Canu gwawd yt, cyngyd oedd,
Coel naid, o'm calon ydoedd.
Dy feingorff ydyw f'angerdd;
44 Dêl ym o'i gael dâl am gerdd.

Gŵr â chur a garcherid,
Gwan wyf, yn llawn gwynfan llid
Yn aros twyll neu ras teg
48 Ar un dydd o ran deuddeg.
Gair a geidw gŵr o gadwyn,
Gair a'i cyll, euog yw'r cwyn.
Felly'r wyf, fy lloer ifanc,
52 O'r faner hon ar fy nhranc
Heb wybod awr ba obaith
A ddêl i mi, eddyl maith.
Ni chysgaf—yn iach, osgedd!—
56 Nes dy farn un nos hyd fedd.
Ni chaf ŵyl, un uwch f'aelwyd,
Fal oeswr fyth flas ar fwyd.
Ef a wnaeth gwen, ofn na'th gaf,
60 Faith wayw oernych fyth arnaf.
Doe heb air 'e'm diburwyd
D'erlyn, wen, diweirlan wyd.
Dyro, wen, byth d'air yn bêr;
64 Nid gair ond a gywirer.
Dyrd i roi i'th fardd, d'ardreth fo,
Dy gusan am dy geisio.
Lle'r oerais yn llwyr erod
68 Llwm yw'r ais yn llamu'r ôd.
Dêl ym, ferch, dâl am a fu,
Difai ddyn,—dy feddiannu.

Ffynonellau

A—J 140 [= RWM 15], 420–3 B—LIGC 2030B [= Panton 64], 89–92 C—BL Add 14902, 15^{r-v} D—BL Add 31060, 196^v–197^v

Ffynonellau eraill

E—BL Add 14991, 262^r F—BL Add 31073, 137^r–139^v

Amrywiadau

1 *A* y fyn ganaid araf a gwynaf, *D* ..ganiaid.. 2 *A* a blode'r haul gwlad.. 3 *A* dy li sir.., *B* ..dy lais orig 4 *D* ..evrad.. 6 *C* ..er a.. 7 *A* ..dwblwaith aur, *C* ..dyblwail aur, *D* ..dybylwaith.. 8 *C* ..dell.., *D* ..yw dellt.. 10 *B* ..llvr faith.., *D* ..llvr riaith.. 12 *D* vn dyn na.. 16 *A* ..einoes.., *D* ..enioes.. 17 *B* mae dal.., *C* mae ddal.. 21 *A* am yn dadl.., *B* ..yma yn odieth, *C* ..yma yn dodieth, *D* myn adel yma yn odieth 22 *D* mae.. 24 *D* doeth y gwen.., *C* ..da iaith.. 25 *C* ..wybydd ydynabod 27 *A* o dai roi naid.., *A*–*D*dyro yn ol 28 *BD* rruw ddyn.., *AC* ..rhinweddol 29 *B* ..y dyn.., *C* ..a dyn.., *D* ..dyn.., *BC* ..a dywedyd 31 *B* o daw drel.., *D* oda r drel.. 33 *B* ymil d ael.., *D* y gnyl dael yn dolwg 34 *D* ..wnethvr.. 35 *A*–*D* da fu r sir.., *A* ..dyfu sirian 36 *BCD* dwyradd.. 37 *D* ..dy fodd.. 39 *D* weithay.. 40 *D* ag weithay.., *C* ..yn roi..yn rad 41 *D* ..gnawd.. 42 *BCD* kol naid.., *C* ..oedd 44 *A* del ym gael.., *BD* del oi gael.., *A* ..am i gerdd 46 *C* ..allyd 48 *C* ..ddevddec 50 *B* ..a kyll.. 51 *B* ..wyfi lloer.. 52 *B* ar faner.. 53 *A* ..pa obaith 54 *AB* ..eiddil maith, *C* ..y meddwl maith 56 *B* ..farn nos.. 59 *B* ..nath ga 60 *A* y mi eiriach fy maraf, *C* imi eiriach ym araf, *B* ..fyth arna 61 *AC* 65–6, 61–4 62 *D* derbyn.. 63 *C* ..yn ben 65 *BD* dyr d i roi fyth.., *A* tyr d i roi th fardd.. 67 *B* llei roerais.., *C* lle oerais.. 68 *C* llym..

Ateb i Siôn Tudur

O bu'r dydd i brydyddion,
 F'aeth heibio'r swydd fyth heb sôn.
 Siôn Tudur, ffraeth awydd ffrîw,
 4 Clywch ddadwrdd, clochydd ydyw.
 Digon a'i gŵyr, da gwna gerdd,
 Os da brig ysto' breugerdd.
 Ni chaid arian am ganu,
 8 Nid oedd fodd, annedwydd fu.
 Penawduriaeth, pwy'n dirwyn
 Piser a dŵr syber swyn?
 Pa well rhwng y pwll a'r rhiw
 12 Bod swydd y byd sy heddiw?
 Drwg yw'r amser i glerwr,
 Di-flawd yw am daflu dŵr.

Gwall naid, nid gwell o nodwydd,
 16 Naid Siôn er newid ei swydd.
 Canai ennyd cyn Ionawr,
 Câns yw i'n mysg, cansiwn mawr.
 Allan y bu'n llunio bedd
 20 I roi hwlyn i'r heledd.
 A diwrnod y daw arnoch,
 Ysgipio claim, ysgub cloch,
 Dwl yw ei sôn, duwiol swydd,
 24 Dyn ni fedr ond ynfydrwydd.
 Fo ŵyr gant o frugeintiach
 A braidd y gŵyr briddo gwrach.
 Yfed yngod, fyd angall,
 28 Ffustio'r llyn o'r ffest i'r llall.
 Rhoi yno bydd rhan o'i bwys,
 Mwy no'i ogyd mewn eglwys.
 Yn ôl y ffest, anial ffair,
 32 I'r rhyw ddyn y rhydd anair.

Cablu tir, cwbl oed dyrys,
 A baslart Rhobart fab Rhys,—

36 Pencerdd di-fost ar osteg
 A gloyn Duw, a gâi'i le'n deg.
 Bryn mawrwallt a brain meirwon,
 Crwydrus yw, os credir Siôn.
 Trumen ydyw'r tir yma,
 40 Tarren dost heb un tirynd da.
 Tenant heb feddiant ar fwyd,
 Tŷ Gwyn, a phlant ag annwyd.
 Tynnodd y mwg, tanwydd Môn,
 44 Tywyrch a glaead duon.
 Hawdd yw canfod y frodir
 A bwrw ei gân heb air gwir.
 Bo'r tir i Robert ei hun,
 48 O bris, deutu i Brestatyn.
 Bron araul os braenerir,
 Braenar teg breiniwr y tir.
 Llyna fron iach llawn o frig,
 52 Ffrwyth arddadwy, ffrith urddedig.
 Gwyran o'i dir, gwair naw dôl
 Draw, a gwenith drwy'i ganol.
 Rhad o'i dir, rhydid a oedd,
 56 Felly dair o filltiroedd.

Trannoeth, er troi o anwir
 Ogan i'r Tŷ Gwyn a'r tir,
 Gefn nos Iau gofynnai Siôn
 60 Iddo'r henwydd a'r rhynion.
 Fo lanwyd o'r Fêl Ynys
 Croth yr wydd i'r crythor Rhys.
 Yr oedd ytir o'r ddeutu;
 64 Arwydd o fewn yr wydd fu.
 Gŵr fu Rys a gerfiai'r wydd
 Gan ystryw a gonestrwydd
 (Gwledd fawr i arglwydd, a'i fod)
 68 Pe am geisio pum gosod.

Gwnaed roi am ei gân o dreth
 Iawn i Robert neu rywbeth.
 Os gwisg yn wysg ei ysgwydd
 72 Arf Rys ei hun ar fawr swydd,
 Caned â'i drec ei hunan,
 Clolied fry, clul dwy frân.

76 Mae'i law ar gord mal ar gŵyr,
 Llun Siôn, yn llawn o synnwyr.
 Tost yw'n rhwysg, testun a'i rhydd,
 Farw glewchwyrn fry'n glochydd.
 80 Chwyddodd ferched clochyddion;
 Bid ar sâl bedair i Siôn.

Ffynonellau

A—Card 1.2 [= RWM 12], 76–9 B—Bangor 5945, 219–21 C—BL Add 31099, 250^r–257^v

Ffynhonnell brint

GST cerdd 139

Amrywiadau

2 C ..Sion 3 B ..arwydd.. 4 C ..ddadwr.. 5 B ..gwnae.. 11 BC ..a rhiw 12 B ..heidiw 15 C 16–15 18 AC konis yw.., B canis iw.., AB ..kainswn.., C ..cainsiwn.. 20 ABC ..or heledd 23 ABC ..sion.. 34 B ..fel Rhys 36 A ai glovn.., ABC ..ag ai le n deg 39 B ..tri.. 43 C tynodd rhwng tanwydd.. 46 C a bwrw gau.. 50 AC ..breniwr.., B ..brenin.. 53 C gwyrain.. 62 B broth.. 74 B cloliad..

Englynion y Deg Gorchymyn

- 4 Moesen, yr hen wŷr hynod,—a fynnodd
O fynwes y Drindod
Dengair a roes Duw yngod,
Deddf, i roi'n glir Dyddfarn glod.
- 8 Un rhyw, gair ydyw a gredaf,—mae gwir,
Im garu Duw'n bennaf;
Addoli 'Nuw a ddylaf
A henwi gwyrth hwnnw gaf.
- 12 Ail, cywair yw'r gair i'r gwirion,—a'i radd
A roddes Duw gyfion,
Na thyngo lle syrthio sôn
Mewn oed i ddim o 'nudon.
- 16 A'r trydydd gair deddf, toriadau—gwirDad
Ar gordio llythrennau,
Rhoi'n ei rôl i'r hŷn a'r iau,
Braich aur sêl, berchi'r Suliau.
- 20 Pedwerydd cynnydd medd cennad—ddifai
A ddyfod y gwirDad
Fydd gair o ufudd gariad
Ym myw dyn i'w fam a'i dad.
- 24 Pumed gair a bair o buriaith,—Duw Iôn,
Ordeiniwr y gyfraith,
Na laddont, anial oddaith,
Gelain o gyd, gŵyl na gwaith.
- 28 Y chweched, caled rhag gelyn—yw'r modd
Medd y gŵr a'i hedwyn,
Mae'n rhaid yma yn rhydynn
Ateb am odineb dyn.
- Rhag ffrom uffern drom, ffwrn dramawr—dorboeth
Yn derbyn carcharawr,

32 Rhyw'r seithfed, rhyw air sythfawr,
Rhoi'r brad a'r lledrad i'r llawr.

36 Wythfed, mogeled, y magolaeth—cam,
Cymell anllyfodraeth
O ddwyn ar ffrwst, ddyn oer ffraeth,
Is dwylan gam dystiolaeth.

40 Nawed, na fynned yn ei faenol—ferch
Wrth fawrchwant corfforol;
Os myn neb, iso mae 'n ôl,
Daw'n brid, ond iawn briodol.

44 Degfed doded, da ydoedd—ran y gwir
A'r un gŵr a'i rhannoedd,
Dinam air rhag dwyn ym oedd
Na da eraill na'i diroedd.

Ffynonellau

A—BL Add 31058, 60^r–61^r B—Card 2.114 [= RWM 7], 412 (llau. 1–16)
C—Card 4.10 [= RWM 84], 933 D—Pen 111, 279–81

Amrywiadau

1 *A* at foesen..ai faen 3 *A* deg gair.., *D* ..roe.. 5 *C* un riw.. 8 *AC* ..hwn.., *A*–*D* ..a gaf 9 *A* ..o rodd, *C* ..oi radd 10 *C* ..cyfion 12 *AC* ..ddim anudon 13 *A* y trydedd.., *BD* ..gair toriadav.., *A* y..y gwir dad 14 *C* ..gardio.. 15 *A* roi ini rol yr hyn orau, *C* roi n yr ol.., *D* rrai n i rrol.., *B* ..i rhol.. 19 *A* ..o fudd.. 20 *C* [20], *D* ..yw mam.., *A* ..yw i fam.. 21 *A* ..duw ner, *C* ..Duw wr 22 *A* ordeniwr.. 23 *ACD* na laddon.. 25 *ACD* chweched.., *A* ..i wr mau 27 *C* mewn rhaid.., *A* ..yn y rhedyn 31 *AC* iwr.., *C* ..run air.. 32 *A* rhoi brad alladrad.. 33 *C* ..ymagoliaeth cam 35 *A* ddwyn.. 39 *A* os myn neb is mae yn ol, *C* os myn n[] isu mewn ol 40 *A* dawn brid ond yn briodol, *C* dawn [] 41 *C* [], *AD* ..ran gwir 42 *C* [], *A* o vn gwr ir hanoedd 43 *C* ..rhag dilyn..

Awduraeth

B Dienw (ond collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys diwedd y gyfres).

Englynion ar amryfal bynciau

12

Duw byw, Duw eilfyw, diwaelFair—a'i dug,
Diogan fu'r cellwair;
Duw byw ni roes, da, 'i bowair
4 Ond i'w fab aned o Fair.

Ffynonellau

A—LIGC 719B, 4 B—LIGC 3039B [= Mos 131], 226 C—LIGC 21248D,
189^v

Amrywiadau

2 *AB* ond oedd deg y kellwair 3 *BC* ..dav bowair 4 *C* ..i fab., *AB* ..a aned..

Awduraeth

AB Dienw.

13

Gwryd Crist ennyd, croestynnu—'r ddeufraich,
A'r ddwyfron eu gwaedu;
Grasusol oedd groes Iesu;
4 Erfyn ei help ar fy nhu.

Ffynhonnell

LIGC 278B, 208

Darlleniad

3 ..gres..

14

Duw Dad o gariad a gyrrydd—ei ran
 I'r einioes tragywydd;
 Duw, wedi, 'r wyl, Dad, a rydd,
 4 Dyn a garai dan gerydd.

Ffynonellau

A—BL Add 14984, 55^r B—BL Add 14984, 55^v C—BL Add 14984, 347^v

Amrywiadau

3 *ABC* ..gwedi.. 4 *A* [4], *C* y dyn..

Awduraeth

A Dienw (collwyd y diwedd).

15

Efa, gwawr Adda, a geryddwyd—gynt,
 Ac yntau nis parchwyd;
 4 Gwrach eulun goruwch aelwyd,
 Gwraig Lot aeth yn garreg lwyd.

Ffynonellau

A—BL Add 14984, 32^r B—LIGC 10248B, 55 C—Pen 313, 240

Amrywiadau

2 *A* ..ni ffarchwyd 4 *A* ..a aeth..

Awduraeth

B Dienw.

16

Darpar yw'r ddaear i'r ddwyen,—poen brudd
 Pan bridder ei dalcen;
 4 Daear ydyw, da'r adwen,
 Daear sy i bawb dros ei ben.

Ffynonellau

A—BL Add 14984, 26^v B—L1st 36, 90 C—LIGC 356B, 32

Amrywiadau

1 *AC* ..i ddwyen.., *B* ..irddwen.. 3 *B* ..ydwy..

17

Dod fwyd a diod, pâr dŷ—a dillad,
 Diwalla'r carchardy;
 Gwylia'r cla' yn y gwely,
 I'r marw pâr gael daear dŷ.

4

Ffynonellau

A—Bangor 1268, 41^v B—BL Add 14874 [= RWM 51], 288^v C—BL Add 14879 [= RWM 38], 163^r D—BL Add 14984, 27^v E—BL Add 14990, 40^v a 41^v F—BL Add 14994, 147^v G—Card 2.4 [= RWM 11], 44 H—Card 4.10 [= RWM 84], 939 I—J 138 [= RWM 16], 64^v J—Llst 49, 130 K—Llst 145, 160 L—Llst 167, 161 M—Llst 167, 190 N—LIGC 3039B [= Mos 131], 411 O—LIGC 253A, 425 P—LIGC 356B, 33 Q—LIGC 873B [= Wrecsam 2], 27 R—LIGC 9166B, 306 S—LIGC 11087B, 118^r T—LIGC 11990A, 191 U—LIGC 13079B, 61^v V—Pen 65, 350 W—Pen 88, 25 X—Pen 184, 115 Y—Pen 243, 49 Z—Pen 245, 318

Ffynhonnell brint

A—*Ynglynon ar y Pader*, 8.

Amrywiadau

1 *G* dod fwyd dod tod dy dod tillad, *X* ..pair., *IS* ..dod dv., *Z* ..neu du.. 2 *L* ddiwalla r., *QR* diwalla garychardy 3 *C* ymwel ar kla yn., *R* ymwel ar klaf yw weluy, *T* ymwel ar cla yn i wely, *P* a gwilia gla mewn gwelu, *W* gwilia dyn kla., *X* gwilia claf ar y gwely, *U* a..mywn gwely, *A* ..yn i welu 4 *DGSYA* os marw., *K* ar marw., *P* ..marw par ddauar ddu, *X* ..pair., *G* ..par mewn., *R* ..par roi., *T* ..par dauar., *Z* ..ddauar ddu

Pennawd

H the 7 Corpall workes of piety by Raphe ap Robt, *I* Engl : Saith weithred y drvgaredd, *K* Englyn y saith Weithred o Drugaredd, *L* Saith weith[] y drigare[], *N* y Saith Weithred drvgaredd, *P* Am Eluseni, *S* Englyn yn cynwys y 7 wethred o drugaredd, *Y* Gweithredoedd o drugaredd.

Awduraeth

A—*GI-XZ* Dienw, *H* Raphe ap Robt, *Y* Wm Llŷn.

18

Chwynnwn, darparwn droi'r puryd—i mewn
 O mynnwn gael iechyd;
 Os chwynnu sy iach ennyd
 Chwynned Duw bwys chwant y byd!

4

*Ffynonellau*A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 35^v*Pennawd**A rhac trachwantav bydol.*

19

O'r byd i'r gweryd er ei gwrel—a'i aur,
 A'i arian a'i gatel,
 Pe llechai pwy all ochel?
 Na balch na difalch nad êl.

4

*Ffynonellau*A—BL Add 14892, 51^v B—BL Add 14990, 44^v C—Bangor 92, 29^v D—Bangor 1268, 42^r E—Card 2.5 [= RWM 11], 72 F—CM 5, 508 G—Gwyn 5, iv H—J 138 [= RWM 16], 104^v I—Llst 170, 186 J—LIGC 3039B [= Mos 131], 694 K—LIGC 95B, 45 L—LIGC 253A, 182 M—LIGC 16B, 266 N—LIGC 5273D, 17^v O—LIGC 10249B, 242 P—Pen 184, 1 Q—Pen 184, 116 R—Llst 15, 82 S—LIGC 1238B, 235 T—Card 3.68, 84*^Amrywiadau*

1 *Q* ..gwryd.., *S* ..gwerud ai gwrel.., *ABCN* ..gwarel avr, *T* ..gwural aur, *M* ..er gwrel nag.. 2 *C* er ei.., *O* o arian.., *FGOR* ..fowredd, *K* ..gaffel, *M* nag arian na chattel 3 *CNT* pei.., *H* ple i llechwn.., *I* pe llechwn.., *J* pa le i llechwn.., *KM* pellechau.., *Q* pei lloche.., *N* ni chaiff lechv []el, *FGOR/D* ni chaiff lechu na gochel/na choel, *S* pa llechwn.. 4 *DFG* balch.., *I* ..lle i del

Pennawd

H E : dwiol, *M* 16 o Englynion deddfol ar amriw destynoedd, *S* Iolo Goch (yr englyn hwn a dau sy'n dilyn, er nad yw'n amlwg eu bod yn rhan o gyfres).

Olnod

HJ Raph ap Robert ar i ola wely (ei gla wely *J*) pan barodd Sion Salbri o Rvg iddo llechv ai kant.

Awduraeth

A—DFGIL—RT Dienw.

20

Englynion a wnaeth Raff ar ei glaf wely y dydd cyn ei farw

4 Dyro ran i'r gwan o'r cinio—twymyn
 Neu o'r tamaid fytho,
 Rhag na bwy' 'n tramwy un tro
 I'm tŷ annedd ond heno.

8 Ni wn o'r byd hwn i ble tynnaf—i ffwrdd,
 Na pha ffordd a gerddaf,
 Na pha wlad rad a rodiaf,
 Nac i ble rhag 'r ange 'r af.

12 O'r ddaear gynnar y'm ganed—yn noeth
 I wneuthur fy nhynged,
 Ac i'r ddaear glaeaf gled
 I'r un man yr wy' 'n myned.

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 40 B—J 138 [= RWM 16], 10^{r-v} C—BL Add 14974, 114^v (llau. 1-4) D—BL Add 14984, 28^v (llau. 1-4) E—BL Add 14987, 37^v (llau. 1-4) F—BL Add 14990, 41^r (llau. 1-4) G—Card 4.10 [= RWM 84], 939 (llau. 1-4) H—LIGC 16B, 267 (llau. 1-4) I—LIGC 253A, 425 (llau. 1-4) J—LIGC 21700D, 264^v (llau. 1-4) K—BL Add 14974, 81^v (llau. 5-8) L—Card 2.202 [= RWM 66], 370e (llau. 5-8) M—Card 4.10 [= RWM 84], 1222 (llau. 5-8) N—LIGC Mân Adnau 56B [= Abertawe 2], 365 (llau. 5-8) O—CM 552, 405 (llau. 5-8) P—LIGC 436B, 109^f (llau. 5-8) Q—Lst 165, 140 (llau. 5-8) R—LIGC 21700D, 262^v (llau. 9-12) S—J 88 [= RWM 18], 53 (llau. 9-12)

Amrywiadau

1 CDEJ dod., H rho., I rhodda..ginio., G dod di ran., F ..o ginio., DG ..kynnio.. 2 CGH ner., F er tamaid., J or tamaid., A-J ..a fytho 3 E rhag ofn na fych dreiglwuch dro, IJ rhag ofn na bwy., FH ..tramwy tro, A ..yn tramwy (>mwy tremyn).. 4 A ym (>mewn).., B yn tv., E mewn.. 5 KM nis gwn., Q ..o ble., ABOQ ..i tynna.. 6 GP ..y gerddaf, K ..a geisiaf 7 OP ..rhad y rhodiaf 8 K-N na phle rhag., OPQ na phle gan yr ange., AB ..rac r anghef.. 9 R o ddayar.. 10 R i wnythd.. 12 A yn y mann (>ir vn)..

Pennawd

A Englynion a wnaeth Raph ap Robert ar i gla wely y dydd kynn i varw, F Gwr ar ei glav wely, O-Q Englynion i'r Angau, S The begining and end of mankinde.

Awduraeth

CE–JR Dienw, *ML* Gwenhwyfar ferch Hywel Gruffudd, *K* Gwerful ferch Huw ap Gruffudd, *N* Gwerful Mechain, *O–Q* Hywel ap Syr Mathau, *S* Gruffudd Ieuan.

21

Duw a'i gwyddiad dig oeddwn—o rywbeth,
 A'r aberth nis gwelwn;
 Gwell oedd ras i bob nasiwn
 Na bod diawl yn y byd hwn.

4

Ffynonellau

A—Card 2.68 [= RWM 19], 465 B—Card 5.10i [= RWM 48], 206 C—Gwyn 19, 98 D—Pen 195, 18^v

Amrywiadau

1 *ABD* o duw gwyddiad., *AD* ..o Rywbeth 3 *C* gwell bod gras.. 4 *D* ..dawl..

Pennawd

C Englyn ar ôl Digllonedd

22

Pymthecant, meddant, yw'r moddau—i gyd
 Gyda phump o ddegau;
 Dyna rym oed Duw Nêr mau
Roddi'r allor yn ddrylliau.

4

Ffynhonnell

Card 2.201 [= RWM 63], 279

Darlleniadau

4 od yw r allor..

23

Suddas fradwr yw'r gŵr gâi arian—gwarth
 Er gwerthu'r mab drogan;
 Tithau, mae'r gair yt weithian
 4 Fwrw onot ti Fair yn tân.

Ffynonellau

A—Card 4.10 [= RWM 84], 952 B—CM 25, 176 C—LIGC 3039B [= Mos 131], 769 D—LIGC 253A, 438 E—LIGC 1553A, 357 F—LIGC 20574A, 372 G—Pen 72, 423 H—Pen 206, 112

Amrywiadau

1 *BDEF* ..fradwr gwr., *A-H* ..a gay.. 2 *B* gwerthv r., *H* ..gwerthv mab.. 3 *H* dithav., *A* ..mae gair yt weithan 4 *H* ..o honot ti..

Awduraeth

ABH Dienw.

Olnod

D Raff ap Robt i vn a losgasai ddelw fair, *E* Raff ap Rober am losgi delw fai[], *G* Raff ap Robert i ddyn am losgi delw vair.

24

Mae'r byd ar symud, da gŵyr somi—dyn,
 A Duw oll yn sorri;
 Gwewyr yn ôl i'n gwŷr ni
 4 A'r ddwy ffydd ar ddiffoddi.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 6, 13^v B—Card 2.68 [= RWM 19], 161 C—CM 27, 178

Amrywiadau

1 *AB* ..da j gwyr.. 3 *A* a gwarew yn ol ni gwyr ni, *B* a gware n ol.. 4 *A* ..ddissoddi

Awduraeth

C Dienw.

25

4 Diympryd, a drud ydyw'r ydan,—gwael,
 Di-ddydd-gŵyl, diarian;
 Digyffes, di-les, di-lan,
 Dirawys ydyw 'rŵan.

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 452 B—LIGC 253A, 300

Amrywiadau

1 *A* ..yden..

Awduraeth

B Dienw.

26

4 Oed, cyflym, Crist ym, damwain—diffuglyd,
 Ffaglwyd Powls yn Llundain,
 Mil a hanner rhifer y rhain
 Yn iaith Roeg, un a thrigain.

8 Pedwerydd oed dydd, tueddu—mae haf,
 Fis Mehefin obry,
 Gwiw noswyl Gorff Gwyn Iesu,
 Plas i fellt clochdy Powls fu.

Ffynonellau

A—BL Add 14880, 69^r (llau. 5–8) B—LIGC 253A, 337 C—LIGC 1553A, 387 (llau. 5–8)

Amrywiadau

2 *B* ..llunda[] 5 *A* ..dydd yn ddyweddu haf, *B* ..mae [] 6 *A* o vehefin..

Pennawd

B pan losgodd powls.

Awduraeth

A R ap I, *C* bikar ocking (dyma'r ail o bedwar englyn wrth ei enw).

27

Pob ffrwyth, pob tylwyth, pob teulu,—pob dewr,
 Pob dirwest yn ffaelu;
 Pob merch, pob llannerch, pob llu,
 4 Pob enw maeth, pawb yn methu.

Ffynonellau

A—BL Add 14984, 345^v B—LIGC 3037B [= Mos 129], 4 C—Pen 115, 39
 D—LIGC 253A, 205 E—LIGC 1553A, 268 F—CM 224, 62^v

Amrywiadau

1 C ..pob telu pob dawn 2 ADE ..pallu, C ..a ddarfu 4 ABEF ..math., D
 ..maith..

Awduraeth

ABF Dienw, DE Owain Gwynedd.

28

'Y nghâr, Siôn dirion, dyred—i dyngu,
 A dangos dy golled;
 Difwyn oedd warche'r defed
 4 A'r tir yn y sir yn siêd.

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 858

29

Englynion un a werthasai ei dir

Trist ddyn, wan eulun, yn enylu—i boen,
 A'm byd wedi llaesu,
 Mewn gorffwyll am fyrbwyll fu,
 4 Dyn wyf wedi'i anafu.

Diobaith drwy daith, dra adwythus—wyf
 O ofal trafferthus;
 Gwannach, clafach, mwy clwyfus
 8 Drwy fy ffawd o'm bawd a'm bys.

Cwrs ffôl, eulun ddyn, am ddaioni—a gaffo,
 Drwy goffa Duw Celi,
 Drwy ffoledd, groyw arwedd gri,
 12 Mewn gwall ennyn, ei golli.

Wrth nofio a gwylio'r dŵr golau—'r ci gynt,
 A'r cig yn ei enau,
 Drwy chwant *gormod* a'i nodau,
 16 Gwall oer ddysg, a gollai'r ddau.

Ffynhonnell

BL Add 14892, 79^v

Darlleniadau

12 ..innyn.. 13 ..gwilio dwr gole ki.. 15 ..chwant ai..

Pennawd

Englynion vn a werthase i dir.

Awduraeth

R.R. ai kant.

30

Ni chaiff gwan mo'i ran ar Wener—niwlog,
 Ni welir mo'i fater;
 A rifo swm aur rif sêr
 4 A dry ustus i drawster.

Ffynonellau

A—BL Add 14892, 80^r B—BL Add 14964, 22^v C—BL Add 14964, 188^r
 D—BL Add 14984, 338^v E—BL Add 14990, 28^r F—BL Add 14994, 195^r
 G—J 138 [= RWM 16], 103^r H—LIGC 3039B [= Mos 131], 683

Amrywiadau

1 *BE* ..gwan ran., *C* ..gwan mi ran., *D* o chais gwann i rann., *BCE* ..niwliog
 2 *D* ..i fatter 3 *AF* o., *D* oerfel a swm aur fal ser 4 *D* ..ar..

Pennawd

G Nid y gwann ond avr a gaant i lle.

Awduraeth

BCE–H Edmwnd Prys neu Raff ap Robert.

31

Gwasgared ar lled aur llydain—gyfoeth
 A gaffo ar ddamwain;
 Heued lawer hyd liain,
 4 Hydr yw ei hap, hud yw'r rhain.

Ffynhonnell

BL Add 14984, 60^v

Darlleniad

4 ..hud yw r hain

32

Dy wg ar d'olwg yw'r doler—a'm l/odd
 O'm lluddi un amser;
 D'ael, orau Siân, deuliw'r sêr,
 Duw a wnêl nad enyler.

4

Ffynhonnell

Pen 313, 238

Darlleniadau

1 .. yw r dolur am ladd 2 oni im lluddi yn amser

Pennawd

E : i wc golwc ac ael merch.

33

Cofia, gwen, fargen fawrgall—os mynni
 Ysmonaeth i'w deall:
 I'm câr y bu wraig arall:
 Mair a wŷr ei marw o wall.

4

Ffynonellau

A—LIGC 253A, 313 B—LIGC 1553A, 564

Amrywiadau

2 AB ysmoneth yw..

Awduraeth

A Dienw.

34

Os ymbil gwegil rhyw goegen—o forwyn
 Oferwaith yw'r fargen;
 Os caru gwrach haechen
 4 Aml yw haint ym mol hen.

Ffynhonnell

LIGC 253A, 255

Darlleniadau

1 ..a gwegil.. 4 ..y mol hen

Awduraeth

R : R.

35

Os coleth geneth gonell,—goeg annoeth,
 Gogenid fi'n rhybell;
 Os gwreica hen ysgrocell,
 4 Annedwydd waith, nid oedd well.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 6 B—BL Add 14990, 74^v C—J 138 [= RWM 16], 105^r
 D—LIGC 3037B [= Mos 129], 252 E—LIGC 3039B [= Mos 131], 695
 F—LIGC 253A, 255 G—LIGC 253A, 436 H—LIGC 1553A, 506 I—LIGC
 13118B, 17

Amrywiadau

1 *G* o goleth., *ABF-I* ..ynvyd, *D* ..anian 2 *CE* fom., *I* ..rybell 3 *C* ..a hen.,
E ..o hen.. 4 *D* ..wedd..

Pennawd

AB deuryw o anedwyddwch ar wreicka, *C* Englyn a wnaeth Raph ap Robert
 pan ofynned iddo pam na phriode ef, *E* Raff ap Rrobert ai kant pan ofynned
 iddo pam na pheiriode, *I* Deuryw anedwyddwch Gwreicca.

*Awduraeth**H* R : R, *BDFG* Dienw.

36

Rhowch daith draw unwaith i driniaw—eich byd
 Rhag eich bod yn rhwystraw;
 Rhag cydfod, drwy weddwod draw,
 Gwraig galed, gorau yw ciliaw.

4

Ffynhonnell
 Pen 313, 95

37

Pe cawn eich gwerth, ddyn brydferth, bêr, addwyn,—ddileg,
 Ni ddelwn i'ch gorllwyn,
 Yn fy meddiant, em addwyn,
 Ar grest y palmant o grwyn.

4

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 741 B—LIGC 253A, 252 C—LIGC 1553A,
 439

Amrywiadau

1 *A* pei..beradfwyn., *B* ..brydferth fwyn ddileg, *C* ..bradfwyn.. 2 *ABC*
 oni., *C* ..gorddwyn 3 *B* ..y meddiant..

Awduraeth

B Dienw.

38

Nid af ar d'uchaf, wr di-iechyd—cul,
 A'm cala ni chyfyd;
 Nid âi wannwr ond ennyd
 I wyneb allt yn y byd.

4

Ffynonellau

A—LIGC 253A, 410 B—LIGC 1553A, 468 C—Pen 313, 159

Amrywiadau

3 *AB*..wanwr..

Awduraeth

A Dienw.

39

Pob cal galed sied a 'sodo—gorchwyl,
 Fo gyrchir at honno;
 Nid ennill cal feddaldro
 4 Glod fyth er glewed a fo.

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 734 B—LIGC 253A, 410 C—LIGC 1553A,
 471

Amrywiadau

1 *A* ..kil., *B* ..gorwyl 2 *A* vo a.. 3 *BC* ..feddal fo, *A* ..kil feddildro 4 *BC*
 ..fytho

Awduraeth

B R : R.

40

O bai a drwciai ei drecyn—gwaelaidd,
 A gweled lliw'r ewyn,
 Och! Dduw, on'd oedd wych i ddyrn
 4 Brynu cal o bren celyn?

Ffynonellau

A—LIGC 1553A, 441 B—Pen 313, 215

Amrywiadau

1 *B* pe bai a drwckai.. 3 *A* ..iach.. 4 *B* ..kil..

41

Er addo treulio, modd trylwyn,—o hon
 Ei heinioes yn forwyn,
 Nid hwyrach wrth fasnach fwyn
 4 Cynio gwen cyn y gwanwyn.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 74^r

*Amrywiadau*3 *A* ..fasgnach..*Pennawd**AB* i ferch addowsai gadw morwyndod.*Awduraeth**B* Dienw (ond priodolir yr englyn olaf yn y dilyniant i Ralph ap Robert).

42

Cwman mawrlydan i'm herlodes—sydd,
 Os addef fy nghyffes;
 Cwm hir sydd i'm cymhares,
 Cyllid *heb* na gwrid na gwres.

4

Ffynhonnell

LIGC 21294B [= Iolo Aneurin Williams 8], 14

Darlleniadau

1 ..mawr im erlodes y sydd 4 cyllid eb..na gwried

43

Lladd wÿdd yn rhwydd er hyn,—neu gapwld
 Rhag cipio o fadyn;
 Nid dimeiwerth a berthyn,
 Noeth yw'r dull, i neithior dyn.

4

Ffynhonnell

LIGC 253A, 272

Darlleniadau

1 ..kapwld 3 ..dimowerth..

Pennawd

i forwyn a fyne wrth i ffriodi gyrchv dim o werth o foron.

44

Gwraig a fo'n fforio ffeiriau—drwy bleser,
 Dra blysig ei genau,
 Ni bydd mawr, myn y bedd mau,
 4 Rhan ei gŵr o'r hyn gorau.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 74^r C—Card 2.5 [= RWM 11],
 206 D—LIGC 3039B [= Mos 131], 492-3 E—LIGC 95B, 194-5 F—
 LIGC 253A, 235 G—LIGC 10248B, 56

Amrywiadau

1 *B* ..forio feiriau.. 3 *B* ..yn y bedd..

Pennawd

A afrad ar wragedd, *G* Sertain o englynion i wragedd.

Awduraeth

C-G Dienw, *B* Dienw (ond priodolir yr englyn olaf yn y dilyniant i Ralph ap Robert).

45

Annedwydd beunydd, arbennig—batel,
 Betai dduw Nadolig;
 Ynfyd yw dyn a fo dig,
 4 Ysbort oedd ysbryd diddig.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 74^r

Pennawd

AB i wraig anhoweth.

46

Gwraig a fyn dylun dwylo,—bid oerchwant,
 Bed archai Dduw beidio;
 Gwyl fan i gael a fynno;
 4 Gwae'r llu byth, a'r gwr llei bo.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 74^r C—LIGC 10248B, 55

Amrywiadau

1 *B* ..dilyn., *AB* ..byd oer chwant 4 *C* gwae llv..

Pennawd

A Mor nailltuol meddwl gwraig.

Awduraeth

BC Dienw (priodolir yr englyn olaf yn y dilyniant yn *B* i Ralph ap Robert).

47

Gweniaith llawn a gawn, gowenu—gwefus,
 Ac yfed heb dalu;
 Gwaith edifar oedd garu
 4 Gwrach o Iâl dir, gorchwyl du.

Ffynonellau

A—J 138 [= RWM 16], 76^r B—LIGC 3039B [= Mos 131], 464

Pennawd

AB En : Dychan i wraig o Iâl am i gwenieth ai chwmpnieth heb dalv dim.

48

Doedyd celwydd *r*hwydd, wyneb rhuddion—rhyg,
 A rhegi'r cymdeithion;
 Digon hawdd (a da) gan hon,
 4 Gwraig o Gaer, grogi gwirion.

Ffynhonnell

Pen 313, 220

Darlleniad

1 ..rwydd..

49

Balchder, oer hyder, yr hedion—a'i myn
 Llei bo mwnws ddigon;
 Euraid het ar iad hon,
 4 Eurych êl ar ei chalon.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 2 B—BL Add 14990, 74^r C—Card 2.5 [= RWM 11],
 97 D—Pen 313, 76

Amrywiadau

1 *AB* ..hyder hedion.. 2 *CD* lle..

Pennawd

AB i ferch carl oedd wychach noi gradd.

Awduraeth

C Dienw.

50

Yn annedd drygedd dreigiau—cwyn ymwan
 Cyn nemor o ddyddiau;
 Pen giliais rhag poen golau
 4 Chwithau hwnt aethoch i hau.

Ffynhonnell

LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 602

51

Caden wenfelen dan faelod—gwnsyth,
 O daw gwensi i'th ganfod,
 Cai ar dy ben er cordio bod
 4 Dri donc i dorri deincod.

Ffynonellau

A—Card 2.5 [= RWM 11], 137 B—LIGC 95B, 120 C—LIGC 253A, 374
 D—Pen 313, 199-200

Amrywiadau

1 C ..dyn felen., B ..gwrsy[] 2 C [] daw.. 3 C []jai ar., B ..at dy ben er kortio.. 4 C []i donk..denkod

Pennawd

C []adr i wen felen a ofynodd beth rhag deinkod, D i kadi ei gariadferch.

52

Bachymbyd, borth byd, barth bwydau—gwresog,
 Bur enwog ei breiniau,
 Bo i'r neb a'i medd, mawredd mau,
 Hiroes bumoes heb amau.

4

Ffynhonnell

LIGC 3047C [= Mos 144], 516

Olnod

Raff ap Robert o lan ynvs ai k.

53

Wiliam Llŷn yw'r dyn, ail Deinel—braffwaith
 Neu broffwyd o'r Isrel;
 Gŵr iach yn dwyn gair uchel,
 Gorddwyn aur yw'r gerdd a wnêl.

4

Ffynhonnell

LIGC 1553A, 363

Darlleniad

1 ..deinel braff[]

54

I ddychanu Gruffudd Hiraethog

- Cricied, cyw caened, cacynen,—costrel,
 Cod isel, cidysen,
 Cwd byr ni wŷyr codi'i ben,
 4 Crwm moel ar waith corn malwen.
- Lle bu Dudur bur yn beraidd—radlon
 Ar odlau pencerddiaidd,
 Llanc wyd di, a llun cwd haidd,
 8 Llwynog, Hiraethog, rythaidd.
- Ni thy', naws oerbry, na surbren—diflas,
 Oer dyrras, ar darren
 Byth o hyd, cyd bytho hen,
 12 Na dyn drwg ond ein drogen.
- Anheleth gasbeth a gosbwyd—i'th grys,
 A'th groesi nis medrwyd,
 Un ai nâr o Annwn wyd
 16 Neu swp erthyl nis porthwyd.
- Lle bu Dudur bur i beri—moliant,
 A miloedd i'w berchi,
 Digon oedd, hyd y gwn i,
 20 I gyw'r rugiar ei grogi.
- Torri drwy gyni, draw ganed,—yn wir,
 Un o'r werin anghred,
 Carrai pwrs un cripiwr sied,
 24 Cyw chwil y cewch ei weled.

Ffynonellau

A—BL Add 14892, 79^r (llau. 1-4) B—BL Add 14934, 195^r (llau. 1-4) C—
 BL Add 14994, 194^v (llau. 1-4) D—Card 2.5 [= RWM 11], 71 (llau. 1-4)
 E—LIGC 3039B [= Mos 131], 107 (llau. 1-4), 108 (llau. 9-12), 129-30
 (llau. 5-8, 17-24), 225 (llau. 13-16)

Amrywiadau

1 *AB* krekied.., *C* creakced.., *AC* ..kostrell 3 *E* ..ni all (> wyr) godi.., *C* ..codi
 ben 4 *E* krwm (> krwn).., *D* crwn.., *E* ..ar lvn (> waith).., *A-D* ..ar lvn.. 9 *E*
 ..naws hwyrbryd (> oerbry).. 11 *E* ..kyd i bytho.. 23 *E* ..kriapiwr..

Pennawd

AB Englyn Gr : hiraethog, *E* Englynion dychan i Rvffydd hiraethog.

Awduraeth

D Dienw.

55

4 Ag ystor, begor, *fo* bygwyd—dy raen,
 Dirinwedd y'th wnaethpwyd;
 Â lludw a gwêr, lliidiog wyd,
 A'th faw'r nos y'th farneisiwyd.

Ffynonellau

A—LIGC 1553A, 361 *B*—LIGC 1560C, 575 *C*—Pen 313, 88

Amrywiadau

1 *A* ..pygor y pygwyd., *B* ..begor e bygwyd., *C* ..pegor y pygwyd.. 2 *B* dirinwedd dda ith anwyd 3 *C* ired (> a lludw) a gwer a dig (>llidiog) wyd

Awduraeth

ABC Dienw (ond priodolir ail englyn dychan i Ruffudd Hiraethog yn *A* i Raff ap Robert, gw. cerdd 56 isod).

56

4 Brasffrog brau boliog, byr bawlyd—banel,
 Bonog brwnt lled ynfyd,
 Bowl yw ei gorff, bol i gyd,
 Bwl afradlon, balf rydlyd.

Ffynonellau

A—BL Add 14875 [= RWM 30], 89^v *B*—LIGC 253A, 380 *C*—LIGC 1553A, 361 *D*—LIGC 3039B [= Mos 131], 250

Amrywiadau

2 *D* bannog.. 3 *A* bowlïo ei gorff bol yw..

Pennawd

D dychan i Rvff hiraethoc.

Olnod

BC Raff ap Robt i Rvff : hiraethog.

Awduraeth

A Gruffudd Hiraethog.

57

Caled fydd cybydd yn ceibio—y dom,
 Nid â dim oddi wrtho;
 Caled yw clicied y clo,
 Nid caledrwydd ond Clidro.

4

Ffynonellau

A—BL Add 14875 [= RWM 30], 143^r B—BL Add 14965, 6 C—BL Add 14965, 229^r D—LIGC 5272C, 182^r E—LIGC 13155A, 295 F—LIGC 13118B, 18

Amrywiadau

2 *A* nid a r dim.. 3 *B–F* caled fydd.., *A* ..kligked..

Pennawd

B i Robert clidro dychaniad, *F* Englyn dychaniad i Robert Cludro.

58

Fo ddoeth Tomas fras ar frys—i bwyntio
 Wrth bentan Bachymbyd,
 A dod â'i foch—on'd da'i fyd?—
 O'r maes oer i'r mesyryd.

4

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 99–100

Darlleniadau

2 ..Bachynbyd 3 a dyfod..

Pennawd

Tomas grythor y voch a llys henwyd yn grythor y foch am fod iddo voch fawr ar gair hwnnw 'foch' sydd air amwys ag ni wyddis pa vn ai 'Boch' ai moch y mae yn i ar wyddokav, ag yna y kanai Raff ap Robert iddo fal am y voch.

59

O dwg hwyl ar wyl yr eilwaith—i'n mysg,
 Ein moesgar gydymaith,
 Efô wŷr modd, yfwr maith,
 4 Fo lenwir ei fol unwaith.

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 694

Olnod

Raff ap Rrobert i hoel Bangor.

60

Gresyn o ddeuddyn, ddidawr—anallu,
 Na ellid un cerddawr;
 Ni thalant, ni fedrant fawr,
 4 Ddwy grothell, y ddau grythawr.

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 472

61

Pâr awgrym iach ym, a chymer,—a thrig
 I'th ragor bob amser,
 A phaid, gloyw enaid y glêr,
 4 Â rhoi'n fet yr hen fater.

Ffynonellau

A—BL Add 9817, 216^r B—LIGC 3039B [= Mos 131], 744

Awduraeth

A Raff.

62

Os hapiai im dario i'm swper,—ar f'enaidd,
 Ni fynna' i mo'r andler;
 Tyn y cig oddi ar big y bêr;
 Rhostiodd, myn Rhys, dau hanner.

4

Ffynhonnell

J 88 [= RWM 18], 51

Pennawd

Raff ap Rob. coming one night to Llanychan [sef Llanhychan ym mhlwyf Llangynhafal] where one Rys dau hanner kept an Ale-house, and seing there was noe more meate for supper but a poore breast of Mutton over rosted he said ...

63

Ystyllod parod bob borau,—cynnud
 Yn cynnal dy freichiau,
 Bystwn gwyllt wrth byst *yn gwau*,
 Mab Adam, am y *bodiau*.

4

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 855

Darlleniadau

3 ..byst [] 4 ..am y b[]

64

Rhyw groglath o ddwylath ddaliodd—Robert,
 Neu rywbeth a'i lladdodd;
 Os o'r warthol y syrthiodd,
 O chair y march, iach yw'r modd.

4

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 764 B—LIGC 1553A, 452

Amrywiadau

1 B kroglath..Robin, AB ..a ddaliodd..

Olnod

B R : R : iw was.

65

Fo gad, diymwad, o Domas—groenddu
 Rhyw grynddyn rhy atgas;
 Ai rhyfedd cael, rhyw fodd cas,
 4 Llin ddrwg allan o ddrygwas?

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 455 B—LIGC 253A, 220

Amrywiadau

2 A anwad grynddyn atkas

Awduraeth

B Dienw.

66

Dugoch groen coch, gŵr yn cychwyn—d[];
 Â'r dwygail ystalwyn
 Dan god i mewn dwy gadwyn,
 4 Cern lleidr croch, carn-lleidr y crwyn.

Ffynhonnell

BL Add 14875 [= RWM 30], 99^r

Darlleniadau

1 []vgoch.. 3 dynn god..

Pennawd

i ddyn a ddygasai groen coch yn lladrad.

67

Emlyn gul felyn, gal foeliad,—ei ben
 Â bonion danheddiad,
 Êl i adrodd ei ledrad;
 4 Wrth y dorch yr aeth ei dad.

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 459

Darlleniad

1 ..gil voeliad..

68

Naws eidral meddal sy'n meddwi—'r Saeson,
 Naws eisin a bryntni,
 Naws dŵr afon is trefi,
 4 Naws cwrw Caer nis câr ci.

Ffynonellau

A—BL Add 14969, 97 B—BL Add 14969, 330 C—BL Add 14990, 24^r
 D—Gwyn 19, 246 E—J 88 [= RWM 18], 60 F—J 138 [= RWM 16], 98^v
 G—LIGC 356B, 56 H—LIGC 1580B, 365 I—LIGC 3039B [= Mos 131],
 659 J—LIGC 8330B, 178 K—Pen 99, 622

Amrywiadau

1 *H* ..eidrawl meddawl yn meddwi Saeson, *A* ..meddal naws meddwi sayson,
CJ ..meddal yn meddwi Saeson, *BDEGK* ..meddwi saysonn 2 *AFIJK*
 ..brynti 3 *C* naws tair a vyn., *H* naws taer a fyn., *E-GIJ* ..tair afon., *F* ..is y
 trefi 4 *A* ..cwrw cayer., *E* ..nis caer ci, *D* ..y ci

Pennawd

CH I gwrw Caer Leon, *D* Englyn i Gwrw Caer, *E* Jo Tudor to Chester ale,
FIE dychan i gwrw Kaer, *G* i gwrw Caer

Awduraeth

A-DGHJK Dienw, *E* Siôn Tudur

69

Dwyso dy ginio, digoni—bwyta
 Heb ateb am gyfri';
 Di-gost iawn y dugost ti
 4 Dy folied o dŷ Fali.

Ffynonellau

A—BL Add 14965, 1 B—BL Add 14990, 27^v

Amrywiadau

1 *B* dwysg.. 2 *A* eb ateb..

Pennawd

AB i ddyn aethai heb dalv i siott.

70

Anghynnydd i'm gwŷdd, a'm gweddi—i'm pannwr,
 Heb unwaith eu croesi;
 Ni chaid arian amdani,
 Deunydd hug denau oedd hi.

4

Ffynhonnell

LIGC 3039B [= Mos 131], 338

Pennawd

En : dychan i wydd ac i bannwr y rain.

71

Brithyll, cas ridyll, cais redeg—dan lannoedd,
 D'elynes yw'r falleg,
 Cwrian dan ochr carreg,
 Neu fo chwyth gwynt fach i'th geg.

4

Ffynonellau

A—LIGC 3039B [= Mos 131], 362 B—LIGC 3039B [= Mos 131], 866

Amrywiadau

1 B y.. 4 AB ..fo a..

Olnod

A E. i'r Brithill Brych.

72

Gwynt oriog, lliidiog, llydan,—dwys drawiad,
 Yn distrywio'r berllan;
 A'i fynd i glos faendy glân
 Fo wnâi dwll i fynd allan.

4

*Ffynonellau*A—BL Add 14984, 98^r B—BL Add 14984, 337^v C—Card 2.5 [= RWM 11], 86 D—Card 2.201 [= RWM 63], 42 E—LIGC 3039B [= Mos 131], 492 F—LIGC 95B, 59 G—LIGC 1553A, 538

Amrywiadau

1 *F* ..oric..llydan drawd 2 *F* yn dyf drow ir berllan 3 *C* o fynd.., *F* ..i glas.., *G*..fendyglan 4 *AB* fo a.., *F* ofnai dwll ofunud allan

Awduraeth

C Dienw.

73

Englyn ansicr ei awduraeth

Duw gadarn Ddyddfarn a ddaw—o’i fawredd,
 Oferwaith ymguddiaw,
 A char ei fron, chwerw fraw,
 4 Y mae perygl ympiriaw.

Ffynonellau

A—BL Add 14977, 124^r B—BL Add 14984, 33^v C—Card 2.5 [= RWM 11], 86 D—J 138 [= RWM 16], 63^r E—Llst 167, 162 F—LIGC 3039B [= Mos 131], 399 G—LIGC 95B, 59 H—LIGC 435B, 70^v I—CM 224, 62^v

Amrywiadau

1 *EG* ..dydd farn.., *ABEHI* ..ai.. 2 *AC-FH* oferwaith yw.., *G* oferwr yn ym ffuddaw, *B* ..yw kiliaw 3 *B* ..fron maen yn chwerw.., *G* a gar ifraw chwerw frau, *I* ..fron mewn chwerw.. 4 *E* mae perigl.., *H* mae perigl n ympiriaw, *B* ..parawd.., *G* ..ympurhau

Pennawd

J Perigl ympvrio gerbron Dvw (ychwanegwyd yn ddiweddarach).

Awduraeth

Dienw ym mhob un o’r llsgrau. uchod.

*Atodiad i
Marwnad Siôn Tudur i Raff ap Robert*

Duw ddoe'n diweddu awen,
Dan bridd hwnt dwyn y bardd hen;
Duw a wnâi bwnc nid o'n bodd,
4 Dwyn henfardd doe o'n hanfodd;
Dwyn brenin, brigyn breugerdd,
Dwyn rhosyn, maen coryn cerdd;
Dwyn Raff, a'i gau dan yr arch,
8 Fab Rhobert, fab brau, hybarch.

Clêr bob un, clo ar bawb oedd
Cloi pêr wawd, clap aur ydoedd.
Caned y beirdd bob cannyn,
12 Cerdd Raff nis cyrraedd yr un.
Clêr Gwynedd, cloi ar ganu,
Clo gan fin y Cilgwyn fu.
Tarren hardd lle tariai'n hon,
16 Tiriog ei blant a'i wyrion.
Ffynedig, Raff hen ydoedd,
Ffynnon awenyddion oedd.
Cafodd yn rhwydd bob blwyddyn
20 Fawrhad ar ei fara ei hun.
Anaml y cawn, amlwg cân,
Fardd hen o'i fwrdd ei hunan.
Os cenir yn Is Cynwyd
24 Chwilier llyfr Uchelwr Llwyd.

Raff iraidd, braff, hardd o bren,
Raff coed irbraff, cadeirbren.
Bu argae gref, brig a gwraidd,
28 Bu'n cau irddysg bencerddaidd.
Myrddin ac ail Iesin gwlad,
Maen gwn ar bob mwyn ganiad.
Athro gwawd, wrth ergydio
32 Y saeth fawr a saethai fo;
Yn ein gwawd, ninnau, gwedi
Saethau mân a saethem-i.

- 36 Tarawai nod, derwen oedd,
Taro nod hwyr in ydoedd.
- Y mae'n gorwedd mewn gweryd
Awen bêr, freua'n y byd.
40 Beirdd yn ôl yn bruddion aeth,
Aber dawdd y brydyddiaeth.
Ni bu gystal dyfalwr
Erioed ag ef, ar wawd gŵr;
Hyfedr, cryf a dihafarch
44 Y gwnâi fawl i gi neu farch.
Ni rydd un arwydd annerch,
Ni chwaddd mab gyda cherdd merch
Yn ei ôl, er a wnelyn',
48 Nef i Raff, annifyr yn.
- Dyfnber ei wawd, fôn a brig,
Dwys a thrad disathredig.
52 Taran ar feirdd ein tiroedd,
Torrai dir iach, taradr oedd.
Bu wraidd ben beirdd y byd,
Bu wych unbardd Bachynbyd.
Englyn hwn gonglai'n henaaur,
56 Awdl Raff a dalai yr aur.
Cywydd o fraisg onwydd frig,
Caniad didolc, cnotiedig.
- 60 Duw a roes einioes uniawn,
Duw dug ŵr odidog iawn,
Ac i'r nef y'i dyrchefir
Ger llaw y Tad, gŵr llwyd hir.

Atodiad ii
Penillion Robin Clidro i Raff ap Robert

4 Ai ar y briffordd yr aethost yn broffwyd
 Heb fedru darllen, hen gleiriach cedorllwyd?
 Fo wŷr pawb ar ddadl nad prydydd ydwyd
 Ond llygad tin clêr holl wŷr Dyffryn Clwyd.

8 Llun cyndedyn wyd mewn dadl,
 Nid athro a wŷr draethu odl,
 Dyn â'i chwedel gigel gagal;
 O ddyn, cybydd meddwa' o'r cwbul.

12 Pe cawn i Raff gegbraff gam
 O din y llwyn i dir llwm,
 Mi a rown iddo lamdro lem
 Oni dd'wete ei din eto, "Dam!"

16 Uffernol yw Raff a ffyrnig,—o brydydd,
 Bwriadwr gwenwynig;
 Iddew cul heb ddim o'r cig,
 Llamwr y gwragedd llymrig.

Atodiad iii
Englyn Siôn Tudur i Raff ap Robert

Bachymbyd, da yw'n byd ar ben—bwr' tâl
A'r tylwyth yn llawen;
Pe cawn fod lle'm gosoden'
Ym Mhasg heb Raff yn 'y mhen.

4

Ffynhonnell
GST cerdd 251

Atodiad iv
Englyn Wiliam Llŷn i Raff ap Robert

Os byw yw Raff braff, bur hoffwerdd—adail,
Byw ydyw'r felysgerdd;
Os marw yw gwyngarw gwingerdd,
Mair fry a'i gŵyr, marw fu'r gerdd.

4

Ffynhonnell
GWL1 cerdd 197

Nodiadau

1

Awdl foliant i Risiart Thelwal ab Edward ab Eibl ap Simwnt ap Dafydd, o Blas-y-ward ym mhlwyf Llanynys yn Nyffryn Clwyd, gw. WG2 1635; PACF 274; L. Dwinn: HV ii, 335–6; ByCy 876. Mydryddwyd blwyddyn ei farw mewn tri chywydd marwnad a ganwyd iddo, fel na all fod amheuaeth ynghylch y dyddiad. Yn ôl Wiliam Llŷn: *Oed Duw'n bymthecant oedd, / Trigain wyth trwy gŵyn ieithoedd*, gw. GWLl 135.25–6; WLI LXXXV.25–6. Dywed Wiliam Cynwal mai ar ddydd Llun ym mis Mehefin y bu farw: *Y Llun yr aeth, llawn roi'i win / Oer fu haf ar Fehefin, / Oed Iesu, nawdd dewis Nêr, / A mawl hwn, mil a hanner, / Ac wedi i'w rhoi gyda'r rhain / Aeth rhagor wyth a thrigain*, gw. ADWC ii, 45.25–30. Mydryddwyd y flwyddyn yn y cywydd a ganodd Simwnt Fychan iddo hefyd, a chynnwys y pennawd yn BL Add 31059, 62^r wybodaeth bellach am yr achlysur: *Marwnad am Richart theolal o waith Simwnt Vachan: oed Krist 1568 y 13 o fis maihevin ynghylch y 65 flwyddyn oi oedran ef*. Awgrymir yn L. Dwinn: HV ii, 335–6 a PACF 274, a thrachefn yn WLI 318 a HPF iv, 306, mai yn ystod ail eisteddfod Caerwys y digwyddodd hyn, ac yntau yno yn rhinwedd ei swydd yn un o'r comisiynwyr, ond y mab, Simwnt (a fu farw yn 1586), yn hytrach na'r tad, a weithredai yng Nghaerwys, gw. Enid Roberts, 'Eisteddfod Caerwys 1567', TCHSDd 16 (1967), 23–61 (td. 46); Gwyn Thomas, *Eisteddfodau Caerwys* (Caerdydd, 1968), 86. Nid yw'n destun syndod, felly, fod Wiliam Llŷn yn mawrygu doniau awenyddol yr etifedd yn y cywydd moliant a ganodd iddo: *Ba gywydd heb wŷg awen, / Ba enw bardd na bo'n ei ben?* gw. GWLl 34.45–6. Gallai Raff fod wedi galw sylw at y cyswllt gwaed rhyngddo a'r Thelwaliaid; priodasai Hywel ap Madog, brawd ei daid, â Lleucu, chwaer y Simwnt a enwir yn yr ach uchod, gw. WG2 487.

Y mesurau

- | | |
|--------|--|
| 1–36 | 6 englyn unodl union, a'u dilyn yn llau. 25–36 gan 3 englyn proest cyfnewidiog. Cysylltwyd yr holl englynion â chyrchgymeriad. |
| 37–102 | 11 gwawdodyn hir ar yr odl <i>-i</i> . |
| 103–6 | 1 englyn unodl union. |

1 *Ric llew Ed llydan i genedl* a ysgrifennwyd yn wreiddiol yn Bangor (Mos) 4.

- 1–2 Copïwyd paladr yr esgyll agoriadol yn Pen 221, 214: *Risiart llew Edwart llydan ywch kenedl / vwch Konwy a Rhvddlan*. Dyma'r mynegai a baratoes John Jones, Gellilyfdy, o gynnwys ei lsgrau. Collwyd y llawysgrif yr oedd yr awdl hon ynddi, ond nid yn y llawysgrif a gopiwyd cyn 1609 ac yr ail-luniwyd ei threfn gan M.T. Burdett-Jones yr oedd y gerdd, gw. 'Trydydd llyfr cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.
- 3 **swydd Gaer Hanai**'r teulu o Thelwal yn swydd Gaer, gw. PACF 274.
- 4 **Brychan** Ar ei ôl ef, yn ôl traddodiad, y cafodd Brycheiniog ei henw, gw. LBS i, 303–21. Y mae'n bosibl fod Raff yn ei enwi er mwyn dwyn i gof gyswllt Elsbeth Herl, gwraig Rhisiart Thelwal, â llinach enwog yr Herbertiaid. Marged, merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas, oedd nain Elsbeth (WG2 643), ond gŵr cyntaf Marged oedd Syr Rhisiart Herbert, brawd Wiliam Herbert, Iarll Penfro (WG1 425). Fodd bynnag, nid enwir gwraig Rhisiart yn yr awdl, a pherthyn peth amwyseidd i'r adran olaf. Deisyfir ffyniant ei wraig—y *lili*—yn ll. 91, ond awgryma llau. 85–6 nad oedd Rhisiart yn briod pan ganwyd yr awdl.
- 5 **Cynan** Olrheiniai gwragedd Ithel Fychan a Chynfrig (gw. nod. 36 isod) eu hachau hyd at Ruffudd ap Cynan.
- 11 Cynghanedd groes gytbwys acennog neu sain gadwynog.
- 13 **aer** 'Etifedd', gw. GPC 37, ac felly yn ll. 86 isod, ond gellid 'brwydr', gw. *ib.*, *meinwr yn aer* 'gŵr gosgeiddig mewn brwydr'.
- 14 **Tewdwr** Cynrychiolydd llinach frenhinol Deheubarth. Llinach Gwynedd a gynrychiolai Gruffudd ap Cynan.
- 17 **ei Ras** Defnyddir yr ymadrodd yn gyson gan Lewys Morgannwg wrth gyfeirio at y brenin, gw. geirfa GLMorg, a diau mai dyma'r ystyr yma. Awgryma'r ymadrodd mai yn ystod teyrnasiad y brenin Harri VIII (m. 1547), y canwyd yr awdl, a cheir ateg i hyn yn ll. 84 isod. Tebyg mai Rhisiart oedd y penteulu pan ganwyd yr awdl. Yr oedd ei dad, Edward, neu'r *welbiloved frynde Edward of Felwall, gentilman* yn fyw ym mis Gorffennaf 1521 pan oedd yn dirprwyo ar ran Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn, ac yr oedd yn dal ar dir y byw ym mis Mehefin 1533 pan fu ef a'i fab yn ceisio sefydlu eu hawl ar afonig, gw. W.R.B. Robinson, 'Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery: Part 2', Mont Coll 88 (2000), 1–24 (tt. 5, 7).
- 18 **Ffelwal** Gellid ei ystyried yn amrywiad ar *Thelwal* (a gweler y dyfyniad yn y nodyn blaenorol), a digwydd yr un ffurf (ac y mae'r cymeriad llythrennol yn ategu ei ddilysrwydd) mewn cywydd o waith Huw ap Dafydd i Syr Robert ap Siôn, person Llanfwrog, gŵr a oedd yn perthyn, trwy ei fam, i'r Thelwaliaid: *Ffelwal at afal wyt ti*, gw. GHD 9.37. Y mae hefyd yn bosibl fod Raff yn chwarae ar yr enw *ffelwal*

< *ffel* ‘call, deallus’ a *wal* ‘mur’.

- 20 Nid oes yma fai trwm ac ysgafn am fod y gair acennog *tâl* yn odli â geiriau diacen, gw. J. Morris-Jones: CD 233–4.
- 22 **Dytwns** Sisli, merch Siancyn Dôn ap Syr Siôn Dôn, oedd gwraig Eibl Thelwal. Priodasai Siancyn ag Elsbeth, merch *sr pirs o dytwn*, gw. GLM 464. Crybwyllir y Dytwns mewn sawl cywydd a ganwyd i gyfarch aelodau o dylwyth y Salbriaid, e.e. GLM LVI.22, GLD 9.57, GHD 11.9.
Lamffordd Siôn Langford a fu’n gwnstabl Castell Rhuthun ac yn stiward Dyffryn Clwyd; ei ferch oedd gwraig Simwnt Thelwal.
- 27 **Syr Bŵn** Syr Bŵn neu Syr Bewys o Hamtwn, ac arno gw. GLMorg 1.1n. Y mae’r odl yn yr englyn yn rheolaidd gan fod y pedwar gair (*un, ân’, Bŵn, Dôn*) yn cynnwys sillaf ysgafn.
- 28 **y Dôn** Gw. 1.22n uchod.
- 36 **y fam** Catrin, merch Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan ap Cynfrig o Ysgeifiog, oedd hi, gw. WG1 264; WG2 504, 509.
- 38 **Edwin** Mam Siôn ap Dafydd oedd Angharad, merch Cynfrig Fychan (WG1 606) a Gwladys ... Uchdrud ab Edwin (WG1 281, 284).
- 40 **rhydraidd** Dilynwyd darlleniad y llsgrau., ond efallai mai *yn ŵr hydraid* yn hytrach nag *yn ŵr rhydraidd* a fwriadwyd. Ni restrwyd *rhydraidd* yn GPC 3127; ar *hydraid* ‘yn treiddio neu’n mynd rhagddo’n rhwydd’, gw. GPC 1953.
- 41 **Beli** Awgryma’r ymadrodd *os Beli oedd fawr* mai Beli Mawr, mab Mynogan, yn hytrach na Beli, mab Dyfnwal, yw hwn, ac arno gw. TYP³ 288–9.
- 45 **Fychans** Mam Catrin oedd Sioned, merch Robert ab Ieuan Fychan o Goetmor, gw. WG2 1032. Ail wraig Robert ab Ieuan oedd mam Sioned, sef Marsli, merch Edmwnd Stanlai, gw. WG2 1618. Galwodd Lewis ab Edward sylw at yr un cysylltiadau yn y cywydd gofyn a ganodd i Risiart: *Rhoed part, taid Rhotpert ydoedd, / Trefor a Choetmor uwch oedd. / Iachau, graddau o’ch gwreiddyn, / Hynod o Stanleiod lin, gw. Lewis ab Edward: Gw 39.19–22.*
- 47 **Coetmor** Gw. 1.45n uchod. Gallai’r teulu arddel cyswllt â Hywel Coetmor hefyd. Angharad, merch Madog Llwyd, oedd mam Ithel Fychan ap Cynfrig, ond gwraig gyntaf ei dad, Cynfrig, oedd Angharad, merch Gruffudd Fychan, a chwaer Hywel Coetmor, gw. WG1 448.
- 48 **Saeran** Nawddsant eglwys Llanynys yn Nyffryn Clwyd, gw. LBS iv, 129–30. Ym mhlwyf Llanynys yr oedd Maesmaencymro lle y cartrefai Raff, a diau mai hyn sy’n esbonio’r mynych gyfeiriadau at y sant yn y canu. Yr oedd yn eglwys Llanynys gerflun o’r sant a wnaed yn y

- bedwaredd ganrif ar ddeg, gw. M.E. Speight, 'The forgotten church of Llanynys', TCHSDd 11 (1962), 112–25. Yr oedd ffynnon yn Llanynys wedi ei henwi ar ei ôl, gw. Eirlys Gruffydd, *Ffynhonnau Cymru* (Llanrwst, 1999), 68.
- 49 **Ystanleiod** Gw. 1.45n uchod.
- 54 **medd** Ceir sawl cyfeiriad at yfed a chyfeddach yn y pennill sy'n dilyn, ac felly gweddai *medd* 'diod felys', ond 'awdurdod, nerth' sy'n cynnig yr ystyr orau, er na chofnodwyd enghreifftiau cyfoes yn GPC 2394.
- 56 **pint** Ffurf ar *peint* 'mesur gwlybwr', gw. GPC 2717; EEW 151. Y mae'n bosibl nad oedd copiwr LIGC 6209E yn gyfarwydd â'r ffurf ac iddo fabwysiadu'r darlleniad *pot* o'r herwydd.
- 58 *f*led-lafarog.
- 59 **cannwr** Diwygiwyd *canwr* y llsgrau. er mwyn gwella'r ystyr, a cf. ymhellach 1. 83n isod.
- 60 **ffrwythi** Ffurf ansicr. Naill ai ffurf luosog *ffrwyth* i. 'budd, ffyniant' neu ii. 'grym, nerth, ynni' gw. GPC 1319–20, neu iii. 2 un.pres.myn. y ferf *ffrwytho* 'dwyn ffrwyth; ffynnu', gw. GPC 1320.
- 62 **distwrddi** *Di-* + *stwrddi* 'llym, caled, garw', gw. GPC 3351. 'Tyner, mwyn' sy'n goleddfu orau y trosiad *oen*.
- 65 **cweryli** Y ffurfiau lluosog *cwerylon*, *-au*, *-oedd* a restrir yn GPC 636, ond ymddengys i Raff fathu sawl ffurf er mwyn iddo allu cynnal y brifodl *-i* rhwng llau. 37 a 102, a cf. isod 1.72n, 75n.
- 66 **gŵr bertach** Am yr arfer cyffredin o dreiglo'r ansoddair cymharol mewn gosodiad negyddol, gw. Treigladau 66–7.
- 68 **digrocysi** Unwaith eto, fel yn 1.60n uchod, gellid naill ai ffurf enwol neu ferfol: i. *di-* a ffurf luosog *crocys* 'twyll, celwydd, ymrafael', gw. GPC 601 (ond ni nodwyd unrhyw ffurfiau lluosog yno) neu ii. 2 un.pres.myn. y ferf *di-* + *crocysu* 'cynhenna', gw. GPC 601.
- 72 **dihwcio** *Di-* + *hwcio* 'dwyn, lladrata, twyllo', gw. GPC 1298.
dihocedi 'Di-dwyll, diddichell'. Y ffurfiau lluosog *hocedion* a *hocedau* yn unig a restrir yn GPC 1881, ond cf. 1.65n uchod.
- 75 **cwestiwni** Ystyrlon fyddai'r be. *cwestiynu*, er mai i ddiwedd yr 17g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf a restrir yn GPC 637, ond nid yw'r brifodl yn caniatáu mabwysiadu'r ffurf. Rhaid derbyn, felly, mai ffurf luosog *cwestiwn* ydyw a fathwyd er mwyn cynnal yr odl, cf. 1.65n.
- 76 **cadair** Trosiad sy'n cynrychioli dysg ac awdurdod Rhisiart Thelwal a'i ddoethineb wrth ymdrin â materion cyfreithiol. Nid enwir ef ymhlith ustusiaid sir Ddinbych, gw. JPWM 54–91, ond yn 1543, yn dilyn y gyfres o Ddeddfau Uno, y dechreuwyd penodi ustusiaid. Ond enwir ei fab, Simwnt, am y tro cyntaf o dan y flwyddyn 1566.

- 77 **wythfodd ymadrodd** Dwy ran ymadrodd a ddisgrifiwyd yn y testunau gramadegol cynharaf, ond ymdriniodd Simwnt Fychan ag wyth rhan ymadrodd yn ei ‘Bum Llyfr Kerddwriaeth’, gw. GP 94. Meistrolaeth ramadegol Rhisiart Thelwal a fawryg yn y fan hon.
- 80 **teiriaith** Cymru, Lloegr a’r Alban ond odid. *Teir Ynys Prydein: Lloegyr a Chymry a’r Alban*, gw. TYP³ 246.
- 83 **Eidol ... yn torri—cannwr** Cofid am ei gamp yn ymosod ar y Saeson wedi iddynt geisio difa ei gyd-genedl trwy frad y cyllyll hirion, gw. BD 99. Ond yn ail ran y cwpled pwysleisir teyrngarwch Rhisiart Thelwal i’r brenin Harri VIII.
- cannwr** *Canwr* a gofnodwyd yn Bangor (Mos) 4, a cf. 1.59n uchod. Ystyrlon hefyd fyddai *cynnwr* LIGC 6209E.
- 84 **syfwr** Tebyg mai talfyriad o *rhysyfwyr* ‘un a benodir i dderbyn arian sy’n ddyledus’ ydyw, gw. GPC 3143. Gŵr ifanc oedd Rhisiart pan ganodd Lewis ab Edward gywydd i erchi milgi ganddo ar ran Edward Salbri, a barnu wrth dystiolaeth y llinell agoriadol—*Y gŵr ifanc, gair Ofydd*—ond awgrymir hefyd ei fod eisoes mewn swydd gyfrifol: *Rhysyfwyr wyd, rhyw sy frau*, gw. Lewis ab Edward: Gw 39.1, 4.
- Harri** Gw. 1.17n uchod.
r berfeddgoll.
- 85 **dyweddi** Nid enwir gwraig Rhisiart Thelwal yn y pennill hwn na’r nesaf, a gallai llau. 85–6 awgrymu nad oedd yn briod pan ganwyd yr awdl, gw. 1.4n uchod. Ond ganwyd ei etifedd, Simwnt, yn 1526, yn ôl dystiolaeth ByCy 867.
- 88 **na’th ael wedi** Dilynwyd LIGC 6209E er nad yno y ceir y darlleniadau gorau. Ar *ael* ‘bro, cymdogaeth’, gw. GPC 36.
- 89 **fforchog** ‘Ar lun fforch, yn fforchi, deubig’, gw. GPC 1303. Ansoddair anaddas ar un ystyr wrth ddisgrifio gwaed bonheddig, ond diau mai bwriad y bardd oedd dangos bod gwaed dyweddi Rhisiart Thelwal yn un rhywiog o du ei thad a’i mam fel ei gilydd.
- 91 **dyfu** Un o ffurfiau 3 un.grff.myn. y ferf *dod*, gw. G 414; GPC 1128 a cf. 3.1n.
- y lili** Trosiad am ddyweddi neu wraig Rhisiart Thelwal. Y lili, neu’r fflŵr-de-lis, oedd symbol brenhinol Ffrainc, a diau mai Margaret o Anjou, gwraig Harri VI, yw’r lili yn un o gywyddau brud Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLl 23.63–4, ac ymhellach 33.57–8 (ond efallai mai Margaret Beaufort, mam y brenin Harri VII, yw’r lili yn yr olaf).
- 96 **y bêl** Trosiad cyffredin yng nghanu’r beirdd, ac sy’n gyfystyr ag ‘anrhydedd, bri, arwydd o ragoriaeth’, gw. GPC 2721.

97 **Saeran** Gw. 1.48n uchod.

Elian Â Môn y cysylltir Elian, ond iddo ef y cysegrwyd eglwys Llanelian ger Bae Colwyn, gw. LBS ii, 435–4. Nid nepell o'r eglwys yr oedd ffynnon Elian, 'ffynnon felltithio enwocaf Cymru', er mai yn ystod y 18g. yr enillodd fri ar gyfrif ei grym i felltithio, gw. *ib.* 440; Eirlys Gruffydd, *Ffynhonnau Cymru* (Llanrwst, 1999), 55–60.

98 **Doewan** Nawddsant Llanrhaeadr-ym-Mochnant, gw. LBS ii, 346–7.

Asa Cysylltir Asa â Llanelwy ond fe'i coffeid mewn ffenestr liw yn eglwys Llandyrnog, nid nepell o Lanynys, gw. LBS i, 177–85.

Dewi Ni fu'n cenhadu yn y gogledd ac yn siroedd y de y cysegrwyd eglwysi iddo, ond yr oedd Non, ei fam, a Gwen, mam Cybi, yn ddwy chwaer yn ôl y gred gyffredin, gw. LBS ii, 203. Ar ddsbarthiad daearyddol yr eglwysi a gysegrwyd i Ddewi, gw. E.G. Bowen, *The Settlements of the Celtic Saints in Wales* (Cardiff, 1954), 52.

99 **Non** Mam Dewi, gw. LBS iv, 22–5.

Cybi Yn ôl un traddodiad fe'i claddwyd yng Ngwytherin, LBS ii, 212.

101 **na wypo'n dynion** Dilynwyd darlleniad Bangor (Mos) 4, ond gellid *na wypon' dynion* ...103 Anodd bod yn sicr ynghylch ystyr y llinell. Ffurf amr. ar *gartr* yw *gart* ac y mae'n gyfystyr â *gardas*, sef y gair sy'n dilyn, gw. GPC 1383, ond nid yw'r ansoddair *dygn* 'tra phoenus; blinderus; dyfal', gw. GPC 1131–2, yn gweddu. Nid yw *art* 'dysg', gw. GPC 211, yn fwy ystyrion ychwaith. Y mae'r llinell yn anfoddfaol hefyd am ei bod yn cynnwys cyfatebiaeth d.g. = d.g.n. Diwygiwyd *dygn* yn *dwg* er mwyn gwella'r ystyr a chaboli'r llinell. Dewis arall fyddai diwygio *deg oes* yn *deng oes*, ac ar yr ymadrodd hwnnw, gw. GPC 916.

2

Owdwl farwnad am Robart a miltwn o ystrad yw hon yn ôl BL Add 14875, ond tasg anodd yw lleoli'r gŵr hwn ar sail y cynnwys. Nid enwir yr un o'i hynafiaid yn yr awdl, ac er bod sôn am alar ei frodyr, nid enwir hwythau. Ni sonnir ychwaith am wraig. Ailadroddir y cyfenw, Miltwn, fodd bynnag, ac fe'i cysylltir ag Ystrad, neu Geinmeirch yng nghantref Rhufoniog, gw. WATU 226, 319. Cafodd Dafydd Miltwn Hen, a gartrefai yng Ngwenynog ym mhlwyf Henllan, chwe mab, a Robert oedd un, er na restrir ei enw yn WG2 1470; PACF 285, 287; L. Dwinn: HV ii, 335, 338; HPF iv, 49–50; ByCy 635–9. Daliai Dafydd Miltwn swyddi o dan y brenin Edward IV a daliodd rhai o'i feibion swyddi cyhoeddus yn negawdau cynnar yr 16g. Bu farw Rhisiart Miltwn, ŵyr Dafydd, yn 1577, a lluniwyd marwnadau iddo gan Siôn Tudur, Simwnt Fychan, Tomas Prys a Rhys Cain. Nid yn 1577 pan

fu farw Rhisiart y lluniwyd y rhain ond yn 1592, bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, a hynny, y mae'n debyg, ar achlysur codi cofeb iddo ef a'i wraig yn yr Eglwys Wen. Trafodir hynodrwydd y cywyddau hyn yn ysgrif Enid P. Roberts, 'Cywyddau marwnad Rhisiart Miltwn', YB ii (1966), 241–70, a rhoddir sylw hefyd i Ddafydd Miltwn Hen a'i feibion (tt. 250–6). Cafodd Robert ap Dafydd siryfiaeth Caer yn 1518 (td. 254), a chrybwyll Raff y golled i fonedd *Swydd Gaer a'r Marsoedd i gyd* (ll. 20). Tybed ai iddo ef y canwyd y farwnad? Yn ôl tystiolaeth marwnad o waith Lewis ab Edward yr oedd Dafydd, ei frawd, yntau, yn gysylltiedig â Chaer, ac fe'i claddwyd yn eglwys Pedr Sant, gw. Lewis ab Edward: Gw cerdd 25.

Gellir bod yn bur sicr nad y bardd Syr Robert Miltwn a farwnedir. Rhestrir y cerddi o'i waith sydd ar glawr yn MFGLI 3063–4 ac yn eu plith ceir awdl foliant i Richard Davies, esgob Tyddewi, a luniwyd tua 1574. Marwnadwyd Robert gan William Middleton a'i disgrifiodd yn *ail Tudur Aled odiaeth / eilio yn ail lolo a wnaeth*, gw. Llst 124, 394.

Y mesurau

- | | |
|-------|--|
| 1–28 | 7 englyn unodl union wedi eu cysylltu â chyrch-gymeriad. |
| 29–44 | 4 gwawdodyn byr ar yr odl <i>-yn</i> . |
| 45–8 | 1 englyn proest cyfnewidiog. |
| 49–54 | 1 gwawdodyn hir, a chynhelir yr odl <i>-ed</i> hyd ddiwedd yr awdl. |
| 55–78 | 6 gwawdodyn byr. |
| 79–84 | 1 gwawdodyn hir. Y pennill hwn sy'n cloi'r awdl ac awgryma'r cymeriad <i>Miltwn ... Miltynied</i> (llau. 1, 84) ei bod yn gyflawn. |

- 11 'Y blaenaf o blith y lliaws pan fyddai angen cymodi a dyddio' neu 'y blaenaf pan fyddai brwydro neu wrthdaro'.
- 18 **Lleweni** Elin, merch Syr Siôn Dôn, oedd gwraig Dafydd Miltwn Hen. Priodasai Elsbeth, merch Siancyn ap Siôn Dôn, â Thomas Salbri Hen, gw. WG2 1569; PACF 222. Ond efallai fod cyswllt mwy clòs rhwng Robert Miltwn a'r Salbrïaid.
- 19 Ceir yr un llinell gan Ruffudd Hiraethog yn ei farwnad i Robert Salbri o'r Rug, gw. GGH 90.3.
- 25 **gwirod Mair** Anodd gwneud pen na chynffon o *ac ewirod* y llsgrau., ond gall fod yma gyfeiriad at wirod Mair. Dethlid Gŵyl Fair y Canhwyllau ar 2 Chwefror. Yr oedd chwe phrif ŵyl i Fair yn y calendr eglwysig, ond dyma'r unig achlysur a gysylltid â gwaseilia. Diogelwyd nifer o gerddi gwaseilia, neu ganu gwirod, gan Richard Morris yn y casgliad o gerddi y dechreuodd ei lunio yn 1718, cyn bod yn bymtheg oed, gw. Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Richard Morris (1702/3–79)* (Llangefni, 1999), 31. Fodd bynnag, galwodd T.H. Parry-Williams sylw

yn ei ragymadrodd yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Caerdydd, 1931), xi, at gerddi gwirod a luniwyd ym mlynnyddoedd cynnar yr 17g. Egyr un ohonynt â'r cwpled *dima wirod, Mair yn dyfod, / er mwyn Mair wen, byddwch lawen*, gw. *ib.* lxiv. Er bod llawer o'r cerddi a oedd yn gysylltiedig â'r dathlu yn perthyn i Wynedd Uwch Conwy, y mae lle i gredu bod yr arfer yn fyw yn sir Ddinbych hefyd, gw. y bennod 'Mair a'i haur gadair' yn Rhiannon Ifans, *Sêrs a Rybana* (Llandysul, 1983), 150–88.

31 **Robert Llwyd** Gwrthrych y galar?

35 **Dyfnog** Iddo ef y cysegrwyd Llanddyfnog, a adwaenid hefyd wrth yr enw Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, gw. LBS ii, 397–8. Canodd y bardd Dafydd ap Llywelyn ap Madog gywydd iddo, a'i gysylltu â Llanrhaeadr (yn hytrach nag â Llanddyfnog): *Dof i'th eglwys ddwys 'ny ddôl, / Llanrhaeadr, mewn lle rheiol*, gw. DLIM 2.3–4, ond gan fod y bardd yn canmol rhinweddau ffynnon Ddyfnog gerllaw'r eglwys—*Rhaeadr gras i bob nasiwn* (DLIM 2.19)—yr oedd yn briodol ei fod yn arfer yr enw hwnnw. Yn Llanddyfnog, medd Raff, y claddwyd Robert Amiltwn. Hynodrwydd yr eglwys yw'r ffenestr liw sy'n dylunio cyff Jesse, ac a luniwyd yn 1533, ac felly yn ystod oes Raff ei hun, gw. Edward Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd* (Harmondsworth, 1986), 230–1.

52 **galw** Yn ddeusill.

56 **deilied** Y mae'r brifodl yn hawlio'r ffurf lafar, a cf. isod *gweinied* (ll.75), *tamed* (ll. 78), *eirchied* (ll. 81), *Miltynied* (ll. 84).

60 **diferu** 'Llifo, pistyllio', gw. GPC 980. Byddai *diferu'r gruddiau* yn fwy ystyrion, ond rhoddai hyn linell ac ynddi fai crych a llyfn. Gellid diwygio yn *difyrru'r garddau* i. 'byrhau, cwtogi' neu ii. 'difetha', gw. GPC 989.

garddau Un o ffurfiau lluosog *gardd*, gw. GPC 1381.

63 *n* berfeddgoll.

66 *n* wreiddgoll.

70 **wythran** Nid *wythran ymadrodd* fel yn 1.77n, ond 'cyfran neu ddogyn sylweddol'.

ei weithred Ei weithredoedd da, sef cyflawni Saith Weithred y Drugaredd, a cf. cerdd 17, sef yr englyn a luniodd Raff ar y pwnc. Arnynt gw. GIBH 5.43n.

83 Cyfatebiaeth -m n- = m. Y mae'n bosibl fod *n* yn ddi-sain yng nghesail *m*, a cf. 54.4 isod, *Crwm moel ar waith corn malwen*. Ond sylwer ar y ddwy enghraifft a ddyfynnir yn J. Morris-Jones: CD 224 lle yr atebir n.m. gan n.m.

3

Yn ôl tair o'r llsgrau., sef BL Add 14966, Bangor (Mos) 11 a BL Add 10313, bu farw Robert Salbri ap Pirs ap Siôn ap Tomas Salbri Hen yn y flwyddyn 1550, a dyma'r flwyddyn a fydryddwyd gan Ruffudd Hiraethog yn y farwnad a ganodd i benteulu'r Rug: *Amser, mewn y mis a'r modd, / Oed Duw'r fan y terfynodd, / Ys bo M a C bumwaith / Ac L o rif eglur iaith*, gw. GGH 90.29–32. Ni chrybwyllodd Gruffudd farwolaeth Catrin, merch Siôn ap Madog o Fodfel yn Llŷn, a gwraig Robert Salbri; bu hi farw yn fuan wedi ei gŵr, a barnu wrth yr hyn sydd gan Raff i'w ddweud (llau. 65–70), ac ategir ei dystiolaeth ef gan y farwnad a ganodd Gruffudd Llwyd ab Ieuan i Robert: *pann aeth hwn pennaeth ynys / ir llann evo r wraic or llys / yr honn oedd morr rrinweddol / na vynai oll vyw n i ol / aethant illdav kreiriav kred / a mwy anwyl oi myned*, gw. BL Add 31059, 173^r. Ymddengys, felly, fod marwnad Gruffudd wedi ei llunio ynghynt. Ceir ach Robert Salbri yn WG2 1577, 1569; PACF 59; L. Dwnn: HV ii, 331–2; gw. hefyd ByCy 845–6; ByCyAt 159–60; Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', HM ii, 507–628 (tt. 601–2, 624). Ymwelodd Lewys Morgannwg â Robert yn ystod blynyddoedd olaf teyrnasiad y brenin Harri VIII, a chanodd ei foliant, gw. GLMorg cerdd 83.

1–2 Copiwyd y cwpled cyntaf yn Pen 221, 138: *doe vvr ail dyfv r wylaw / dynnod a roes dwr Noe draw*, a gw. ymhellach 1.1–2n.

1 **doe fu'r ail** Yr ymadrodd *cael ail*, sy'n fyw ar lafar yng Ngwynedd, sy'n cynnig yr ystyr orau, sef 'cael siom'. Fe'i rhestrir yn GPC 387, ond ni ddyfynnir unrhyw enghreifftiau.

dyfu Cf. 1.91n.

2 **dŵr Noe** Cyffredin iawn mewn marwnadau oedd cyfeirio at y dilyw, gw. Genesis 6–8, a cf. 4.23 *Llefain o'i braw llif Noe brudd*.

6 **tŷ'r barwniaid** Defnyddid yr enw *barwniaid* wrth gyfeirio at ddisgynyddion Owain Brogyntyn yn Edeirnion a Dinmael, gw. A.D. Carr, 'An aristocracy in decline: the native Welsh lords after the Edwardian conquest', Cylchg HC v (1970–1), 103–29 (tt. 110–11). Gall mai 'tylwyth' yw ystyr tŷ yma; am enghreifftiau yng ngwaith Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 3.23n.

11 **dwy o lysoedd** Bachymbyd yn Llanynys (ll. 16) yn Nyffryn Clwyd, a'r Rug ger Corwen yng nghwmwd Glyndyfrdwy (ll. 18). Tomas Salbri, mab hynaf Tomas Salbri ap Harri Salbri, a etifeddodd Leweni, tra sefydlodd ei frawd iau, Siôn Salbri, ym Machymbyd. Daeth y Rug yn eiddo i'r teulu pan briododd ei fab, Pirs, tad gwrthrych y farwnad hon, â Marged, merch ac aeres Ieuan ap Hywel, gw. PACF 59, 222. Ailgodwyd y cartref ym Machymbyd yn 1666, gw. Edward Hubbard,

The Buildings of Wales: Clwyd (Harmondsworth, 1986), 247–8. Cynigir disgrifiad cyfoethog iawn o'r adeiladu a fu yn y Rug yn yr 16g. (a gw. llau. 49–50 isod) yn y cywydd a ganodd Rhisiart o'r Hengaer i Robert Salbri, gw. Pen 91, 26:

adeiliaist draw dal ystryd
 adail ywch i del iechyd
 kerfio main korfav am wydd
 krest dan ia kroystai newydd
 tyrs gwnion yn nwyfron allid
 tyrav fal tor y felalld
 manerav yn minio oerwynt
 draw n i gwaith a dry n y gwynt
 nevadd a main nadd i mvr
 newydd wrth nevadd arthvr.

- 12 Bu BL Add 14966 ym meddiant Twm o'r Nant, a defnyddiodd y llinell hon yn un o'i gywyddau ei hun. Dyma a oedd gan Thomas Parry i'w ddweud amdani: 'Wele eto linell sengl am Hugh Hughes Llwyd, Gwerclas, a fu farw yn 1788, na luniwyd yn yr iaith Gymraeg erioed ei chadarnach', gw. *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 1935), 127. Ceir testun hylaw o'r cywydd yn *Canu Twm o'r Nant*, gol. Dafydd Glyn Jones (Pont-y-pŵl, 2010), cerdd 28.
- 18 **Glyndŵr** Cwmwd Glyndyfrdwy sy'n lled-gyfateb o ran ei ffiniau i gwmwd Edeirnion, gw. WATU 63, 77. Ond yr oedd cyswllt gwaed rhwng Robert Salbri ac Owain Glyndŵr, gw. GLMorg 83.51n. Bu'r cyswllt â'r tywysog yn destun balchder i Risiart o'r Hengaer drachefn: *rhyw Owain wyd rhoi vn wedd / glyn dwr o galon dewredd*, gw. Pen 91, 26.
- 19 Gŵr ifanc oedd Robert pan fu farw, yn ôl Gruffudd Hiraethog: *Och sôn achos a henwir, / Achos hyn na chái oes hir*, gw. GGH 90.49–50. Gellir cynnig bod y cwpled hwn yn ategu'r ffaith honno, ond tebycach mai cyfeirio at oedran Robert pan ddaeth yr ystad i'w feddiant a wna Raff.
- 27–8 **gwŷr Rhuthun ... Dinbech sir** Bu Robert yn siryf Dinbych ac yn ystiwart arglwyddiaeth Rhuthun, gw. GLMorg 83.7n, 31n.
- 29 Y brifodl yn hawlio'r ffurf lafar *genhedleth*.
- 32 Cywasgwyd *Mae ynn un braw*.
- 40 **cyfrodedd** 'Cytundeb, heddwch'. I ddechrau'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodwyd yn GPC 719, ond perthyn yr enghreifftiau cynharaf o *cymrodedd* i'r 14g.
- 42 **trin cyfraith** Cyfeiriodd Lewys Morgannwg hefyd at waith Robert yn rhinwedd ei swydd fel ustus, gw. GLMorg 83.7; JPWM 37, 54.
- 54 **Bachymbyd** Dyma'r ffurf a restrir yn *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol.

Elwyn Davies (Caerdydd, 1975), 12, ond *Bachynbyd* sy'n digwydd yn y tair llgr., gan gynnwys BL Add 31059 sydd yn llaw Rhisiart ap Siôn, Sgorlegan. Defnyddiodd Siôn Tudur y ddwy ffurf fel y tystia'r cynganeddion: GST 143.38 *Fal chwimbren i Fachymbyd*, 141.54 *Bu wych unbardd Bachynbyd*. Ar gyfatebiaeth nb = mb, gw. J. Morris-Jones: CD 224–5.

- 61 **mis Medi** Cf. GGH 90.25–6 *Wedy darfod ei derfyn / Yng ngŵyl Archfihangel wyn*. Ar 29 Medi y dethlid ei ŵyl ef.
- 62 **meistres** Gw. y nodyn brig.
- 82 **y Mastr Siôn** Etifedd Robert Salbri. Ni ddarfu am yr arfer o groesawu'r beirdd wedi dyddiau'r tad. Canwyd cywyddau ac awdlau moliant i Siôn Salbri gan Siôn Tudur, Simwnt Fychan a Wiliam Llŷn, a chanodd y ddau fardd cyntaf ei farwnad hefyd. Ymddengys mai newydd briodi yr oedd pan ymwelodd Wiliam Llŷn â'r cartref adeg y Sulgwyn yn y flwyddyn 1563, gan ei fod yn dymuno *Einioes hir i hon a Sion / I aros plant ac wyrion*, gw. GWLl 53.51–2.
- 90 **Huw ... Pirs** Brodyr Siôn. Fe'u henwir drachefn yn y farwnad a ganodd Gruffudd Hiraethog i'w tad, gw. GGH 90.67.
- 94 **merched Llŷr** Adroddir hanes Llŷr a'i ferched yn BD 26–30.

4

Cowydd marwnad am y mastr Ifank mab ac aer Syr Sion ssalbri marchoc lleweni o waith Raff ap Robert yw'r darn hwn, yn ôl BL Add 31059. Mab hynaf ac etifedd Syr Siôn Salbri, Lleweni, a goffeir yma, ac am ei ach gw. WG2 1569–79; L. Dwnn: HV ii, 330–1; PACF 222; ByCyAt 158. Bu farw Syr Siôn yn 1578, ond bu farw ei fab ddeuddeng mlynedd ynghynt, yn 1566. Gwaelodd yn sydyn a lluniodd ei ewyllys yn fuan wedyn ar 10 Mai. O fewn llai na deufis yr oedd wedi ei gladdu. Fe'i marwnadwyd gan Raff ap Robert, a hefyd gan Huw Ceiriog, Wiliam Cynwal, Siôn Tudur, Simwnt Fychan a Wiliam Llŷn. Orlheinir hanes ei fywyd, ac ymdrinnir â'r cyfnodau a dreuliodd yn astudio yng Nghaer-wynt ac yn yr Inner Temple yn Llundain, yn ysgrif Enid Roberts, 'Siôn Salbri, Lleweni (bu f. 1566)', TCHSDd 19 (1970), 66–102. Yn ôl Enid Roberts, 'Bu farw'n ifanc, cyn cyrraedd pump ar hugain oed efallai, heb etifeddu ei dreftadaeth na chael cyfle i ennill llawer o amlygrwydd' (td. 67). Fe gofir amdano yn bennaf am mai ef oedd gŵr cyntaf Catrin o Ferain (*Cymar ... y Meistres Catrin*, llau. 15–16).

Cofnodwyd y marwnadau i Siôn yn y llawysgrif y dechreuodd Wiliam Cynwal ei llunio yn 1570 ar gais Catrin o Ferain, a gwelir bod y testun sydd yn y llawysgrif hon, sef LIGC 6496C, yn rhagori rhyw gymaint ar y lleill.

13 *f*led-lafarog.

16 **y Meistres Catrin** Gw. y cofnod yn CLC²93 a'r cyfeiriadau yno.

17 **gwisgaw** Berf anghyflawn, a *mwrrai* yn ll. 18 yn wrthrych iddi. I'r 17g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o drin *gwisgo* yn ferf gyflawn ac iddi'r ystyron 'treulio, edwino', gw. GPC 1671.

27 **Uwch Elwy** Nid yw Uwch ac Is Elwy yn diriogaethau gweinyddol ac nis rhestrir yn WATU 218–19. Lluniwyd yr enw ar ddelw enwau cymydau megis Uwch Aeron ac Is Aeron, Uwch Aled ac Is Aled, lle y disgrifir y diriogaeth ar sail ei pherthynas ag afon. Ymuna afon Elwy ag afon Clwyd nid nepell o Lanelwy.

32 *r* wreiddgoll.

34 *r* berfeddgoll.

38 **heleth** Y brifodl yn hawlio'r ffurf lafar.

51 **y Triael** Nudd, Mordaf a Rhydderch oedd y tri gŵr hael, gw. TYP³ 5–7, er bod lle i gredu bod y cyfeiriadau at y cyntaf, Nudd, yn fwy lluosog na'r cyfeiriadau at y ddau arall, gw. A. Cynfael Lake, 'Y Tri Hael: rhai ystadegau', *Dwned*, 8 (2002), 87–98.

61 **y gŵr ofer** Adda, cymar Efa.

72 **wyrion** Wyrion Syr Siôn Salbri, a meibion Siôn Salbri a Chatrin, sef Tomas a Siôn a enwir yn y cwpled sy'n dilyn.

74 **Sawl** Sawl, brenin Israel, gthg. 8.76n. Cyfeiriadau canmoliaethus a geir ato yn y cywyddau er ei fod yn enwog am ei fyrbwylltra, gw. Geir Beibl 1269–70. Ond yr oedd ei ddewrder a'i filwriaeth yn ddjarhebol hefyd, gw. 1 Samuel 14.47 *Felly y cymerodd Sawl y frenhiniaeth ar Israel; ac a ymladdodd yn erbyn ei holl elynion oddi amgylch, yn erbyn Moab, ac yn erbyn meibion Ammon, ac yn erbyn Edom, ac yn erbyn brenhinoedd Soba, ac yn erbyn y Philistiaid: ac yn erbyn pwy bynnag yr wynebodd, efe a orchfygodd.* Cyfosodir Sawl ac Arthur yn un o gywyddau Gutun Owain, gw. GO XVII.14, a dichon mai Sawl, brenin Israel, sydd dan sylw eto, er bod y golygydd yn barnu yn wahanol.

78 Cyfatebiaeth caled a meddal $g = c$.

79 **dau ros gwynion** Ni pherthyn arwyddocâd herodrol i'r trosiad gan mai llew a ddarlunnid ar arfbais y Salbriaid, gw. DWH ii, 515–18.

88 Cynghanedd groes o gyswllt ewinog, yr unig un o'i bath yng nghanu'r bardd.

urddau eglwysig. Ei frawd, Syr Gruffudd, oedd person Clocaenog (ond nis enwir yn D.R. Thomas: HDStA ii, 70), a bu ei daid o du ei fam, Syr Siôn, yn berson Llanynys, gw. WG2 340. Daliai ei gyfylder, Syr Huw ap Dafydd ab Einion Fychan ap Tudur ab Iorwerth Sais, reithoriaeth Mallwyd yn 1527, ac ef oedd person Llangwm rhwng 1521 ac 1537, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 166. A barnu wrth dystiolaeth cywydd Raff, yr oedd Wiliam Llwyd yntau, mab yr archiagon, mewn urddau eglwysig. Daliai Edward archiagoniaeth Caerfyrddin rhwng 1509 ac 1535: ‘instituted Archdeacon of Carmarthen 8 June 1509, on ye death of ye last incumbent’, gw. Edward Yardley, *Menevia Sacra*, ed. Francis Green (London, 1927), 209. Anodd rhoi cyfrif am bennawd y cywydd yn BL Add 31056: *Marw nad am archiagon meiri*[nydd oedd yn trigo yn i blas yn y llanynys.

Yr oedd Edward wedi ei benodi yn archiagon pan ganodd Tudur Aled iddo, gw. TA cerdd LXII. Awgryma Tudur ymhellach ei fod yng ngwasanaeth yr Herbertiaid: *Siaplen wyd, Siôb blaeneudir, / Syr Edwart, i Herbart hir*, gw. *ib.* llau. 29–30. Y mae’n bosibl mai Syr Rhisiart Herbert, Trefaldwyn (m. 1539), oedd hwn. Yr oedd ef a’i dad, Syr Rhisiart Herbert, Colbrwg (m. 1469), a barnu wrth dystiolaeth y beirdd, yn ‘hir’ neu yn dal, gw., e.e., GSC 21.1: *Pwy’n iarll hir, pen yr holl iaith*. Yr oedd Syr Rhisiart Herbert yn ŵr amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru yn negawdau cynnar yr 16g. Yn arglwyddiaethau Trefaldwyn, Ceri a Chedewain y gweithredai yn fwyaf arbennig, ond bu hefyd yn ddirprwy stiward arglwyddiaeth Dyffryn Clwyd yn ysbeidiol rhwng 1521 a 1533, ac y mae’n ddichonadwy y byddai Edward ap Siôn wedi cael achlysur i’w wasanaethu, gw. W.R.B. Robinson, ‘Sir Richard Herbert (d. 1539) of Montgomery: Part 2’, *Mont Coll* 88 (2000), 1–24. Bu Edward Thelwal, tad Rhisiart a gyfarchwyd mewn awdl foliant o waith Raff, yntau, yn dirprwyo ar ran Rhisiart Herbert (gw. cerdd 1), a phan ddaeth cyfnod stiwardiaeth Rhisiart i ben fe’i holynwyd gan Birs Salbri a’i fab Robert, y Rug (gw. cerdd 3).

6 Cyfatebiaeth $n = m$ neu n wreiddgoll. Am enghreifftiau eraill, cf. 20.4, 29.12, ond gellid diwygio *A’ m pen iau yma pan oedd*.

7 **Siôn** Crybwyllir tri o hynafiaid uniongyrchol Syr Edward yn y cwpled sy’n dilyn, a thebyg, felly, mai ei daid o du ei fam sydd dan sylw yma, sef Siôn ap Gruffudd Goch (ll. 25) ab Ieuan. Nid hwn oedd y Siôn ap Gruffudd a oedd yn berson Llanynys yn 1561, a Siôn Fychan ap Gruffudd ap Rhys a ddaliai’r swydd yn 1533, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 109–10. Enwir hynafiaid Edward o du ei fam drachefn yn y cywydd a ganodd Tudur Aled iddo.

10 **Ierwerth** Iorwerth Sais yn yr ach uchod, ac y mae’r gynghanedd o blaid yr enw, ond Ifan a gofnodwyd yn BL Add 31056, sef enw taid Edward. Ond enwyd ef ym mraich gyntaf y cwpled.

- 11 **naturieth** Y brifodl yn hawlio'r ffurf lafar. Yn y lle cyntaf cofnodwyd *natvriaeth* yn BL Add 31059 ac yn Pen 121, ond yna sylweddolodd y copiŵyr fod rhaid wrth y ffurf lafar, ac fe'i diwygiwyd.
- 14 **Owain** Priodasai Ieuan ap Tudur ag Elen, merch Tudur ab Owain Fychan ab Owain Hen ap Gruffudd ... Owain Brogyntyn, gw. WG1 47, 49.
- 19 Bai proest i'r odl.
- 24 Cofnodwyd y ddau air cyntaf mewn tair ffordd wahanol: *o nod / o nad / y nad*. Diwygiwyd y gair cyntaf er mwyn gwella'r ystyr.
- 46 **dirnad** *Dir* 'enbyd, aruthr', gw. GPC 1030, + *nâd*.
- 49 **borau** Gw. GPC 301–2; DG.net 146.17, 153.41. Am enghraifft arall o'r ffurf yn y canu, gw. 63.1 lle y digwydd *borau* yn safle'r brifodl mewn englyn unodl union. Cf. hefyd GSC 18.55–6.
- 52 **arwyl degach** Cyffredin oedd treiglo'r ansoddair cymharol mewn gosodiad negyddol, ond digwydd y treigladd hefyd mewn gofyniad y disgwylir ateb negyddol iddo, cf. 1.66n.
- 72 **Syr Wiliam** Un o feibion Edward. Ymddengys ei fod yntau mewn urddau eglwysig.
- 87–8 **Edward ... Llwyd** Etifedd Edward ap Siôn. Ar ei ran ef y canodd Raff y farwnad i'r telynor Siôn Erch, gw. cerdd 7, a phrawf y cywydd hwnnw fod Edward yn fardd ac yn gerddor medrus. Fe'i marwnadwyd gan Siôn Tudur, a chan Wiliam Llŷn, gw. nodyn brig cerdd 7.

6

Ceir testun hylaw, ond annibynadwy, o'r marwnadau a ganwyd i Dudur Aled yn TA 725–52. Am drafodaeth ynghylch dyddiad marw Tudur, a'r dirgelwch ynghylch pa un a fu farw yn gyntaf, ai Tudur ai ei noddwr, Syr Rhys ap Tomas, gw. GLMorg cerdd 93 a'r nodiadau.

- 16 **Adda Fras** Y bardd a'r brudiwr, gw. CLC² 8. Cyffelybir Tudur i feirdd enwog o'r gorffennol na wyddys rhyw lawer amdanynt yn rhai o'r marwnadau eraill. Fe'i huniaethir â Gwion Bach gan Ruffudd ab Ieuan, gw. TA 726, â Thydai Tad Awen yng nghywydd Huw ap Dafydd, gw. GHD 15.27–8, ac ag Edyrn Dafod Aur yng ngherdd Siôn ap Hywel, gw. GSH 11.47–8.
- 19 **cadair** A gw. ymhellach ll. 62 *Caewyd ar fardd cadair fyth*. Yr oedd Tudur yn fardd cadeiriog cyn yr eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn 1523. Dywedir mai trwy *gynrychol gyghor* Tudur a Gruffudd ab Ieuan, *beirdh caderioc*, y gynhaliwyd yr eisteddfod honno, gw. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 25–33,

ac yno Tudr Aled a ganhiadwyd ac a gonffyrmied yn athro kaderioc I arwain ariandlws val iroedd Er pann I kymerassai dann I berygl iw dwyn or lle iroedd. Gw. hefyd D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys 1523 a 1567/8', LICy 2 (1952–3), 129–34. Cf. hefyd y modd y disgrifir Tudur yn yr englyn marwnad hwn o waith Robert ap Gruffudd ap Madog nas cyhoeddwyd yn TA: *marw vu nenn a phenn y ffair oedd odieth / na ddyweded nep air / ynvydion coegion y cair / beirdd gwedy bardd y gadar*, gw. Pen 77, 318.

- 21 **dysg** Eg. yma ond gall fod yn eb. hefyd, gw. GPC 1148.
n wreiddgoll.
- 22 **athrawdysg** 'Dysg athro barddol, dysg farddol', gw. GPC² 530. O gywydd Raff y daw'r enghraifft gynharaf a ddyfynnir.
- 24 **cadwynog** 'Yn cyfodli bob yn ail linell', gw. GPC 381–2.
- 27 **cyrrydd** Gw. 14.1n.
- 33 **ffrydu** 'Llifo, llifeirio', gw. GPC 1321, ond i'r flwyddyn 1567 y perthyn yr enghraifft gynharaf. Dilynwyd orgraff y llsgrau., ond gellid a *phrydu*; ar *prydu* 'prydyddu, barddoni', gw. GPC 2916, er bod *ffirwd* (ll. 33) a *ffons* (ll. 34) yn awgrymu mai'r ystyr gyntaf a fwriadwyd.
- 38 **o'i cennym** Awgryma'r llsgrau. mai un o ffurfiau *canu* sydd yma, ond os felly disgwyliid y ffurf 1 ll.amhff.myn. *canem*. Tebycach mai ffurf 1 ll. yr ardd. *can*, sy'n amrywiad ar *gan*, sydd yma. Digwydd yr un ffurf yn un o gywyddau Wiliam Llŷn, gw. GWL 84.83–4 *Ban oedd fyw, bu'n noddfa ym, / Yr oedd canu hardd cennym*, a cf. y ffurf 2 ll. *cennwch* yn *ib.* 19.99–100 *Aeth cân diogan, degwch—diddanu, / Yn ôl y canu yn wylo cennwch*.
- 45 **llwyd** Tebyg mai 'penllwyd' yw'r ystyr, disgrifiad sy'n awgrymu oed teg Tudur pan fu farw, gw. GPC 2239, ond yng Nghwrt y Brodyr Llwydion yng Nghaerfyrddin y treuliodd Tudur Aled ei ddyddiau olaf, a galwodd nifer o'i farwnadwyr sylw at y cyswllt ag urdd San Ffransis, gw., e.e., GLMorg 93.73–4 *Ei frawd, a'i fardd fry ydyw, / A ffryns i Sain Ffrawnses* yw. Gw. ymhellach Eurig Davies, 'Cartre i brydydd, Cwrt Brodyr', *Y Faner*, 24 Mai 1985, 14–15.
- 50 **Syr Siôn** Mab Tudur. Cyfeirir ato drachefn (ond heb ei enwi) yn yr englynion marwnad a ganodd Owain ap Gruffudd ap Dafydd i Dudur, gw. TA 752 *Od aeth Tudur bur i'r bedd, / O'i gladdiad, mae prelad prudd*. Nid enwir Syr Siôn yn y farwnad a ganodd Huw ap Dafydd i Dudur, gw. GHD cerdd 15, ond canodd gywydd moliant iddo, a hynny, o bosibl, rhwng Tachwedd 1530 a Rhagfyr 1531, rhwng marwolaeth yr esgob Thomas Wolsey a phenodi ei olynnydd, ac felly yn weddol fuan wedi marw ei dad, fel yr awgryma'r llinell *Bwrdd tâl am y bardd wyt ti* (GHD 14.12), gw. Cledwyn Fychan, 'Dau o feibion Tudur Aled',

Cylchg LIGC xx (1977–8), 204–5. Canmolir Syr Siôn ar gyfrif ei *lynaets*, sef ei linach, a thelir teyrnged i'w ddysg trwy ei gyffelybu i bedwar o dadau cynnar yr eglwys, sef Sierôm, Awstin, Ambros a Grugor. Fe'i cysylltir â Llansannan yng nghywydd Huw ap Dafydd: *Cerai's Yniwl côr Sannan* (GHD 14.42), a gwyddys i Siôn ddal ficeriaeth y plwyf rhwng 1522 a 1537, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 57. Fe'i henwir mewn dofen gyfreithiol, dyddiedig 1520, pan gafodd brydles ar denement a thiroedd yn nhreddegwm Penglogor, Llansannan, a thystia dogfen arall ei fod yn dal ar dir y byw yn 1554. Dangosodd Cledwyn Fychan mai brodor o Iâl oedd Tudur, a bod lle i gredu mai cyswllt ei fab â'r plwyf a esgorodd ar y gred mai o Lansannan yr hanai, gw. 'Tudur Aled: ailystyried ei gynefin', Cylchg LIGC xxiii (1983–4), 45–74. Yr oedd gan Dudur fab arall; Rhosier oedd ei enw ef, ac enwir ei ferch, wyres Tudur, mewn dogfen sy'n ymwneud â rhentu tir yn Rhuthun, gw. Melville Richards, 'Mab Tudur Aled', Cylchg LIGC xiii (1963–4), 196.

siars Gellid yr ystyr 'gofal, cyfrifoldeb', gw. GPC 3264, h.y. y mae enaid Tudur bellach yng ngofal y prelad, ond er mai'r ymadrodd *ar siars* sy'n digwydd yn llsgrau. AG, *rhag siars* a gofnodwyd yn y lleill, a thebyg mai'r ystyr yw fod Siôn Aled yn gweddïo ar ran enaid ei dad ac felly ni fydd angen i unrhyw un arall dalu er mwyn sicrhau bod enaid Tudur yn cael rhwydd hynt ar ei ffordd trwy'r purdan i'r nefoedd. Cofnodir yr ymadrodd *siars eneidiau* yn GPC 3265, ac y mae'n ddiddorol fod Huw ap Dafydd yn galw Syr Siôn Aled yn *siars eneidiol* (GHD 14.33).

- 60 **Catwn Hen** Dionysius Cato, a adwaenid yn Gymraeg wrth yr enw Cato neu Cado Hen. Yn ôl un o'r Trioedd, Cado Hen, Beda a Sibli Ddoeth oedd y tri a gafodd ddoethineb Adda, gw. TYP³ 135, 297.
- 61 **tu rheswm** Tebyg mai *tu* ac nid *tŷ* a gofnodwyd mewn pum llsgr. sy'n taro orau.
- 63 **Hiraddug** '... y mae Dafydd Ddu o Hiraddug yn ffigur pur bwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg ar gyfrif ei fersiwn o'r gramadeg barddol. Ychydig, fodd bynnag, sy'n hysbys am ei fywyd', gw. GEO 103. Y mae lle i gredu ei fod yn hanu o drefgordd Hiraddug yng nghwmwd Rhuddlan a'i fod yn ei flodau yn hanner cyntaf y 14g. Achosodd ei enw gryn drafferth i'r copïwyr. Fe'i cofnodwyd yn gywir yn llsgrau. CFH a'i gamddeall yn llwyr gan gopïwyr BE. Nid yw hi'n gwbl amlwg a sylweddolai copïwyr ADG fod yma gyfeiriad at Ddafydd Ddu am iddynt hollti'r enw *Hiraddug*.
- 67 **drysiant** Dyfynnir y cwpled yn GPC 1096, a rhoddir i *drysiant* yr ystyron 'dryswch, penbleth, cyfyng-gyngor'. Ond cyfarch Angau a wna Raff yn y llau. hyn, a mwy priodol o'r herwydd fyddai ystyr megis 'caethiwed, yn ffig. cosb'.

71 **anudonaidd** ‘Euog o anudon neu o gamdystiolaeth ar lw’, er y gweddai’r ystyr fwy cyffredinol ‘twyllodrus’. I ddiwedd yr 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir yn GPC 160, a thrachefn yn GPC² 376, ond yr oedd y ffurfiau ansoddeiriol *anudonol* ac *anudonog* yn cael eu harfer cyn gynhared â’r 13g. Dyma air arall a barodd ddryswch i’r copïwyr, fel y tystia’r Amrywiadau. Er nad yw’r holl ddarlenniadau yn llsgrau. AG yn rhai dibynadwy, hwy yn unig a lwyddodd i gofnodi’r ymadrodd hwn.

n wreiddgoll.

73 **dieneidiwr** Cofnodwyd y ferf *dieneidio* ‘amddifadu o fywyd, lladd’ yn GPC 974, ond ni chofnodwyd yr enw *dieneidiwr* ‘llofrudd, lladdwr’.

71–4Ni ddigwydd y ddau gwpled hyn yn y testun a olygwyd gan T. Gwynn Jones er eu bod yn y llsgrau. a ddefnyddiwyd ganddo, gw. TA 743–5.

7

A barnu wrth dystiolaeth y cywydd, telynor oedd Siôn Erch a goffeir yma: *cleiwich delyn* (ll. 14), *Ni bu ’n y gerdd neb yn gwau / Plethiad hwn plith y tannau* (llau. 65–6). Ysywaeth, ni lwyddwyd i daro ar unrhyw gyfeiriad at y gŵr hwn. Ni restrir ef ymhlith graddedigion yr ail eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn 1567, gw. D.J. Bowen, ‘Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8’, LICy 2 (1952–3), 129–34, ac nid enwir ef ychwaith yng nghywydd Siôn Tudur ‘Marwnad y Gwŷr wrth Gerdd’, gw. GST cerdd 140. Dygodd Siôn Tudur i gof un ar hugain o wŷr wrth gerdd yn y cywydd a luniodd oddeutu 1574, pedwar bardd, saith crythor a deg telynor, ond nid yw Siôn yn eu plith. Awgryma Raff fod bwlch mawr yn Nyffryn Clwyd ar ei ôl (*Gwael iawn yw clêr glannau Clwyd* ll. 16), ac y mae’n bosibl mai brodor o’r gogledd-ddwyrain ydoedd er bod ei enw yn awgrymu y gallai fod yn hanu o Aber-erch ym mhlwyf Llannor ym Mhenrhyn Llŷn.

Yn ôl y pennawd yn BL Add 31059, *Cowydd marwnad am Sion Erch Raff ap Robt dros Edwart llwy[] lann ynys, yr hwinn Sion oedd athr[] gerdd delyn i Edwart llwyd*. Y mae’n amlwg mai Edward sy’n llefaru yma: *Llawnder tost, llawn, Edwart, wyf, / Llwyd, o’i alar lle delwyf* (llau. 21–2), a cheir cadarnhad hefyd mai Siôn oedd athro telyn Edward Llwyd: *F’ysgol oedd fwsig o’i law* (ll. 27). Yr oedd Edward yn fab i Edward ap Siôn o Lanynys, archiagon Caerfyrddin. Canodd Raff farwnad i’r tad, gw. cerdd 5 uchod, a lluniodd Siôn Tudur farwnad i’r mab, gw. GST cerdd 87. ‘Yn ogystal â bod yn wŷr dysgedig y mae’n amlwg oddi wrth y llinellau hyn fod Edward Llwyd yn feistr ar gerdd dafod a cherdd dant. Y mae’r darn yn frith o ymadroddion y beirdd am eu crefft ac o dermau technegol’, gw. *ib.* GST ii, 311 a llau. 69–76:

Cadarn ar bob cainc ydoedd,

Cof ar ddysg, cyfarwydd oedd.
 Pob plethiad, pob tyniad tant,
 Pob cordiad, pob cywirdant,
 Pob profiad, cywiriad call,
 Pob llais ir, pob lles arall,
 Pob cnot ir, pob caniad teg,
 Pwy bu gystal pob gosteg?

Yr oedd Wiliam Llŷn yn un arall a luniodd farwnad i Edward Llwyd, gw. GWLl cerdd 106, a hynny yn ôl pob tebyg yn y flwyddyn 1559 (td. 729). Camarweiniol yw'r pennawd a'r dyddiad yn WLl cerdd LXXXV *Cowydd Marwnad Archiagon Caerfyrddin o Lasynys [sic] 1599*, fel y nododd y golygydd yn *ib.* 322. Talodd Wiliam Llŷn, yntau, deyrnged i ddoniau'r cerddor a gollwyd, ac i'w awen: *Gardd lân o gyff gwyrddlwyd gwawd, / Gardd a dyfai'n gerdd dafawd* (llau. 19–20). Priodolir tair cerdd ar ddeg i Edward Llwyd o Lasynys [sic] yn MFGLl 720, yn englynion ac yn gywyddau, ond ni all mab yr archiagon hawlio pob un o'r rhain gan fod y dyddiadau 1633 a 1684 wrth ddau o'r englynion. Y mae'n bosibl mai ei waith ef yw'r *kowydd i Niclas Pilstwn o wrexam ap Sion Pilstwn i erchi Bwklled i Edward llwyd* a ddiogelwyd yn Pen 112, 594, a diau mai ei waith ef yw'r pedwar cwpled o gywydd moliant coll i Syr Siôn Salbri a ddyfynnwyd gan Henri Perri yn *Egluryn Ffraethineb* (adargraffiad, Caerdydd, 1930), 12 a 61 (*Ed. Lh. o lan Ynys i S. Io. Sal. bharchog*). Ni restrir y darn hwn yn MFGLl 720.

8 Y mae'r llinell yn fwy ystyrlon o dderbyn mai *Ym maen ei gwsg...* sydd yma yn hytrach na chywasgiad o *Y mae yn ei gwsg...*, sef yr hyn a gofnodwyd mewn tair o'r llsgrau., ond awgryma darlleniad LIGC 644B y geill yr hyn sydd yno fod yn llwgr. Gellid aralleirio'r llinell fel hyn: 'y mae ei gwsg mewn maen / dan faen mewn uniad'.

20 **llaw Dduw** Ar y treigladd cyffredin i e.p. genidol yn dilyn eb., ac yn achlysurol ar ôl eg., gw. Treigladdau 106–7.

23 **can** Fe'i cyfrifir yn gysylltair yma, ond gallai fod yn enw. Galwodd D.J. Bowen sylw yn LICy 12 (1972–3), 122, at enghreifftiau o drin *cân* fel pe bai yn eg. yng ngwaith Gruffudd Hiraethog, a chyfeiriodd hefyd at enghraifft ddiamwys o'r 14g. yng nghywydd Dafydd ap Gwilym i'r Dylluan: *Och o'r cân uwch aerwy coed*, gw. DG.net 61.30; GDG 26.30.

33 *n* wreiddgoll.

36 **Ystwyll** Ar 6 Ionawr y dethlir yr ŵyl hon, ac ar ôl y dyddiad hwn felly y bu farw Siôn Erch. Ar 25 Mawrth y dechreuai'r flwyddyn yn swyddogol yn Lloegr a Chymru hyd at y flwyddyn 1752 pan fabwysiadwyd calendr Grugor. Pan ddywed y bardd *Nid llai heddiw briw i'm bron / No'r llynedd...* (llau. 41–2 isod), awgryma hynny mai rywbyrd ar ôl 25 Mawrth y canwyd y cywydd marwnad; byddai'r Ystwyll yn perthyn i'r

flwyddyn flaenorol.

42 *r* berfeddgoll.

73 **cefais** Dilynwyd darlleniad y llsgrau., ond gellid mabwysiadu ffurf 3 un.grff. a diwygio *cefais* yn *cafás*, ffurf sy'n digwydd yn y cwpled blaenorol. Cafodd Duw feddiannu dysg Siôn ond yr atgofion amdano yw unig waddol Edward Llwyd.

8

Y cywydd duwiol hwn yw cyfansoddiad mwyaf adnabyddus Raff ap Robert, a diau fod a wnelo hynny â'r pwnc. Fe'i diogelwyd mewn 33 ffynhonnell, a chopiwyd tri o'r testunau pwysicaf, sef Card 2.114, LIGC 3037B a Pen 93, yn ail hanner yr 16g. Er mor niferus ydynt, gwelir bod mesur helaeth o gysondeb rhwng y copiâu, o ran trefn y llinellau ac o ran y darlleniadau. Fodd bynnag erys rhai gwahaniaethau pwysig. Gwelir ambell ddarlleniad llwgr yn Card 2.114 a LIGC 3037B, er enghraifft *yn wiail* (am *anifail* ll. 12) yn y cyntaf, a *rhedeg* (am *rhediad* ll. 62) yn yr ail. At hyn collwyd un cwpled yn LIGC 3037B (llau. 71–2), cwpled a ddiogelwyd ym mhob ffynhonnell arall. Collwyd wyth cwpled yn nhestun Pen 93 (ac yn Llst 156 sy'n ei ddilyn yn ffyddlon)—y rhan fwyaf ohonynt yn rhan olaf y cywydd, ond ymgorfforwyd tri chwpled arall nas ceir yn y ffynonellau eraill ar ôl ll. 54. Ychwanegwyd y rhain mewn bwllch ar y ddalen gan law ddiweddarach, fel na ellir bod yn gwbl sicr eu bod yn perthyn yn wreiddiol i gywydd Raff. Er bod y fersiwn hwn yn fyrrach yr un yw trefn y llinellau. Y mae Pen 89 sydd yn llaw Siôn Phylib (m. 1620), yntau, yn gopi cynnar. Cynnwys y testun hwn sawl darlleniad unigryw: *Dwys fraint i baradwys fro* (ll. 19) a *Fo yrrai gwaith Efa'r gŵr* (ll. 21). Dilynwyd y darlleniadau hyn mewn grŵp o lawysgrifau, gan gynnwys BL Add 31058, Card 2.202, LIGC 2692B, a LIGC 7191B. I'r grŵp hwn y perthyn pedair llawysgrif arall na chofnodwyd eu hamrywiadau, sef BL Add 14888, Card 4.156, CM 40 a Pen 241. Nodwedd arall ar y grŵp hwn yw'r cwpled sydd yn eisiau (llau. 17–18). Ymddengys fod copiwr Pen 89 yn ymwybodol fod ei destun yn ddiffygiol am iddo adael bwllch bychan rhwng llau. 16 a 19.

1–2 Cofnodwyd y cwpled cyntaf yn y rhestr a luniodd John Jones, Gelli-lyfdy, o'r cerddi a gopiwyd ganddo yn ei lyfrau, gw. Pen 221, 149: *Pwy yw r gwr ar power i gyd / piav bvchedd pob iechyd*. Nid oedd y cywydd yn y llsgr. goll a ddisgrifiwyd gan M.T. Burdett-Jones, gw. 1.1–2n.

7 **crededun** Amrywiad *credadun* 'credadwy, cywir, ffyddlon', gw. GPC 585. Dyma ddarlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau., ond ffurf ferfol a gofnodwyd yn Pen 93: *Gair Duw ydoedd a gredyn*'.

8 **gardd** Anodd dewis rhwng *gardd* a *gradd*. Y mae tystiolaeth y llsgrau.,

- gan gynnwys Card 2.114 a LIGC 3037B, o blaid y cyntaf ond *gradd* a gofnodwyd yn Pen 93. Hawdd tybio mai *gradd* yw'r darlleniad dilys ac i hwnnw gael ei newid yn *gardd* o dan ddylanwad y geiriau *had* a *gwraidd* yn yr un llinell. Ond y mae *gardd* yn ystyrllon, a diau mai cyfeiriad sydd yma at yr ardd a luniodd Duw yn Eden, gw. Genesis 2.8.
- 9 Gellid *O'r had hwn y rhoed deunydd* gan ddilyn Pen 93.
- 18 **ar wedd** Gellid *arwedd* 'ffurf, llun, gwedd', gw. GPC 213, ond ategir darlleniad Pen 93, sef *arwydd*, gan sawl ffynhonnell hefyd. *Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun*, gw. Genesis 1.27.
- 20 **berhôn** 'Er, er gwaethaf', gw. GPC 2784–5. Y mae'r gynghanedd yn hawlio'r ffurf dreigledig ar ddechrau'r llinell, cf. GDID IX.13–14 *Berhôn i'r tafawd wawdrydd / Adaw ei frawd ...*
- 23 **dan un** 'Gyda'i gilydd, yr un pryd, yn sydyn; yn barhaol', gw. GPC 3437.
- 23–4**torri ... y gorchymyn** *A'r Arglwydd Dduw a orchmynnodd i'r dyn, gan ddywedyd, O bob pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta: Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta ohono; oblegid yn y dydd y bwytei di ohono, gan farw y byddi farw*, gw. Genesis 2.16–17.
- 26 **sïot** Tâl am ddiiod mewn tafarn fel arfer, a barnu wrth yr enghreifftiau a restrwyd yn GPC 3290, ond yn ffig. yma am y tâl, neu'r gosb, a ddeuai i ran Adda a'i hil.
- 27 **dan y rhod** I ail hanner yr 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf o'r priod-ddull a restrir yn GPC 3084. Awgrymir bod yr ymadrodd yn cyfateb i *is y rhod* 'under the sun', a cf. Genesis 3.23–4 *Am hynny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i lafurio'r ddaear, yr hon y cymerasid ef ohoni. Felly efe a yrrodd allan y dyn, ac a osododd, o'r tu dwyrain i ardd Eden, y ceriwbiaid ... i gadw ffordd pren y bywyd.*
- 30 **bradwfyd** Ni chofnodwyd y darlleniad hwn yn yr un o'r llsgrau., ond cynigir mai *bradw* 'treuliedig, drylliog, brau', gw. GPC 304–5, yw'r elfen gyntaf ac nid *brad*. Am fod yr *w* yn *bradw* yn ansillafog, camgofnodwyd yr hyn a drosglwyddwyd ar lafar. Ond ystyrllon hefyd yw *bradfyd* 'byd twyllodrus'.
- 33–4**pridd ... pridd** Y mae'r cwpled yn ystyrllon fel y saif. O bridd y lluniwyd Adda, gw. Genesis 2.7 *A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear*, ond ei dynged wedi iddo brofi'r ffrwyth a waharddwyd iddo fyddai dychwelyd i'r ddaear, *canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli*, gw. Genesis 3.19. Gellid *A'u troi'n brudd ... yn ail fraich y cwpled, gan ddilyn y darlleniad a gofnodwyd mewn saith llsgr., a LIGC 3037B yn eu plith. Mwy mentrus fyddai diwygio ail ran y fraich gyntaf yn obrudd ennaint. Ar gobrudd* 'godrist, prudd', gw. GPC 1419. Mewn un llsgr. yn unig yr awgrymir bod y darlleniad hwn yn ddichonadwy.

37 **dau Addaf** Crist yw'r ail Adda, cf. 1 Cor 15.22, 45.

37–42 Dyfynnwyd y llinellau hyn yn *Flores Poetarum Britannicorum* (Y Mwythig, 1710), 1, a'u priodoli i Raff. Dyma'r dyfyniad cyntaf yn y gyfrol. Dyfynnwyd llau. 65–6 o'r cywydd hwn yn yr un gyfrol td. 7.

41 **rhag trin angall** 'Rhag helbul neu drafferth annoeth'.

42 **o hwn i'r llall** Anogir y gynulleidfa i ymwrthod â'r Adda cyntaf ac i droi at yr ail, sef Crist.

44 **dêl yma gof** Dilynwyd darlleniad Card 2.114. Ceir sawl amrywiad ar y llinell hon er nad oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt o ran synnwyr.

49 **Anna** Sioachim ac Anna oedd rhieni Mair, yn ôl y gred draddodiadol, gw. NCE i, 558–60.

51 **dug lain nod** Cadw cysefin y goddrych a'r gwrthrych oedd yr arfer yn dilyn y ffurf ferfol 3 un.grff. *dug*, gw. Treigladau 222–3, ond dyfynnir enghreifftiau o dreiglo hefyd.

dug ... y goleuni Delweddwyd y modd y beichiogodd Mair trwy gyfeirio at oleuni ac at belydrau'r haul, gw. Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod* (Caerdydd, 1999), 59–65.

Ceir yma enghraifft brin o groestynnu rhwng y synnwyr ar y naill law a'r gynghanedd ar y llaw arall. Y gair (*g*)*lain* sydd yn safle'r orffwysfa.

54 **prynodd** Llsgr. o'r De yw LIGC 13081B, ac y *brynoedd* yw'r darlleniad a gofnodwyd. Ar y terfyniad *-oedd*, gw. 11.42n.

57 **traeanog** 'Ac iddo dair rhan, wedi ei rannu'n draeanau', gw. GPC 3542–3. Dyma ddarlleniad unigryw Pen 93, a bernir ei fod yn ddilys, ac yn ddisgrifiad o dri o aelodau corff Crist ar y Groes, sef y ddwy fraich ar led a'r coesau. Darlunnid Crist ar y Groes, wedi ei wanu gan dair, dro arall gan bedair hoelen, gw. GLMorg 101.48n.

59 Anodd pennu darlleniad ar gyfer y llinell gan fod dau o blith pedwar gair yn cynganeddu â'i gilydd yn y testunau, sef *gwres* a *gwrs*, a *croes* a *cwrs* yn eu ffurfiau treigledig. Mabwysiadwyd y darlleniad *gwres* ar ddechrau'r llinell (gan ddilyn LIGC 3037B a Pen 93), ond *gwrs* a welir yn nifer o'r testunau a gopiwyd yn ddiweddarach yn ystod yr 17g.

65–6 Gw. 8.37–42n uchod.

71–2 Yn LIGC 3037B yn unig y collwyd y cwpled hwn.

75–6 **mendied ... mal Sawl** Yr Apostol Paul, a adwaenid wrth yr enw Sawl cyn ei dröedigaeth. Adroddir hanes y dröedigaeth honno yn Actau 9. Mynegir yr un syniad yn un o gywyddau Guto'r Glyn, pan glywir yr Abad Dafydd o Lynegwestl yn annog y bardd, *Tro fal Sawl trwy foli saint*, gw. GGI² CXIX.14. Ond Sawl, brenin Israel, a enwir yn y cywydd marwnad i Siôn Salbri, gw. 4.74n.

79 **cwynfan** Gellid *cwynfan* 'cwyn, griddfan, ochenaid', gw. GPC 654:

‘Awn trwy fynegi ein cwyn wrtho ...’, ond cynigir mai gair cyfansawdd *cwyn* ‘cinio, swper; gwledd’, gw. *ib.* + *man* sydd yma. Symbol o lawenydd nefol yw’r wledd y cyfeirir ati.

9

- 7 **dibylwaith** *Di-* + *pŵl* + *gwaith* ‘tra disglair’. Yn LIGC 2030B yn unig y diogelwyd y darlleniad hwn. *Dwblwaith* sydd yn y lleill, a rhaid fyddai cyfrif *dwbl* yn air deusill.
- 21 **odieth** Y mae’r brifodl yn mynnu’r ffurf lafar.
- 27 **dy roi ’n ôl** Diwygiwyd yr ymadrodd er mwyn gwella’r ystyr.
- 28 Twyll gynghanedd *dd*. Gellid cael cynghanedd sain reolaidd o gyfrif *addwyn* yn sillaf dalgron, ond lleddf ydyw yn 3.63–4, 37.1, 3.
- 30 **mugeiliwr** Ffurff ar *bugeiliwr*. Bydd *b* ac *m* yn ymgynwedd yn fynych.
- 43 **angerdd** Rhaid wrth *n.g* o dan yr acen yn hytrach nag *ng* er mwyn sicrhau’r gyfatebiaeth angenrheidiol. Cf. GGI V.49 *P’le cair ungair o’i angerdd*, *ibid.* IX.31 *Ni thraethais, iawngais angerdd*. Sylwer bod ynganiad *cyngyd* (sy’n ateb *c.n.g*) yn rheolaidd yn ll. 41. Cf. 28.1–2n. Dengys yr enghreifftiau a ddyfynnir yn J. Morris-Jones: CD 225–7 mai *an-gerdd* oedd yr ynganiad cydnabyddedig.
- 46 Nid yw’r treigladau sy’n dilyn *llawn* yn un rheolaidd, gw. Treigladau 71. Ond gellid diwygio’r llinell heb amharu ar y gynghanedd, *Gwan wyf, yn llawn gwŷn a llid*.
- 48 **deuddeg** Y deuddeg sy’n ffurfio rheithgor ac a fydd yn pennu ffawd y diffynnydd.
- 50 **cyll** Ar *colli* ‘dinistrio, difetha, difa’, gw. GPC 546.
- 54 **eddyl** ‘Bwriad, arfaeth, diwedd taith’, gw. GPC 1169. Llsg. BL Add 31060 a ddiogelodd y darlleniad hwn. Ni ddisgwyliid i’r a. *maith* oleddfu’r enw *eiddil*, sef darlleniad llsgrau. AB.
- 60 Dilynwyd darlleniad llsgrau. BD, a threfn y llsgrau. hyn a ddilynwyd yn y llau. sy’n dilyn, yr unig ran o’r cywydd lle y ceir anghysondeb o ran y drefn.
- 61 **diburwyd** ‘Puro, glanhau’ fyddai’r ystyr arferol yn oes y bardd, gw. GPC 956, ac yn ddiweddarach y datblygodd yr ystyr negyddol ‘amhuro, halogi, llygru, dinerthu’. Perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir i ddechrau’r 17g., ond dyma’r ystyr sy’n gweddu orau yn y cyd-destun.
- 65 **dyrd** Y mae’r ffurf hon a gofnodwyd mewn tair llsg. yn sicrhau cynghanedd reolaidd ac yn cynnal y cymeriad llythrennol. Am enghraifft arall, cf. GHCEM 5.68 *Dewr wyd a thaer, dyrd o’th hynt*.

10

Y mae'r cywydd hwn o eiddo Raff yn ateb i gywydd o waith Siôn Tudur, gw. GST cerddi 138 a 139 (ateb Raff). Canasai Siôn gywydd i ofyn gŵydd ar ran Rhys Grythor, a daliodd ar y cyfle i ddychanu tiroedd a meddiannau, cartref ac ymborth, y rhoddwr, Robert ap Rhys Gutun. Yn ei ateb cais Raff amddiffyn enw da Robert yn wyneb cyhuddiadau Siôn Tudur:

Tir oer byr, tair erw bach,
 Tair erwig, oes tir oerach? ...
 Ai gwir, y mab a garwn,
 (Gŵr wyt ti heb un gair twn)
 Marw dwyfran, ŵr mawr difri,
 O newyn ar dy dyddyn di? ...
 Mae ichwi blas bras ar y bryn,
 A fu neuadd fwy'i newyn?

(GST 138.7–8, 15–18, 23–4)

Prin yw'r hyn a ddatgelir am Robert ap Rhys yn y ddau gywydd, ond ar sail cywydd Raff gellir casglu fod ganddo diroedd nid nepell o Brestatyn (ll. 48). Fe'i gelwir hefyd yn bencerdd (ll. 35). Gwyddys ei fod yn grythor, a graddiodd yn bencerdd yn ail eisteddfod Caerwys, a barnu wrth ddwy o restrau graddedigion yr eisteddfod honno, gw. D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', *LlCy* 2 (1952–3), 129–34. Dangosodd Enid Roberts iddo farw yn 1571; profwyd ei ewyllys ar 25 Awst y flwyddyn honno, gw. GST ii, 495. Ar sail yr ewyllys gellir casglu bod ganddo eiddo yn Ninbych ac yn Llewesog yng Nghinmeirch, ond ni sonnir am ei gartref ym Mhrestatyn. Yr oedd ei frawd, Siôn ap Rhys Gutun, yntau, yn gerddor, a diogelwyd marwnad iddo o waith bardd anhysbys, er bod Enid Roberts yn argyhoeddedig mai Wiliam Cynwal a'i lluniodd, gw. 'Marwnadau telynorion', *TCHSDd* 15 (1966), 80–117 (tt. 81–5); *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig*, gol. D. Emlyn Evans (Caerdydd, 1890), 107. Yn y cywydd hwnnw nodir bod y Cymry yn gweld eisiau doniau Siôn, ond awgrymir yn ddadlennol fod bwch ar ei ôl yn Lloegr hefyd: *Annifer lawn ofer lu, / Hyll gamraint yw holl Gymru. / Am ei gân ar wasanaeth / Yn Lloegr i wŷr yn llwgr aeth.*

Enwir Siôn ap Rhys Gutun yng nghywydd anghyffredin Siôn Tudur 'Marwnad y Gwŷr wrth Gerdd', ac enw ei frawd Robert yw'r olaf ymhlith yr un cerddor ar hugain a goffeir. Dywedir amdano: *Robert ap Rhys ŵr hybarch, / Rhwydd bwnc, mawr yr haeddai barch, / Aeth i'r nef yn gartrefol, / Ni fynnai hwn fyw'n eu hól*, gw. GST 140.65–8. Enwir Robert ap Rhys a'i frawd Siôn mewn rhestr o feirdd a cherddorion a ddiogelwyd yn LlGC

17116B (c. 1560); cysylltir y ddau â phlwyf Llanddyfnog.¹

Yr oedd Rhys Grythor, neu Rys ap Maredudd, yntau, yn gymeriad pur adnabyddus, a chyfeirir ato mewn sawl cerdd. Ar un achlysur lluniodd Wiliam Cynwal gywydd i Siôn Tudur i erchi cwmni a gwasanaeth Rhys, gw. Rhiannon Williams, 'Wiliam Cynwal', LICy 8 (1964–5), 197–213 (td. 202). A barnu wrth dystiolaeth ei gywydd, yr oedd enw iddo ar gyfrif ei syched ac ar gyfrif ei allu i fwyta: *Yfed yn rhad, a dadwrdd, / O fir byth a fo i'r bwrdd*, gw. GST 136.49–50. Atebodd Siôn Tudur gan gytuno yn anfoddog i roi'r crythor i'w gyd-fardd: *A'r aflwydd, awchrwydd echrys, / I gyd y'i rhof gyda Rhys*, gw. GST 137.89–90. Cyfeirir at y Doctor Elis Prys, Plas Iolyn, yn y cywydd cyntaf, ac mae'n bosib fod y ddau gywydd wedi eu canu ar ei aelwyd er mwyn diddanu'r penteulu. Bu'r ddau gywydd yn bur boblogaidd ac fe'u copïwyd ar sawl achlysur. Canodd Siôn Tudur a Wiliam Cynwal ill dau englynion i Rys Grythor, gw. GST cerddi 253–4; ADWC i, 124.101–4. Yn ail englyn y gyfres a gyhoeddwyd yn GST cerdd 253 (ond a dadogir hefyd ar Rosier y Gwÿdd) digwydd y llinell gofiadwy *Hwff haff, bwff baff, rwff raff Rys*, sy'n cynnwys dwy gynghanedd sain deirodl annibynnol. 'Y mae'r dull yn un digon addas i glymu 'nghyd ryw ebychiadau dynwaredol, fel pan watwarai Siôn Tudur ddadwrdd Rhys Grythor', gw. J. Morris-Jones: CD 170.

Gŵr arall a ganodd iddo oedd Twm Tegid, gw. J 88, 36:

*Twm Tegin to Rys Grythor who had promised him lodgings, but
when in the twilight Rys caused himself to be denied Tom said*

Rhisglin goeg erwin gegrwrth oer yfwr
iwr afanc safnrwrth
Rhys filain gegfain goegfwrth
Rhuw Gna Cryg yn rhygny Crwrth.

Enwir nifer o gerddorion yn y cywydd dychanol a luniodd Gutun Goch Brydydd, a Rhys Grythor yn eu plith, gw. Pen 188, 85: *gwarth i rys Grythor a ai / onys disgwyl nas dysgai*. Diogelwyd nifer o chwedlau am Rys Grythor, gw. GST ii, 491, ac y mae'n bosibl fod a wnelo ei enwogrwydd â'r cerddi niferus a ganwyd iddo. Graddiodd Rhys Grythor yn ddisgybl disgyblaidd yn eisteddfod gyntaf Caerwys ac fe'i henwir drachefn ymhlith graddedigion yr ail eisteddfod. Fodd bynnag, enwir dau Rys Grythor yn y rhestr a ddiogelwyd yn Pen 132, sef Rhys Grythor o Lansannan a Rhys Grythor o Gerrigydrudion, tra enwir Rhys Grythor Hiraethog yn y rhestr sydd i'w gweld yn llawysgrif Wrecsam 1, gw. D.J. Bowen, *op.cit.*; GST ii, 490–1. Y mae'n bosibl mai'r un un oedd Rhys Grythor o Gerrigydrudion â Rhys Grythor Hiraethog, ac y mae'r ymryson y cyfeiriwyd ato rhwng Wiliam Cynwal a Siôn Tudur yng nghartref y Doctor Elis Prys yn ateg i hynny.

¹ Gw. *Records of Early Drama: Wales*, ed. D.N. Klausner (Toronto, 2005), 168–9.

Diogelwyd cywydd Siôn mewn 25 ffynhonnell yn ôl MCF (19 o'r rhain a oedd yn hysbys i Enid Roberts pan luniodd ei golygiad hi), ond yn rhyfedd iawn mewn pedair ffynhonnell yn unig y cofnodwyd cywydd Raff. Mewn dwy ffynhonnell (BL Add 31099 a Card 1.2), dilyn y naill gywydd y llall. Diogelwyd y ddau gywydd yn Bangor 5945, ond er eu bod yn digwydd ar wahân, nodwyd ar ddiwedd cywydd Raff: *I fod yn nesa at gowydd i ofyn gwydd I Rys y Crythor*. Yr oedd y ddau gywydd, y naill yn dilyn y llall, mewn llyfr cywyddau a gopiodd John Jones, Gellilyfdy, ond a ddiplannodd bellach, gw. M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd llyfr cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40. Ymddengys fod Card 1.2 a Bangor 5945 yn tarddu o gopi John Jones, ond copi o Card 1.2 yw BL Add 31099 (y mae'r bylchau ar ddiwedd y testun yn cyfateb i'r rhannau a gollwyd yn Card 1.2 am fod ymyl y ddalen wedi treulio). Seiliodd Enid Roberts ei golygiad o'r cywydd hwn ar ddwy lsg., sef Card 1.2 a Bangor 5945.

2 **sôn** Camddarllenodd golygydd GST y gair a rhoi *Siôn* yn safle'r brifodl. Dyma ddarllenriad BL Add 31099, ond ni welodd y golygydd y llsgr. honno. Sylwer mai *Siôn* yw'r gair cyntaf yn y llinell sy'n dilyn, a gallai hynny esbonio'r llithriad.

r berfeddgoll.

3 **ffraeth awydd ffrw** Nid yw'r ystyr yn eglur, a rhaid dewis rhwng *awydd* ac *arwydd*. Gellid cynnig yr aralleiriad 'a chanddo wynepryd sy'n cyfleu chwant parod'. At hyn y mae'r llinell yn ddigynghanedd. O ddiwygio un gair gellid creu llinell sain gadwynog gymeradwy: *Siôn Tudur, ffraeth awdur ffrw*.

15 **naid ... nodwydd** Diogelwyd traddodiad llafar ym Môn am gamp Einion ap Gwalchmai a neidiodd dros afon yn Abernodwydd er mwyn ennill merch yn wraig, gw. GMB 431, 433, ac efallai mai bwriad y bardd oedd dwyn y digwyddiad i gof. (Diolch i Dr Ann Parry Owen am alw fy sylw at y cyfeiriad hwn.)

18 **câns** Diau mai ffrwyth camddarllen neu gamgopio yw *conis* y llsgrau. Diwygiwyd yn *câns* am fod angen gair unsill, a'i ddeall yn fenthyciad o'r *S. cane*, 'cyrs meinion cymalog cau a berthyn i rai planhigion', gw. GPC 407, ond i ddiwedd y 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodwyd.

cansiwn Diau fod *cainswn* y llsgrau. unwaith eto yn ffrwyth llygru. Awgrymir yn GST mai *cansiwn* 'llanc, llipryn main trwsogl', gw. GPC 417, yw'r ffurf a fwriadwyd, ac y mae honno yn ategu ergyd *câns* yn rhan gyntaf y llinell.

19–20 Anodd deall yr ergyd yn y cwpled hwn.

23 **sôn** Diwygiwyd *Siôn* y tair llsgr. er mwyn gwella'r ystyr, ond cf. 10.2n uchod.

- 25 **brugeintiach** Dilynwyd y llsgrau. yn GST *Fo wŷr gant o frugeintiach*, ac awgrymodd Enid Roberts mai ffurf wallus yn deillio o *brigand*, *brigant* oedd *brugeintiach*, er mai i ddechrau'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 324. Ar sail yr hyn a honnir yn y llinell sy'n dilyn, ymddengys mai ffurf 3 un.pres.myn. y ferf *gwyro* 'plygu; troi heibio', gw. GPC 1781, yw *gŷyr*. Honna Siôn y medr orchfygu cant o ladron ond mewn gwirionedd ni all wastrodi gwrach hyd yn oed.
- 26 Bai crych a llyfn.
- 34 **baslart** 'Dagr neu gleddyf byr a wisgid wrth y gwregys', gw. GPC 263. Dyma ddarlleniad y tair llsgr. er i Enid Roberts fabwysiadu'r darlleniad *bastart* a gofnodwyd, fel y barnai hi, yn Card 1.2. Ymateb i gyhuddiad Siôn Tudur a wneir yma am i hwnnw ddannod i Rys faint ei arf (ei gala?): *Gŵr serchog â bidog bach*, / *Cloren costowci cleiriach*, gw. GST 138.3–4.
- 36 **a gâi'i le'n deg** Rhannwyd y geiriau yn wahanol er mwyn gwella'r ystyr. Darlleniad y llsgrau. yw *ag ai le'n deg*.
- 37 **mawrwallt** Disgrifir yn y cwpled y modd y syniai Siôn Tudur am gartref Robert ap Rhys Gutun. Ystyrllon felly fyddai *mawrwall*. Ond gallai'r *gwallt* yn y cyfansoddair fod yn drosiad am y coedach sy'n gorchuddio'r tiroedd. Yn ôl Siôn Tudur: *Mae llawenydd, mae llwyni / Mieri a chyll mawr i chwi*, gw. GST 138.21–2.
- 40 Wyth sillaf yn y llinell, a thrachefn yn ll. 52.
- 42 **Tŷ Gwyn** Gallai fod yn enw priod, a cf. isod ll. 58, ond fel enw cyffredin y'i trinnir yn GST.
- 44 **tywyrch a glaead** Atebir yma un o gyhuddiadau Siôn Tudur: *Glaead teg, wrth fynegi*, / *A mawn a chawn sydd i chwi*, gw. GST 138.29–30.
- 50 **breiniwr** Y mae'n bosibl fod tair ffurf sy'n cynnwys yr elfen *braenar* (amr. *branar*) yn cael eu hailadrodd yn y cwpled, llau. 49–50, ond tebycach fod yr olaf yn ffrwyth llygru. Diwygiwyd *breniwr* llsgrau. AC yn *breiniwr* 'gŵr breiniol, gŵr bonheddig', gw. GPC 317.
- 62 **Rhys** Rhys Grythor, gw. y nodyn brig.
- 74 **clolied** Ffurf 3 un.orch. *clolio* 'baldorddi, gwag-siarad, clebran, cyboli', gw. GPC 506. I ddechrau'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf. Chwe sillaf yn y llinell.
- 78 Rhaid cyfrif *marw* yn air deusill.
n berfeddgoll.

Ceir yma gyfres o un englyn ar ddeg. Yn y cyntaf esbonnir sut y derbyniodd Moses y Deg Gorchymyn, ac yna neilltuir un englyn ar gyfer pob un o'r

gorchmynion, sef i. addoli Duw a gwrthod gau dduwiau; ii. ymatal rhag cymryd enw Duw yn ofer a thyngu anudon; iii. cadw'r Saboth; iv. anrhydeddu tad a mam; v. ymatal rhag lladd; vi. ymatal rhag godineb; vii. ymatal rhag dwyn; viii. ymatal rhag dwyn camdystiolaeth; ix. parchu'r cyflwr priodasol ac ymatal rhag chwennych gwraig cymydog; x. ymatal rhag chwennych eiddo cymydog. Y mae'r englynion yn gwbl gyson â dysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig ac yn dilyn y drefn sydd yn Ecsodus 20.1–17, gw. ODCC³ 382–3; NCE 4:5–8. Rhannwyd y gorchmynion yn wahanol yn y testun sydd yn Deut 5.6–21, a'r drefn honno a ddilynwyd gan Eglwys Loegr. Gwelir bod y drefn yn wahanol eto yn y gyfres a briodolir i Ddafydd Nanmor ond a gyfansoddwyd, yn ôl pob tebyg, gan fardd anhysbys yn yr 16g., gw. Gilbert E. Ruddock a Christine James, 'Englynion y Deg Gorchymyn', *Dwned*, 9 (2003), 81–90. Dyma drefn y gorchmynion yn y gyfres honno: 1–5, 7, 6 (*Na feddylia ... un meddwl drwg*), 9 (*Priodas ... a fynnir*), 8, 10 (*Na ddymuna dda dy ddyn / Na'i dŷ na'i wraig na'i dyddyn*). Gwahanol hefyd yw'r gorchmynion a'u trefn yn y cywydd a ganodd Dafydd Ddu Hiraddug, gw. GEO cerdd 4.

3–4 **Dengair ... Deddf** Felly y disgrifid y Deg Gorchymyn, gw. GPC 917, a cf. GIBH 5.45–6 *Na dengair deddf, ond meddwi, / I'm swydd nis cwpleais i*.

13 *r wreiddgoll*.

33 **magolaeth** Nis rhestrir yn GPC 2320, ond gellid tybio mai ffurf ar *magwraeth* ydyw a fathwyd er mwyn ateb gofynion y gynghanedd a'r mesur.

42 **rhannoedd** Y mae'r odl yn mynnu'r ffurf hon. Digwydd y terfyniad *-oedd*, sy'n cynrychioli 3 un.grff. y ferf, yn rhai o'r llsgrau. lle y diogelwyd canu Lewys Morgannwg, a digwydd hefyd mewn testunau rhyddiaith a gopiwyd ym Morgannwg, gw. GLMorg 10.42n; uchod 8.54n.

12

2 **cellwair** 'Siarad neu ymddygiad ysgafn neu chwareus' yw'r ystyron arferol, gw. GPC 459–6, ond ymddengys mai cyfarchiad yr archangel Gabriel sydd dan sylw yn y fan hon, ac os felly, gweddai ystyron megis 'gair, datganiad, cyfarchiad'.

3 **powair** Ni nodir y ffurf hon a ddaw o'r S. *power* yn GPC 2938, ond cofnodwyd y ffurfiau *pŵer*, *power*, *pwfer*, *pwyer*, *pywer*, a gw. hefyd EEW 270–1. Tebyg mai ffurf a fathwyd er mwyn ateb gofynion yr odl sydd yma.

13

4 **erfyn** Camgopiwyd y gair yn CC 450; *pervynn i help* a geir yno.

14

1 **cyrrydd** Ffurf 3 un.pres.myn. *cyrraedd* ‘ceisio, ymofyn’ y mae’r odl yn ei mynnu, ac amr. ar *cyrraedd*, *cyrraidd*. Am enghraifft o ganol yr 16g., gw. GPC 808.

3 ‘Duw Dad a rydd wedi [hynny] yr wyl [i ddyn]’.

15

4 **gwraig Lot** Adroddir hanes gwraig Lot, a drawsnewidiwyd yn biler o halen wedi iddi anwybyddu gorchymyn yr angel na ddylai edrych o gwbl ar Sodom wrth iddi hi a’i theulu ffoi oddi yno, yn Genesis 19.

16

3 **adwen** Yr odl yn hawlio’r ffurf lafar.

17

Englyn i Saith Weithred y Drugaredd, gw. 2.70n. Rhestrwyd y saith yn *Athrawaeth Gristnogawl* (1568), 57. Y mae awduraeth yr englyn hwn yn ansicr, gw. tt. 15–16.

19

Mab ac etifedd y Robert Salbri a farwnadwyd gan Raff (gw. cerdd 3) a gynghorodd y bardd i lechu rhag marwolaeth. Bu ef farw yn 1580. Tebyg mai yn ei gartref ac yn ei wýdd y canwyd englynion 52 a 58.

1 Un sillaf ar ddeg yn y llinell.

2 **catel** ‘Eiddo, da symudol, taclau, offer’, gw. GPC 439–40.

3 **pe llechai** Ceir ffurf 3 un.amhrff.dib. y ferf yn y ddau destun a gopiodd John Jones, Gellilyfdy, ac yn y ddau hynny y ceir y pennawd sy’n awgrymu mai yn ystod ei oriau diwethaf y canodd Raff yr englyn hwn.

20

Y mae cryn ansicrwydd ynghylch y gyfres hon ac ynghylch y priodoli, gw. td. 16.

1 Cyfatebiaeth $g = c$, a cf. 43.1–2n, ond gellid *o ginio* (gan ddilyn BL Add 14900), neu gellid trin *cinio* fel pe bai'n eb. (gan ddilyn LIGC 253A), gw. GPC 482.

4 Cyfatebiaeth $m = n$, neu *m* wreiddgoll ac *n* ganolgoll.

5 Un sillaf ar ddeg yn y llinell.

5–6 Y mae *ffwrdd* a *ffordd* yn proestio, ond efallai mai *ffwrdd* a *pha* sy'n ateb ei gilydd.

8 **ange** Y gynghanedd sain yn mynnu'r ffurf lafar.

22

Yn ystod teyrnasiad Edward VI cafwyd gwared ar yr allorau yn yr eglwysi, a rhoi byrddau moel yn eu lle. Coffeir y digwyddiad mewn dau englyn arall a gofnodwyd gyda'i gilydd yn yr un llawysgrif. Syr Tomas ap Maredudd a luniodd y cyntaf a gwaith Edward ab Ieuan yw'r ail, a dyma'r unig waith a restrir yn MFGLI 650, 4046 wrth eu henwau. Gwelir i'r tri bardd fydryddu'r flwyddyn 1550 yn eu henglynion:

Pymthegkant gwarant gwiw orav oesswr
oedd Iessv heb amav
devgain a dec chwanegav
pan roed allor or kor kav

Mil pvmkant gwarant nod geirwir (a dec)
a devgain i gelwir
ar vis ionor oss hennwir
ir llawr hwnt a r allor hir.

4 *r* wreiddgoll, ar ôl diwygio'r llinell.

23

Y mae'n bosibl mai yn ystod teyrnasiad y brenin Harri VIII y canwyd yr englyn hwn. Ym Mhen-rhys ym Morgannwg yr oedd y ddelw enwocaf o Fair, ac yr oedd ei phwysigrwydd yn hysbys i weinidogion y brenin, gw. Glanmor Williams, *Wales and the Reformation* (Cardiff, 1999), 127. Cludwyd y ddelw o Ben-rhys i Lundain lle y'i llosgwyd, yn unol â'r

gorchymyn a roes Thomas Cromwell ar 16 Awst 1538. Ar y canu i Fair ym Mhen-rhys, gw. Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r genedl', *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1995), 27–71. Am destun y ddau gywydd a ganodd Lewys Morgannwg i Fair, gw. GLMorg cerddi 102–3.

- 2 **mab drogan** 'Y sawl y proffwydwyd ei ddyfodiad'. Mewn cyd-destun gwleidyddol y defnyddiwyd yr ymadrodd yn IGE LV.46.

24

- 4 [y] **ddwy ffydd** Glynu wrth yr hen ffydd a wnâi Raff, a barnu wrth dystiolaeth cerddi 22, 23 a 25, ond yn yr englyn dan sylw awgryma'r bardd na lwyddasai'r hen ffydd, na'r ffydd newydd, hithau, i wella bucheddau ei gyd-ddynion.

25

- 1 **ydan** Nodir y ffurfiau bach. ar *yđ* yn GPC 3750, sef *ydyn* ac *yden*, ond hawlia'r odl y ffurf *ydan*.

26

Ar 4 Mehefin 1561, sef diwrnod Gŵyl Corff Crist (gw. ll. 7), trawyd clochdy Eglwys Pawl yn Llundain gan fellten ac fe'i difrodwyd yn helaeth. Lluniodd Siôn Tudur ddau englyn ar yr achlysur, gw. GST cerddi 224 a 225, ac yn GST ii, 652–4 dyfynnir sawl englyn gan feirdd eraill megis Simwnt Fychan a Siôn Brwynog (er bod peth amheuaeth ynghylch dilysrwydd y priodoli). Dyfynnir yr englyn yn yr adran 'Dosparth ar fessarau cerdd dafod' yn *Gramadeg Cymraeg* Gruffydd Robert (atgynhyrchiad, Caerdydd, 1939), 39. Priodolir yr englyn i *T ap Robert*.

- 1 **cyflym** Tebycach ei fod yn goleddfu *damwain* yn hytrach nag *oed ... Crist*.

diffuglyd Ansoddair a luniwyd o'r enw *ffugl* 'chwa, gwynt' yw *ffuglyd* er nas cofnodwyd yn GPC 1324. Ond gellid hefyd *di + ffug + glud* 'achlysur trallodus byw a real'.

- 2 **ffaglwyd** *Phaglod* a geir yn y *Gramadeg Cymraeg*.

- 3 Wyth sillaf yn y llinell, ond y mae'r hyd yn rheolaidd o ddilyn y *Gramadeg Cymraeg: Pymtheccant rhifant y rhain*.

- 7 **noswyl Gorff Gwyn Iesu** Gw. y nodyn brig.

27

Ni ellir bod yn sicr mai Raff a ganodd yr englyn hwn, gw. td. 16.

28

- 1 **Siôn** Yn anffodus nid oes digon o wybodaeth am y sawl a gyferchir i'n galluogi i'w adnabod.
- 2 **dangos** Rhaid wrth *ng* yn *dangos* i gynganeddu â [*t*]yngu ym mraich gyntaf y paladr. Ond cynnwys *dangos* y clymiad *n.g* fel y tystia'r llinell *Dangos o'th radau dawngoedd*, gw. DG.net 48.45; GDG³ 94.45. Cyfeirir at eiriau sy'n cynnwys yr un clymiad yn J. Morris-Jones: CD 226–7. Am enghraifft arall yn y canu, cf. 9.43n.
- 3 **defed** Yr odl yn hawlio'r ffurf lafar.

29

- 11 **garwedd** Bernir mai ffurf lafar yr ansoddair *garwaidd* 'go arw' sydd yma, gw. GPC 1384, yn hytrach nag *arwedd* 'ffurf, gwedd, ymddangosiad', gw. GPC 485.
- 12 **ennyn** 'Y weithred o ennyn; y cyflwr o fod ynghyn', gw. GPC 1216; yma â grym ansoddeiriol 'tanbaid, eithafol'. Bu'n rhaid diwygio darlleniad diystyr y llsg., ond gellid hefyd *annyn* 'adyn', gw. GPC 147. *m wreiddgoll*, neu gyfatebiaeth $m = n$, ac am enghraifft arall cf. 20.4.
- 13 Un sillaf ar ddeg yn y llinell.
- 13–16 Yn un o chwedlau Aesop, adroddir am y ci a gollodd ei asgwrn wrth iddo geisio dwyn asgwrn y ci y gwelodd ei lun yn y dŵr o'i flaen. Yr oedd rhai o'r chwedlau wedi eu delweddu ar banelau pren yn eglwys Llanynys, gw. M.E. Speight, TCHSDd 11 (1962), 112–15; Enid Roberts, TCHSDd 16 (1967), 149–51.
- 15 Nid oes bwlch yn y llinell, ond y mae'n amlwg ei bod yn anghyflawn fel y cofnodwyd hi yn y unig llsg.

30

Ar awduraeth yr englyn a'r cynnwys, gw. td. 17.

- 1 **Gwener** Ar arwyddocâd y diwrnod hwn, gw. yr adran *llymma ir achossion y delyr ympridiet duw Gwener yn vwy no diwarnod arall* yn Pen 53, 85–6; hefyd *Peniarth* 53, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1927), 42–3.

31

1–2 Cyfatebiaeth *f = ff* o dan yr acen rhwng y cyrch a dechrau ail ran y paladr.

32

1 **doler** Diwygiwyd *dolur* y llsg. yn *doler* er mwyn sicrhau bod y brifodl yn rheolaidd. Am enghraifft ddiweddar o'r ffurf, gw. GPC 1074.

4 **Duw a wnêl** 'Bydded i Dduw sicrhau', gw. GPC 1101, ond ni ddyfynnir enghraifft gyfoes.

enyler Ffurf amhrs.grch. *enylu*, amrywiad ar *anelu* 'cyfeirio, saethu, taro', gw. GPC 112, 1224. 'Bydded i Dduw sicrhau na chaiff dy lygaid eu hanelu ataf.'

34

1 Un sillaf ar ddeg yn y llinell.

4 **aml** Rhaid ei gyfrif yn air deusill.

35

3 **ysgroc cell** Amrywiad ar *ysgrogell* 'pont fechan', yma yn ddifriol am wraig fusgrell a chefngrwm, gw. GPC 3846, o'i chyferbynnu â *geneth* (ll. 1).

36

2 Dilynwyd darlleniad yr unig lsg., ond ceid gwell ystyr o ddiwygio a darllen *Rhag eich bod i'm rhwystraw*.

3–4 'Gwell [i mi] yw cilio mewn [cyflwr o] weddwod rhag cyfeillach [â] gwraig grintach.'

37

Yn yr englyn hwn honna Raff na fyn gyfathrachu â merch ddienw, hyd yn oed pe câi werth ei phwysau mewn crwyn.

1 Nid yw'r llinell yn gwbl foddhaol o ran ei hyd nac o ran ei chynganeddiad. Diwygiwyd *peradfwyn* er mwyn gwella'r ystyr, ond ailadroddir *addwyn* yn safle'r brifodl yn ll. 3. Gellid *ddyn brydferth*, *briodfwyn*, ond er y ceid rhagorach cynghanedd ni chwtogai hynny ar

hyd y llinell.

- 2 Diwygiwyd *oni ddelwn* y llsgrau. er mwyn sicrhau bod hyd y llinell yn rheolaidd, ond newidiwyd yr ystyr yn llwyr trwy wneud hynny.
- 3 *n* wreiddgoll ac *f*led-lafarog.
- 4 *r* wreiddgoll.

38

- 3 **gwannwr** Dyma'r darlleniad gorau yn ddiau, ac y mae'n ategu'r disgrifiad [g]ŵr *di-iechyd cul* yn llinell gyntaf yr englyn, ond o ystyried y pwnc dan sylw, gellid *gwanwr* 'un sy'n gwanu neu'n trywanu, brathwr, treiddiwr', gw. GPC 1575.

39

- 1 **sied** 'Gwael, diwerth' yw'r ystyr yn 54.23n isod, ond nid yw'r ystyr yn gweddu yn yr englyn hwn. Gallai fod yn ffurf naill ai ar i. S. *jet* 'a projection, protruding part', gw. OED² 8:223, er mai i ddechrau'r 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir; neu ii. S. *jet* 'black'.
- 3–4 Dilynwyd darlleniad LIGC 3039B sy'n cynnwys y gair cyfansawdd *meddaldro*, er bod y gyfatebiaeth yn y gynghanedd lusg yn bengoll; sylwer bod trefn yr acenion yn y brifodl yn wahanol yn y ddau destun a ddiogelwyd yn LIGC 253A a 1553A. Defnyddiodd John Jones, Gellilyfdy, air teg er mwyn osgoi'r ymadrodd *cal*, fel y gwnaeth yn yr englyn sy'n dilyn, gw. 40.4, a cf. o bosibl hefyd 67.1n.

40

- 4 **cal** Gw. 39.3–4n.

42

- 1 Diwygiwyd y llinell er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd.
cwman 'Pedrain, tin, crwper' yw'r ystyron gorau yma yn hytrach na 'cerwyn, llestr, buddai', gw. GPC 640–1. Diweddar yw'r idiom *yn ei gwman*.
- 3 **cwm hir** Gellid deall yr ymadrodd yn llythrennol. Er bod cymhares y bardd yn gefnog nid yw'n meddu ar nwyd ac angerdd.

43

1–2 Cyfatebiaeth *g = c* rhwng y gair cyrch a dechrau ail ran y paladr ar ôl diwygio er mwyn sicrhau bod treigladd rheolaidd yn dilyn *neu*. Ceir cyfatebiaeth caled a meddal ar achlysuron eraill, cf. 20.1n.

1 Naw sillaf sydd yn y llinell.

45

1 **arbennig** Ymddengys fod iddo rym enwol yma, sef ‘un sy’n bennaeth mewn brwydr’ neu ‘un sy’n llwyddo mewn brwydr’, gw. GPC 178.

47

1 Cofnodwyd y darlleniad amrywiol *Glas chwerrthin oi min a yn y ddwy lsg.*

49

Perthyn rhyw gymaint o amwysedd i’r englyn am fod ystyron cadarnhaol a negyddol i *mwnws* (ll. 2) ac *eurych* (ll. 4). Gall *mwnws* olygu ‘cyfoeth, golud’ yn ogystal â ‘gweddillion diwerth, gwaddod’, gw. GPC 2511, ac yn yr un modd gall *eurych* olygu ‘gof aur neu arian’ yn ogystal â ‘tincer’, gw. GPC 1261. Am fod y pwyslais ar falchder y ferch, efallai mai’r ystyron negyddol sydd amlycaf.

1 **hedion** Ffurf ar *ehedion*, un. *ehed* ‘tywys gweigion, ... yn ffig am eiriau neu arferion neu ddyinion twyllodrus’, gw. GPC 1183.

3 Chwe sillaf yn y llinell.

50

1 **annedd ... dreigiau** Cyfeiriad, o bosibl, at y ddwy ddraig a ddisgrifir yn ymladd yn erbyn ei gilydd yn chwedl ‘Lludd a Llefelys’: ‘*Yr eil ormes,*’ heb *ef*, ‘*yssyd y’th gyuoeth di, dreic yw honno, a dreic estrawn genedyl arall yssyd yn ymlad a hi ac yn keissaw y goresgynn. Ac wrth hynny,*’ heb [*ef*], ‘*y dyt ych dreic chwi diaspat engiryawl*’, gw. *Cyfranc Lludd a Llefelys*, ed. Brynley F. Roberts (Dublin, 1995), 4 (llau. 92–5). Ar y frwydr, a’r defnydd a wnaed o’r hanes, gw. *ib.* xxxiii–xxxix.

ymwan Yr ystyron ‘ymladd, gwrthdaro’ yw’r rhai amlwg ar sail yr

ymateb a gofnodir yn ll. 3 *Pen giliais rhag poen golau*, ond gallai gyfleu ‘cyfathrach rywiol’ yn ogystal, gw. GPC 3806.

4 Camosodiad ch.th = th.ch.

51

4 **tri donc** Cymerir mai ffurf amrywiol ar *tonc* ‘cân; ergyd’ sydd yma, ond ni chofnodwyd y ffurf yn GPC 3520. Eb. yn unig yw *tonc* yn ôl GPC. Gweddai’r ystyr ‘ergyd’, os gellir rhoi coel ar yr esboniad yn llawysgrif C. Os caiff y ferch dri ergyd ar ei phen, buan yr anghofia am y deincod neu’r ddannoedd.

52

Ar awduraeth yr englyn gw. td. 17.

1 **Bachymbyd** Un o gartrefi’r Salbriaid oedd Bachymbyd ym mhlwyf Llanynys, gw. CLC² 31. A barnu wrth dystiolaeth Siôn Tudur, byddai’r clerwr Robin Clidro (gw. cerdd 57) yn ymweld â’r plasty ar ei deithiau, gw. GST 143.35–8: *I Glocaenog y rhedai, / Dwyn gwib i Fenechdyd a wnâi. / Erbyn y nos, â’r clos clyd, / Fal chwimbren i Fachymbyd*. Yno hefyd y cyfarfû Raff â Thomas Grythor y Foch, a’i gyfarch, gw. cerdd 58.

4 **pumoes** ‘Hyd pum bywyd’, a thopos tra chyffredin oedd dymuno hiroes i noddwr, ond rhennid gynt y cyfnod cyn Crist yn bump o oesau, gw. GIBH 8.9n.

53

Rhagflaenir yr englyn a ganodd Raff i Wiliam Llŷn yn LIGC 1553A gan englyn Wiliam i Raff, gw. Atodiad iv. Ceir testun o englyn Wiliam Llŷn yn GWLl td. 675.

1 **Deinel** Ffurf ar *Deiniel* a *Deiniol*, gw. G 296; LBS ii, 325–31.

2 **Isrel** Y mae’r odl yn hawlio’r ffurf lafar.

54

Cyfes o chwe englyn dychan i’r bardd Gruffudd Hiraethog sydd yma (a gw. y ddwy gerdd sy’n dilyn, 55–6), ond mewn un ffynhonnell yn unig y diogelwyd y gyfes yn ei chrynswth; yr englyn cyntaf yn unig a gofnodwyd

yn y ffynonellau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r englynion yn digwydd gyda'i gilydd yn un dilyniant yn LIGC 3039B: ceir un ar dudalen 107, un arall ar y tudalen sy'n dilyn, tri ar dudalenau 129–30 ac un arall eto ar dudalen 225, ond y mae'n amlwg fod y copiwr, John Jones, Gellilyfdy, o'r farn mai un gyfres oedd yma. At dudalenau 129–30 lle y cofnodwyd tri o'r englynion rhifwyd y rheini (yr ail, y pumed a'r chweched), nodwyd lleoliad y tri englyn arall yn y gyfres a nodwyd hefyd ym mha le yn y llsgr. yr oeddent i'w cael.

Argraffwyd yr englynion yn GGH cerdd 152. Bu rhai o'i ddisgyblion yn dychanu Gruffudd mewn neithiorau yn ardal y Bala, yn y Rhiwlas ac yn Rhiwedog, gw. GGH cerddi 150–1, ac efallai mai ar achlysur o'r fath y lluniodd Raff yr englynion hyn.

- 3 **cwd byr** Ceir tystiolaeth mewn cerddi eraill mai gŵr byr o gorff oedd Gruffudd Hiraethog, a cf. isod 56.1 *byr bawlyd banel*. Yn ôl Syr Owain ap Gwilym a farwnadodd Ruffudd, gw. GGH atodiad I.60–1 *Ei gorff oedd fychan i gyd, / Ei ddysg oedd fawr, os gwyddid*; ac agorodd Wiliam Llŷn ei farwnad ef i'r un gŵr trwy gyfarch *Y bardd bach uwch beirdd y byd*, gw. *ib.* atodiad III.1.
- 4 Ceir yma gyfatebiaeth -m m- = -n m- a gw. 2.83n. Diwygiwyd *crwm* yn *crwn* yn llsgr. LIGC 3039B er mwyn cryfhau'r gynganedd, ond gan y bydd *n* ar brydiau yn ateb *m*, cadwyd y darlleniad gwreiddiol.
- 9 **surbren** 'Pren melyn, eurddraenen'. Yng ngeiriadur Thomas Wiliems y digwydd yr enghraifft gynharaf a gofnodwyd yn GPC 3357.
- 12 **drogen** Ffurf amrywiol ar *trogen* 'unrhyw un o amryw fathau o bryfed parasitig, yn ddifriol am berson', gw. GPC 3530.
- 13 **anheleth** Y gynganedd sain yn hawlio'r ffurf lafar.
- 15 **nâr o Annwn** 'Corrach, cor', gw. GPC 2552. Ategir yma mai gŵr byr o gorff oedd Gruffudd, a cf. 54.3n. Synnid am drigolion Annwn, neu'r tylwyth teg, fel rhai bychain o gorffolaeth, gw. PKM 99–101; T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore and Folk-custom* (London, 1930), 54–5.
- 23 **sied** Nid *siêd* 'fforffed' sydd yma, fel yr awgrymir yn GGH. Cynigir i *sied* yr ystyr 'twyllodrus' yn GST 51.77n, a cf. GGI² LXXIX.31–2 *Ni chais un mwy no chyw sied / Dy fwnwgl gan dy feined*. Gweddai'r ystyron 'gwael, diwerth' yma, gw. GPC 3272.

Dychan i Ruffudd Hiraethog yw'r englyn hwn a'r englyn canlynol, a cf. cerdd 54 uchod. Y mae'r naill englyn yn dilyn y llall yn LIGC 1553A fel pe baent yn rhan o gyfres, ond yma yn unig y ceir y ddau englyn gyda'i gilydd. Diogelwyd cerdd 55 mewn tair ffynhonnell a cherdd 56 mewn pedair

ffynhonnell. Golygwyd y ddau englyn a'u cynnwys yn GGH cerdd 152.

- 1 **pegor** 'Corrach', gw. GPC 2714. Fe'i harferir weithiau yn ddirmygus (fel yma), dro arall mewn anwylydeb. Byrdra Gruffudd a bwysleisir yma eto, gw. 54.3n.

56

Gw. ar gerdd 55.

- 1 **brasffrog** *Bras + ffrog*. Rhestrwyd y cwpled yn GPC 1316 d.g. *ffroga*, *ffrogy*, *ffrog* 'broga, llyffant'.

57

- 1 **caled** 'Crintach, cynnil, cyndyn', gw. GPC 392, a cf. 36.4 *gwraig galed*.
 4 **Clidro** Robin Clidro. Arno, gw. CLC² 634 a'r rhagymadrodd td. x. Ceir cyflwyniad cryno i'w waith gan Cennard Davies, 'Early free-metre poetry', *A Guide to Welsh Literature c. 1530–1700*, ed. R. Geraint Gruffydd (Cardiff, 1997), 75–99 (tt. 78–81 yn benodol). Lluniodd Robin gyfres o bedwar pennill i ateb englyn Raff, gw. Atodiad ii. Diogelwyd dau gopi o'r englyn yn llaw Iolo Morganwg, y naill mewn casgliad o englynion (LIGC 13118B), a'r llall mewn rhestr o eiriau d.g. *cliccied*, LIGC 13155A, 295.

58

Yr oedd Tomas Grythor y Foch, gellid tybio, yn gymeriad pur adnabyddus, ac yn rhinwedd ei swydd byddai'r prydyddion yn taro arno ar eu teithiau clera. Canodd Gruffudd Hiraethog gywydd ar ei ran i erchi dagr gan Rydderch ap Hywel o'r Creuddyn, ond crynhoir y cyfan sydd ganddo i'w ddweud am y crythor yn y cwpled a ganlyn: *Câr i'th raid, crythor ydwyf, / Cyfan o dras cefnder wyf*, gw. GGH 111.37–8. Yn anffodus, methwyd â tharo ar ach y rhoddwr ac o'r herwydd ni chafwyd goleuni ar gysylltiadau achyddol y crythor. Canwyd sawl englyn iddo ac y mae'r rheini yn yr un cywair ag englyn Raff, ac yn ei ddychanu ar sail ei wynepryd. Canodd Simwnt Fychan iddo, gw. Pen 99, 622, ynghyd â Siôn Tudur, gw. GST cerdd 257. Y mae a wnelo englyn Siôn Tudur drachefn â natur amwys enw'r crythor.

Byddai nifer o'r cerddorion yn llunio cywyddau ac englynion, a bu Tomas yn ymryson â Siôn Tudur, gw. GST cerdd 258, ac â Huw ap Dafydd ab Ithel, gw. LIGC 3039B, 112, ond nid ymryson rhyngddo ac Edward ap Raff a gofnodwyd yn LIGC 3039B, 99–100 fel yr awgrymir yn GST ii, 667.

Canodd Tomas englyn i Raff, ond fe'i priodolir hefyd i Siôn Tudur, a'i gynnwys ymhlith ei ganu yn GST cerdd 251, gw. Atodiad iii a'r rhagymadrodd, td. 9–10.

1 **Tomas** Tomas Grythor y Foch, ac arno gw. ByCy 878 (ond cywirach fyddai ei ddyddio i'r 16g.). Rhestrir y cerddi wrth ei enw yn MFGLI 3940. Y mae'n amlwg fod yr enw yn un cyfarwydd; enwir *Thomas Grythor als prydydd y voch* yn yr 'Hen Gofrestr Enwau ag amseroedd Beirdd' yn LIGC 21294B.

pwyntio 'Pesgi, tewychu', gw. GPC 2951–2, yw'r ystyron sy'n gweddu orau yma.

3 Cyfatebiaeth d = t.

59

Hywel Bangor a ddychenir yn yr englyn hwn. Hanai o Faelor ac yr oedd yn ei flodau tua 1540, gw. ByCy 382. Englynion yw'r cwbl o'i waith a gofnodwyd, gw. MFGLI 1624–5. Canodd un ohonynt i Ruffudd Hiraethog, gw. GGH cerdd 154, a chanodd hefyd i Lewis ab Edward wedi i'r ddau ohonynt gael eu troi o gartref gŵr bonheddig pan oeddynt yn clera yn y de: *Siria di, Lewys, od oes arian gennyf, / Ni a ganwn mewn tafarn, / Ac a beidiwn â'r gŵr gwybodol, / Cybydd mawr ni fyn mo'i geibio mwy*, gw. Lewis ab Edward: Gw 144.

60

Ni wyddys pwy oedd y ddau grythor a ddychenir ar yr achlysur hwn. Lluniodd Raff englyn i Domas Grythor y Foch (cerdd 58), ac enwir dau gerddor arall, Rhys Grythor a Robert ap Rhys Gutun, yn ei gywydd ymryson â Siôn Tudur (cerdd 10).

1 **diddawr** Gw. *diddawr*² yn GPC 967, 'diofal, dihidio, diddarbod'. Yng ngeiriadur Wiliam Llŷn y cofnodwyd y gair am y tro cyntaf.

3–4 **ni thalant ... / Ddwy grothell** 'Nid ydynt yn werth dwy grothell.' Ar *tal* 'bod yn werth', gw. GPC 3426.

4 **crothell** 'Pysgodyn byr boliog', gw. GPC 612. Awgrymir bod cân y ddau grythor yn ddiwerth.

61

Ymddengys fod Raff yn cyfarch un o'i gyd-feirdd (*gloyw enaid y glêr*, ll. 3) ac yn ei annog i beidio â dal dig ar gyfrif rhyw ddadl neu anghydfod a fu rhyngddynt yn y gorffennol.

- 1 **awgrym** ‘Arwydd, amnaid, ystum’, gw. GPC² 544.
- 4 **bet** Ddeilir *bet*¹ ‘casineb, dig’, gw. GPC² 635 (yn hytrach na *bet*² ‘cyngwystl’, gw. *ib.*). I chwarter olaf yr 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir.

62

Awgryma'r pennawd mai digwyddiad yng nghartref Rhys Dau Hanner a goffeir yn yr englyn. Mewn englyn ymryson geilw Guto'r Glyn Ieuan ap Gruffudd Leiaf yn Ieuan Dau Hanner. ‘Cyfeirir at y ffaith ei fod yn disgyn o dras brenhinol ar ochr ei dad, ac o grefftwyr gwlad ar ochr ei fam’, gw. GG.net cerdd 93, GGI cerdd VI. Efallai fod gwaed cymysg yng ngwythiennau Rhys Dau Hanner yntau.

- 2 **andler** Ffurfiau amrywiol ar *amllder* yw *amllder* ac *andler*, gw. GPC² lle y cofnodwyd enghreifftiau o gyfnod y bardd.
- 3 Wyth sillaf yn y llinell, ond gellid saith sillaf o gywasgu *oddi ar* yn unsill.
- 4 Cymerir mai ‘dau hanner’ yw gwrthrych y ferf, a bod y bardd yn cyfeirio at y cig crimp, ac ar yr un pryd yn chwarae ar enw'r gwesteigr (ond y mae'n bosibl fod y pennawd yn ffrwyth camddehongli cynnwys yr englyn). Nid oes cynghanedd yn y llinell, ac y mae'n bosibl, felly, ei bod yn llwgr.

63

- 1 **borau** Y mae'r odl yn hawlio'r ffurf hon, a cf. 5.49n.

64

- 3 *r* berfeddgoll.

65

- 1 **Tomas** Tybed ai i Grythor y Foch y canwyd yr englyn hwn? Arno, gw. cerdd 58.

66

- 3 *n* berfeddgoll.

- 4 **cern** Mentrus fyddai awgrymu mai Tomas Grythor y Foch a gyhuddir yn yr englyn ar sail y gair hwn sy'n gyfystyr ag ‘asgwrn y foch, ochr y pen’, gw. GPC 968.

67

